Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 22ain Ionawr, 2019 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Cyllid |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | CAIS AM ADNODD TRAWSNEWID GWASANAETH I'R GWASANAETH PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD | Cyng. Dilwyn Morgan | Marian Parry Hughes | 5 - 7 |
| 6 | CYNLLUN PRENTISIAETHAU - BID I'R GRONFA CYNLLUN Y CYNGOR | Cyng. Nia Jeffreys | Geraint Owen | 8 - 12 |
| 7 | CAIS AM ADNODDAU CYNLLUN Y CYNGOR I DRAWSNEWID Y GYFUNDREFN ADDYSG | Cyng. Gareth Thomas | Garem Jackson | 13 - 17 |
| 8 | CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | Cyng. Peredur Jenkins | Dafydd L Edwards | 18 - 37 |
| 9 | RHAGLEN CYFALAF 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | Cyng. Peredur Jenkins | Dafydd L Edwards | 38 - 44 |
| 10 | TROSOLWG ARBEDION 2018/19 - ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION | Cyng. Peredur Jenkins | Dafydd L Edwards | 45 - 50 |
| 11 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GEFNOGAETH CORFFORAETHOL | Cyng. Nia Jeffreys | Dilwyn Williams | 51 - 65 |
| 12 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AEOD CABINET DROS DDATBYLGU'R ECONOMI | Cyng. Ioan Thomas | Iwan Trefor Jones | 66 - 74 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 13 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GYLLID | Cyng. Peredur Jenkins | Dilwyn Williams | 75 - 118 |

Eitem 5

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **22ain Ionawr 2019** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dilwyn Morgan** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Marian Parry Hughes** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679228** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cais am adnodd trawsnewid gwasanaeth (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1. Gofynir am gymeradwyaeth y Cabinet i neilltuo £34,382 o Gronfa Cynllun y Cyngor i ariannu swydd swyddog trawsnewid am gyfnod penodol o flwyddyn yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i gynnal ymyrraeth penodol er mwyn sicrhau fod gwasanaethau'r Adran yn gweithredu yn y modd mwyaf effeithlon bosibl.

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1. Mae disgwyliad fod adrannau yn gweithredu i sicrhau nad oes trefniadau di-angen yn parhau o fewn eu gwasanaethau a bod gweithdrefnau a thasgau angenrheidiol yn digwydd yn y ffordd mwyaf effeithlon posibl.

2.2. Mae'r Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd yn credu fod angen adolygiad llawn o thrylwyr o'u holl ddyletswyddau a'r tasgau cysylltiedig ar draws y gwasanaeth er mwyn darparu sicrwydd fod y gwasanaeth yn rhedeg yn effeithiol ac yn effeithlon.

2.3. Yr ydym mewn cyfnod anodd a heriol o ran y cynnydd yn y galw an wasanaethau a'r pwysau ariannol sydd ynghlwm â hynny.

2.4. Yng nghyd destun yr uchod, ac yn unol â chais y Tim Arweinyddiaeth, bu'r Pennaeth yn trafod gyda'r aelodau ar Hydref 16eg, 2018 y syniadau ar gyfer symud tuag at well effeithlonrwydd o fewn y gwasanaeth.

2.5. Yn hanesyddol, mae canfyddiad nad yw'r gwasanaeth yn gwneud y mwyaf o'r cyfleodd i wireddu effeithlonrwydd, ac yn sgîl y drafodaeth a gafwyd ym mis Hydref, bu'r gwasanaeth yn pwyso a mesur ac yn ystyried yr hyn a drafodwyd, ac fel canlyniad cyflwynwyd cais i'r Tim Arweinyddiaeth ar Ragfyr 4ydd, 2018 am adnodd penodol i arwain y gwasanaeth drwy brosiect trawsnewid.

2.6. Bwriad y gwaith fydd i arwain at sicrwydd fod y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd yn ymarfer yn y ffordd mwayf effeithlon posibl er budd pobl Gwynedd ac yn gweithredu unrhyw newidiadau fydd eu hangen er mwyn gwneud hynny.

**3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

3.1. Derbyniodd y Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd archwiliad llawn gan Arolygaeth Gofal Cymru yn ystod mis Mai 2018. Derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn ar ddiwedd yr archwiliad oedd yn datgan fod gan y gwasanaethau i blant a'u teuluoedd yn Ngwynedd 'gryfderau sylweddol'.

3.2. Cadarnhawyd fod ymarfer diogelu yn y gwasanaeth yn derbyn blaenoriaeth a bod prosesau yn gadarn ac yn cydymffurfio â disgwyliadau statudol, a bod canlyniadau i blant yn dda. Mae canlyniad yr archwiliad felly yn gosod sylfaen dda i ddatblygu i'r dyfodol ac yn dystiolaeth fod y gwasanaethau a ddarperir yn effeithiol.

3.3. Nid oedd unrhyw ofynion gwella wedi eu hadnabod gan yr Arolygaeth, ond nodwyd fod rhai meysydd oedd angen eu cryfhau, ac fel canlyniad mae'r gwasanaeth wedi llunio rhaglen uchelgais sydd yn canolbwyntio ar y meysydd hyn. Bydd cynnal adolygiad o'r gwasanaeth yn gam allweddol yn ein gallu i drawsnewid elfennau o'r gwasanaeth.

3.4. Mae enghreifftiau yn y gwasanaeth ble mae timau penodol yn gweithredu i drawsnewid trefniadau a phrosesau yng nghyd destun egwyddorion Ffordd Gwynedd, ond nid yw'r ymyrraethau yma ar eu pen eu hunain yn amlygu fod y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd yn gwneud y mwyaf o'r cyfleodd i sicrhau effeithlonrwydd.

3.5. Er mwyn cynnal adolygiad llawn a thrylwyr, mae'r gwasanaeth o'r farn fod angen adnodd penodol o swyddog trawsnewid i weithio gyda'r Uwch Dim Rheoli a'r timau gweithredol statudol (trothwy gwasanaethau cymdeithasol), o ddrws ffrynt y gwasanaeth i'r meysydd lle mae anghenion yn ddwys a chymhleth.

3.6. Rhagwelir y bydd angen adnodd am dridiau yr wythnos dros gyfnod o chwe i naw mis i gynnal yr adolygiad, ac yna rhagwelir y bydd angen o leiaf tri i chwe mis o gefnogaeth gan y swyddog trawsnewid i wireddu unrhyw newidiadau a argymhellir.

3.7. Bydd disgwyliad i'r swyddog trawsnewid weithio yn agos gyda rheolwyr a gweithwyr rheng flaen o fewn y timau dan sylw gan dynnu ar abenigedd o feysydd eraill pan fo'r angen yn codi. Yr Uwch Dim Rheoli fydd yn arwain ac yn llywodraethu'r gwaith drwy weithredu fel Bwrdd Prosiect, a bydd gan y swyddog trawsnewid fynediad i amser ac arbenigedd yr Uwch Reolwyr ar gyfer cynnal y gwaith.

3.8. Rhan allweddol o'r gwaith yw i newid diwylliant ac i atgyfnerthu meddylfryd Ffordd Gwynedd yn barhaus drwy gynnig cefnogaeth, her a chymorth i symud rhwystrau, yn ogystal âg arwain i sicrhau fod y seilwaith yn ei le er mwyn ateb gofynion y gwasanaeth a chynnyddu effeithlonrwydd ar draws y maes.

3.9. Mae adnabod cyfleoedd cydweithio ar draws y Cyngor a gyda partneriaid yn rhan allweddol o'r gwaith, ac mae hyn yn cydfynd â gweledigaeth ehangach y gwasanaeth ar gyfer y dyfodol, er enghraifft datblygu'r Strategaeth Cefnogi Teuluoedd 'r gwaith prosect Diogelu Plant yn Effeithiol.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. O gymeradwyo'r cynllun, gofynnir am adnodd am dridiau yr wythnos am gyfnod o flwyddyn, sef £34,382.

4.2. Bwriedir penodi swyddog ar sail dros dro neu ar sail secondiad i'r swydd o ddechrau Mawrth 2019.

## 5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1. Nid oedd unrhyw ymgynghoriadau

5.2. **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**
**Dim sylwadau ynglŷn â phriodoldeb**

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

**Bydd sawl angen / defnydd haeddiannol yn cystadlu am adnodd prin o Gronfa Cynllun y Cyngor ar gyfer trawsnewid gwasanaethau. Mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethu'r ceisiadau sy'n gwneud gwahaniaeth wrth ddyrannu adnoddau'r Gronfa. Cadarnhaf fod darpariaeth ddigonol i ariannu'r cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno am ystyriaeth y Cabinet, a bod arian pellach wrth gefn ar gyfer rhai prosiectau eraill fydd yn cyrraedd cyfarfodydd dilynol o'r Cabinet am gymeradwyaeth.**

**Atodiadau**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **22 Ionawr 2019** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 335** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Prentisiaethau - Bid i'r Gronfa Cynllun y Cyngor** |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

a) Cymeradwyo sefydlu cynllun prentisiaethau

b) Ymrwymo £300,000 o'r Gronfa Cynllun y Cyngor er mwyn sefydlu cynllun prentisiaethau i gyflogi o leiaf 20 prentis newydd yn 2019.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Mae'n hanfodol cysoni a gwella lefelau sgiliau yng Ngwynedd yn barhaus er mwyn gallu ymateb i heriau'r dyfodol, sicrhau dyfodol positif a chadw ein pobl ifanc yn lleol. Mae cyfle i'r Cyngor arwain y ffordd drwy gynnig prentisiaethau o'r ansawdd uchaf ac yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.2. Mae sefydlu cynllun prentisiaethau yn un o'r blaenoriaethau yng Nghynllun busnes arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2019/20.

2.3. Bydd cynllun prentisiaethau llwyddiannus hefyd yn ffordd effeithiol o ymateb i anghenion cynllunio gweithlu'r Cyngor *('i gael y bobl gywir, efo'r sgiliau cywir, yn y llefydd cywir ar yr amser cywir').*

2.4. Y rhwystr mwyaf ar gyfer gwireddu cynllun prentisiaethau yw'r gyllideb i ariannu cyflogau'r prentisiaid. Serch hynny, mae nifer o wasanaethau'r Cyngor wedi datgan dymuniad i gyflogi prentisiaid ac wedi ymrwymo yn rhannol.

## 3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1. Mae prentisiaeth yn gyfle i unigolyn ddatblygu gyrfa drwy weithio efo pobl brofiadol, derbyn hyfforddiant, ennill sgiliau a chymwysterau addas a chael cyflog yr un pryd.

3.2. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dalu cyflog teg i brentisiaid newydd, sy'n gyfystyr â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol *(Gweler **Atodiad A**).* Mae hyd prentisiaethau yn gallu amrywio, ond fel arfer yn ddwy neu dair blynedd.

3.3. Mae'r adroddiad *'Cysoni'r Model Prentisiaethau ag Anghenion Economi Cymru'* yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu sgiliau

hanfodol mewn meysydd blaenoriaeth a'r economi yng Nghymru a sut y bydd prentisiaethau yn rhan annatod o wireddu hynny.

3.4. I wireddu hyn, cyflwynwyd yr Ardoll Brentisiaethau yn Ebrill 2017 er mwyn annog cyflogwyr a busnesau i fuddsoddi mewn prentisiaethau. Mae'r Cyngor yn talu ardoll o £642,000 y flwyddyn *(0.5% o'r bil cyflogau)*. Byddwn yn gwneud hyn tan o leiaf 2022.

3.5. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfraniad tuag at gostau cyflogi prentisiaid, ond mae'r ardoll yn rhoi mynediad at y costau datblygol *(sef yr elfennau cymwysterau a hyfforddiant yn unig)*

3.6. Mae nifer o wasanaethau wedi datgan dymuniad i gyflogi prentisiaid ac wedi ymrwymo yn rhannol i gyd-gyllido hynny *(gweler **Atodiad B**)*. Byddai modd i ni wireddu'r cynllun, yn ogystal â'n galluogi i ddatblygu prentisiaethau mewn meysydd eraill, pe derbynnir yr arian a geisir.

3.7. Yr argymhelliad yw sefydlu Cronfa Brentisiaethau o £300,000. Byddai hyn yn ariannu canran o gyflogau'r prentisiaid newydd sydd wedi eu hadnabod ar gyfer 2019.

3.8. Mae gwasanaethau eraill wedi dangos diddordeb hefyd ac yn ystyried dulliau o gyd-gyllido er mwyn gwireddu'r nod o gyflogi 20 prentis newydd mewn meysydd blaenoriaeth yn 2019.

3.9. Mae'r adroddiad *'Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus' gan* Lywodraeth Cymru yn amlygu tan-gynrychiolaeth sylweddol o ferched mewn swyddi lefel uwch (*llai na 10%)* ac yn y sectorau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg) yn y Deyrnas Unedig. Bydd cynllun prentisiaethau yn ystyried argymhellion yr adroddiad i annog mwy o ferched i ymgeisio am brentisiaethau yng Nghyngor Gwynedd, yn enwedig yn y meysydd STEM, yn ogystal â'u cefnogi i weithio tuag at swyddi uwch yn y dyfodol.

3.10. I grynhoi, prif bwrpas cynllun prentisiaethau fuasai:

- *Rheoli'r Gronfa Prentisiaethau*
- *Cefnogi prentisiaethau ar draws y Cyngor*
- *Sefydlu trefniadau cyson a chadarn ar gyfer recriwtio, penodi a chefnogi prentisiaid*
- *Cefnogi adrannau i adnabod cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau newydd*
- *Ymgysylltu gyda phobl ifanc, rhieni, cymunedau a sefydliadau addysg*
- *Sicrhau ansawdd prentisiaethau Cyngor Gwynedd*

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. Yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet, bwriedir ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid a marchnata'r prentisiaethau yn ystod mis Mawrth ac Ebrill.

4.2. Bwriedir rhedeg y broses recriwtio fis Ebrill, Mai a Mehefin gyda'r prentisiaid newydd i gyd wedi cychwyn erbyn diwedd mis Medi.

## 5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1. **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau ynglŷn â phriodoldeb

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Bydd sawl angen / defnydd haeddiannol yn cystadlu am adnodd prin o Gronfa Cynllun y Cyngor ar gyfer trawsnewid gwasanaethau. Mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethu'r ceisiadau sy'n gwneud gwahaniaeth wrth ddyrannu adnoddau'r Gronfa. Cadarnhaf fod darpariaeth ddigonol i ariannu'r cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno am ystyriaeth y Cabinet, a bod arian pellach wrth gefn ar gyfer rhai prosiectau eraill fydd yn cyrraedd cyfarfodydd dilynol o'r Cabinet am gymeradwyaeth.

**Atodiadau**

- **Atodiad A: Cyflog Prentisiaid 2019/2020**
- **Atodiad B: Prentisiaethau 2019**

**Dogfennau Cefndir**

- **Cysoni'r Model Prentisiaethau ag Anghenion Economi Cymru – Llywodraeth Cymru**
- **Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus - Llywodraeth Cymru**

**ATODIAD A: Cyflog Prentisiaid 2019/2020**

| **Prentis** *(Oed)* | **Graddfa / awr** | **Cyflog / flwyddyn** | **Pensiwn / Blynyddol** | **NI / Blynyddol** | **Cyfanswm Cost Blynyddol** | **Cost Cytundeb 2 flynedd** | **Cost Cytundeb 3 blynedd** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **O dan 18** | £4.35 | £8,392.37 | £1,879.89 | Dim talu NI cyflog dan £8,632 | £10,272.26 | **£20,544.52** | **£30,816.78** |
| **18 – 20** | £6.15 | £11,865.07 | £2,657.78 | Dim talu NI o dan 21 | £14,522.85 | **£29,045.70** | **£43,568.54** |
| **21 -24** | £7.70 | £14,855.46 | £3,327.62 | £858.84 | £19,041.92 | **£38,083.83** | **£57,125.75** |
| **25+** | £8.21 | £15,839.39 | £3,548.02 | £994.62 | £20,382.03 | **£40,764.06** | **£61,146.09** |

Graddfeydd ar gyfer 2019/2020 yn unig

## Atodiad B: Prentisiaethau 2019

| | |
|---|---|
| **NIFER PRENTISIAETHAU** | **17** |
| **UCHAFSWM COST LLAWN CYFLOGAETH** *(Pob penodiad 25+ oed)* | £713,371.05 |
| **ISAFSWM COST LLAWN CYFLOGAETH** *(Pob penodiad o dan 18 oed)* | £359,529.10 |

| | | | | | | | **CYFANSWM CYFLOG (Cyflog blynyddol x Hyd x Nifer)** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PRENTISIAETH** | **LEFEL** | **NIFER** | **CYCHWYN** | **CYSWLLT** | **ADRAN** | **HYD (Blwyddyn)** | **ISAFSWM (o dan 18 oed)** | **UCHAFSWM (25+ oed)** |
| **Peirianneg Meddalwedd TG** | **Prentisiaeth Gradd** *(Lefel 4/5/6)* | 1 | 01/09/2019 | **Elfyn Evans** | Cyllid | 3 | £30,816.78 | £61,146.09 |
| **Iechyd a Gofal Cymdeithasol Uwch** | **Prentisiaeth Uwch** *(Lefel 4)* | 1 | 01/09/2019 | **Gill Paul** | Oedolion | 2 | £20,544.52 | £40,764.06 |
| **Peirianneg Sifil** | **Prentisiaeth** *(Lefel 2/3)* | 2 | 01/09/2019 | **Huw Williams** | Ymgynhoriaeth | 2 | £41,089.04 | £81,528.12 |
| **Technoleg Gwybodaeth** ***(Cefnogaeth/Rhwydwaith)*** | **Prentisiaeth** *(Lefel 2/3)* | 1 | 01/09/2019 | **Bryn Goodman Jones** | Cyllid | 2 | £20,544.52 | £40,764.06 |
| **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | **Prentisiaeth** *(Lefel 2/3)* | 5 | 01/09/2019 | **Gill Paul** | Oedolion | 2 | £102,722.60 | £203,820.30 |
| **Hamdden a Ffitrwydd** | **Prentisiaeth** (Lefel 2/3) | 3 | 01/09/2019 | **Amanda Davies** | Cwmni Hamdden Gwynedd | 2 | £61,633.56 | £122,292.18 |
| **Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol** | **Prentisiaeth** *(Lefel 3)* | 1 | 01/09/2019 | **Amanda Davies** | Economi a Chymuned | 2 | £20,544.52 | £40,764.06 |
| **Busnes a Gweinyddiaeth** | **Prentisiaeth** *(Lefel 2/3)* | 1 | 01/01/2019 | **Mari P Jones** | Cefnogaeth Gorfforaethol | 2 | £20,544.52 | £40,764.06 |
| **Gwasanaeth i Gwsmeriaid** | **Prentisiaeth** *(Lefel 2/3)* | 2 | 01/01/2019 | **Joanne Parry** | Cefnogaeth Gorfforaethol | 2 | £41,089.04 | £81,528.12 |

Eitem 7

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **22 Ionawr 2019** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Garem Jackson** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 089** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cais am Adnoddau Cynllun y Cyngor i Drawsnewid y Gyfundrefn Ysgolion** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. (a) I ymrwymo £103,492 o gyllid rŵan o Gronfa Cynllun y Cyngor am gyfnod o ddwy flynedd i ariannu swydd Rheolwr Prosiect fyddai'n galluogi'r Adran Addysg i ymateb a gweithredu ar brosiectau unigol i drawsnewid y gyfundrefn ysgolion yn amserol fel maent yn codi ac yn unol â'r egwyddorion addysg mabwysiedig.

(b) I adolygu'r sefyllfa pan ddaw'r ddwy flynedd gychwynnol i ben, a/neu os y rhagwelir cynnydd yn nifer y prosiectau unigol pellach fydd angen eu gweithredu i drawsnewid y gyfundrefn ysgolion yn sgil mabwysiadu'r egwyddorion addysg.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Mae'r Adran Addysg yn gyfrifol am nifer o brosiectau lefel uchel yng Nghynllun y Cyngor 2018-23. Mae'r prosiectau hynny'n cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Trawsnewid y gyfundrefn ysgolion
- Cryfhau arweinyddiaeth
- Moderneiddio Addysg – Dalgylch Bangor
- Moderneiddio Addysg – Dalgylch Y Berwyn
- Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
- Yr Iaith Gymraeg – Strategaeth Iaith Uwchradd

2.2. Mae'r Adran Addysg wedi ymgynghori gyda'r proffesiwn a rhanddeiliaid allweddol ar gyfres o egwyddorion ddylai fod yn sail i drawsnewid y gyfundrefn ysgolion i'r dyfodol. Dyma'r egwyddorion:

- Cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw
- Dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth **yn y cynradd**
- Oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth i ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth **yn y cynradd**

2.3. Derbyniwyd sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar yr Egwyddorion Addysg hyn ar 18 Ebrill 2018.

2.4. Yn dilyn hynny, ar 18 Rhagfyr 2018, mabwysiadwyd yr Egwyddorion Addysg hyn gan y Cabinet fydd yn sail i wireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

2.5. Mae dwy elfen wahanol i'r modd y mae'r Adran Addysg yn mynd ati i drawsnewid y gyfundrefn ysgolion ar sail yr egwyddorion addysg mabwysiedig. Y cyntaf, a'r amlycaf ohonynt yw'r Rhaglen Ysgolion G21, sef rhaglen gyfalaf Band A (Bangor, Y Bala) a Band B (ôl-16, Bangor a Chricieth). Mae'n werth nodi fod holl adnodd prosiect yr Adran Addysg ar hyn o bryd wedi ei glustnodi'n llwyr i weithredu'r rhaglen gyfalaf yma.

2.6. Mae gan yr Adran Addysg hefyd nifer o brosiectau di-gyfalaf o dan arweiniad y Swyddogion Addysg Ardal sydd angen sylw nawr, ac sydd yn cyd-fynd gyda'r egwyddorion addysg, megis:
   - Sefydlu trefniant ffederal ffurfiol rhwng Ysgol Brynaerau ac Ysgol Thalysarn (Cais gan yr ysgolion).
   - Newid oedran mynediad Ysgol Dyffryn Ardudwy ac Ysgol Llanbedr (Cais gan yr ysgolion).
   - Dyfodol Ysgol Cwm y Glo.

2.7. Fodd bynnag, y sefyllfa ar hyn o bryd, yw nad oes adnodd i weithredu a gwireddu dim un o'r prosiectau uchod gan yr Adran Addysg. Mae pob un o'r prosiectau uchod ynghlwm â phroses statudol gyflawn, sydd yn drwm ar adnodd prosiect, waeth pa mor fychan yw'r newid y bwriedir ei weithredu mewn gwirionedd.

2.8. Mae'n bosib y bydd cyfleoedd unigol di-gyfalaf eraill yn codi'n naturiol i drawsnewid y gyfundrefn ysgolion ar sail yr egwyddorion addysg addas i bwrpas, a bydd angen sicrhau'r adnodd er mwyn galluogi'r Adran Addysg i ymateb yn briodol i'r cyfleoedd hyn.

2.9. Onibai y ceir adnodd ychwanegol, fe fydd yn her gynyddol i barhau i gynnal cyfundrefn anghynaladwy, gydag anghyfartaledd yn ystod y cyfleoedd a'r profiadau y mae ein plant a'n pobl ifanc yn eu cael i wireddu eu potensial.

## 3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

**Ystyriaethau Deddfwriaethol**

3.1 Bydd gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg i drawsnewid y gyfundrefn ysgolion ar sail yr egwyddorion addysg mabwysiedig yn cael eu hystyried ochr yn ochr â gofynion prosesau statudol perthnasol yn unol â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), sydd yn rhoi arweiniad i glroiannu unrhyw gynnig statudol penodol. Golyga hyn bod gweithdrefnau a phrosesau statudol a phenodol iawn wrth ad-drefnu ysgolion. Felly, wrth gloriannu cynigion mae gofyn i'r Awdurdod ymdrin yn briodol â chanlyniadau prosesau ymgynghorol ac asesiadau effaith perthnasol cyn dod i gasgliad.

3.2 Mae'r fersiwn diwygiedig o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2018 yn gwneud trefniadau arbennig ar gyfer ysgolion gwledig (a ddiffinir yn y Cod), gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae'r ddogfen hon yn disodli'r Cod ymarfer blaenorol (006/2013).

3.3 Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig. Yn benodol, yn ystod y broses o ymgynghori ar gynnig ynghylch a ddylid cau ysgol wledig ac wrth ddod i benderfyniad. Serch hynny, nid yw rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn golygu na fydd ysgolion gwledig byth yn cau – yn hytrach mae'n golygu fod angen i bwyso a mesur pob opsiwn a sicrhau fod yr achos drops gau yn un cryf.

3.4 Wrth ystyried y trefniadau angenrheidiol, mae'r Cyngor yn hyderus ei fod eisoes yn dilyn prosesau ymgysylltu cynhwysfawr er sicrhau mewnbwn lleol wrth ddatblygu ac ystyried unrhyw gynlluniau strategol. Mae darpariaeth ysgolion ledled y sir yn gosod anghenion y plentyn o flaen unrhyw ffactor arall.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

3.5 Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i egwyddorion a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr hirdymor, gan gydweithio ac ystyried pobl o bob oedran wrth ddatrys ac atal problemau. Bydd gweithredu yn y modd hwn yn ein galluogi i gwrdd ag anghenion presennol ein cymunedau gan sicrhau nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidiol i genedlaethau'r dyfodol.

3.6 Fel rhan o'r ddyletswydd, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut bydd yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-23". Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion y sirdrwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Bydd unrhyw newid i'r gyfundrefn yn cael ei hystyried a'i hasesu yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, gan sicrhau fod penderfyniadau yn cydblethu gyda 7 nod llesiant y Ddeddf, ynghyd ag amcanion llesiant y Cyngor.

**Ystyriaethau Allweddol Eraill**

3.7 Cydnabyddir y bydd goblygiadau pellgyrhaeddol i weithredu'r egwyddorion addysg mabwysiedig ar gyfundrefn addysg bresennol Gwynedd. O ganlyniad, rhagwelir nad proses gyflym, yn ystod cyfnod y Cyngor hwn fyddai gweithredu'r egwyddorion ar draws y gyfundrefn, ond yn hytrach, gweithred a gymer nifer o flynyddoedd, gan rychwantu sawl Cyngor.

3.8 Cydnabyddir hefyd, y gallai gweithredu newidiadau mor enfawr ar draws y gyfundrefn mewn cyfnod cymharol fyr arwain at bryder ymysg holl randdeiliaid ein hysgolion, ynghyd â'r cymunedau a wasanaethir ganddynt.

3.9 Yn gyfochrog a'r ystyriaethau hyn, cydnabyddir hefyd fod newidiadau enfawr ar y gorwel ym myd addysg: newidiadau i drefniadaeth yr arolygaeth ysgolion (Estyn), ynghyd â newidiadau sylweddol iawn i gwricwlwm a threfniadaeth ein hysgolion yn sgil argymhellion yr Athro Donaldson.

3.10 Y mae’r newidiadau hyn dros y blynyddoedd nesaf yn creu heriau amlwg i’n hysgolion i gyfarch a gwireddu’r holl newidiadau, tra ar yr un pryd, yn wynebu toriadau cyllidol cenedlaethol parhaus a digynsail.

3.11 Yn sgil yr holl ffactorau hyn, a’u heffaith pellgyrhaeddol ar y drefniadaeth a’r ddarpariaeth addysgol i’r dyfodol, bwriedir trawsnewid y gyfundrefn ar sail yr egwyddorion yn bwyllog, oddi fewn i gyd-destun, ac mewn modd a fyddai o bosib yn hwyluso gallu’r gyfundrefn i ymateb i’r newidiadau enfawr yma sydd ar y gorwel.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. O gymeradwyo’r cais i ymrwymo £103,492 o gyllid rŵan am gyfnod o ddwy flynedd i ariannu swydd Rheolwr Prosiect, byddai hyn yn galluogi’r Adran Addysg i ymateb a gweithredu ar y prosiectau unigol di-gyfalaf sydd ganddynt yn amserol fel maent yn codi.

4.2. O dderbyn yr adnodd, galluogir yr Adran i fynd gam o’r ffordd tuag at drawsnewid y gyfundrefn ysgolion i’r dyfodol yn unol â’r egwyddorion addysg mabwysiedig.

## 5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### Sesiynau Egwyddorion Addysg Cyfundrefn Addas i Bwrpas

5.1 Cynhaliwyd cyfres o sesiynau galw-heibio (18 mewn cyfanswm) ar draws Gwynedd rhwng 7 Tachwedd hyd at 14 Rhagfyr i ymgysylltu gyda rhieni, staff, llywodraethwyr a’r gymuned yn ehangach fel rhan o’r broses o ddatblygu egwyddorion newydd ar gyfer ysgolion Gwynedd. Gweler yr Atodiad am ganlyniadau’r ymgynghoriad.

5.2 Isod, manylir ar dri o’r egwyddorion y bu ymgynghori arnynt:

(i) Amser digyswllt i benaethiaid: Roedd 98% o’r ymatebwyr yn cytuno bod angen sicrhau amser digonol i benaethiaid ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau rheolaethol. Roedd nifer uchel o ymatebion yn nodi’r pwysigrwydd i leihau'r baich gweinyddol er mwyn canolbwyntio ar y ddarpariaeth addysg, ynghyd â’r angen i ystyried cydweithio i wella addysg yn y Sir. Nododd nifer o’r sylwadau fod angen cydweithio er mwyn lleihau dyblygu gwaith, lleihau pwysau gwaith, a rhoi cyfleoedd i rannu arbenigedd ac ymarferion da.

(ii) Ystod oedran mewn dosbarth: Yn ogystal, roedd 70% yn cytuno gyda’r egwyddor na ddylid dysgu mwy na dau oedran gyda’i gilydd mewn un dosbarth. Cafwyd sawl sylw yn nodi'r anhawster o orfod addysgu plant o fwy na dau oedran, er ei bod hefyd yn bwysig ystyried hynny oddi mewn cyd-destun ymarferoldeb ar gyfer unrhyw newidiadau.

(iii) Rheolaeth ysgolion uwchradd: Wrth ystyried a ddylai penaethiaid ysgolion uwchradd fod yng ngofal tua 900 o ddisgyblion, roedd y mwyafrif o’r ymatebion yn anghytuno gyda’r egwyddor, er mae’n bosibl fod hyn yn adlewyrchu’r canfyddiad y byddai hyn yn golygu un ysgol o 900 yn hytrach nag ystyried gwahanol fodelau rheoli. Yn ogystal, derbyniwyd nifer helaeth o’r ymatebion yn

cytuno'n gryf gyda'r datganiad fod angen i blant gael eu haddysgu gan arbenigwyr pwnc. Mae angen felly i ystyried trefniadau cydweithredol rhwng ysgolion sydd yn creu cyfleoedd i gryfhau'r gyfundrefn, yn cynnwys modelau arweinyddiaeth lorweddol.

**Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi**

5.3 Cyflwynwyd adroddiad ar Egwyddorion Addysg Addas i Bwrpas gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 19 Ebrill 2018 yn ceisio barn y Pwyllgor Craffu ar yr egwyddorion addysg arfaethedig fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

5.4 Ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad gyda'r Llywodraethwyr a'r ysgolion, a gweledigaeth yr Adran Addysg, gofynnwyd yn benodol am farn aelodau'r Pwyllgor Craffu ar yr egwyddorion canlynol, a ystyrir yn sail i gyfundrefn addysg Gwynedd i'r dyfodol:

- cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw
- dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd
- oddeutu 80% o amser di-gyswllt i'r Pennaeth i ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd

5.5 I grynhoi'r drafodaeth a gafwyd yn y Pwyllgor Craffu, nodwyd y cefnogir yr egwyddorion yn gyffredinol, ond cydnabyddir ar yr un pryd y rhagwelir heriau ar hyd y daith i fod yn darparu a gweithredu'r egwyddorion hyn.

5.6 **Barn y Swyddogion Statdol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**
*Dim sylwadau yngŷn â phriodoldeb.*

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**
*Bydd sawl angen / defnydd haeddiannol yn cystadlu am adnodd prin o Gronfa Cynllun y Cyngor ar gyfer trawsnewid gwasanaethau. Mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethu'r ceisiadau sy'n gwneud gwahaniaeth wrth ddyrannu adnoddau'r Gronfa. Cadarnhaf fod darpariaeth ddigonol i ariannu'r cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno am ystyriaeth y Cabinet, a bod arian pellach wrth gefn ar gyfer rhai prosiectau eraill fydd yn cyrraedd cyfarfodydd dilynol o'r Cabinet am gymeradwyaeth.*

**ADRODDIAD I'R CABINET**

22 Ionawr 2019

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2018/19 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2018

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## 1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2018 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.

- Gofyn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Oedolion, Iechyd a Llesiant, ynghyd â'r Pennaeth Adran, i fynd at wraidd gorwariant y gwasanaeth Darparu a chymryd camau i leihau'r gorwariant, ac i adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.

- Oherwydd cynnydd yn y gorwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan yr Adran Plant a Theuluoedd ers yr adolygiad diwethaf, i ystyried y sefyllfa pan dderbynnir adroddiad perfformiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19) gyda golwg ar geisio lleihau'r gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

- Oherwydd lefel y gorwariant ar gludiant disgyblion gan yr Adran Addysg, i ystyried y sefyllfa pan dderbynnir adroddiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19).

- Caniatáu yr Adran Amgylchedd i neilltuo (£60k) o danwariant yr adran ar gyfer cynnal adolygiad gan gomisiynu ymchwil gan y Brifysgol a chyflogi swyddogion ychwanegol i gasglu tystiolaeth yn y maes Cludiant Cyhoeddus yn dilyn nifer o faterion dros y blynyddoedd diwethaf.

- Cynaeafu (£2,984k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol,
  - gyda (£700k) cysylltiedig â'r premiwm Treth y Cyngor i'w neilltuo i gronfa benodol i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.
  - (£435k) yn ymwneud â chostau cyfalaf i'w drosglwyddo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
  - gyda'r gweddill sef (£1,849k) i'w drosglwyddo i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda phwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad ddiwedd Tachwedd yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2018/19, ac amlinellir grynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2,** rhoddir fanylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

### 2.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Gorwariant gan y gwasanaeth Darparu a llithriad yng ngwireddu cynlluniau arbedion o 2017/18, yn cael eu gwrthbwyso gan danwariant ar wasanaethau Pobl Hŷn, Anabledd Corff a Dysgu.

### 2.2 Adran Plant a Theuluoedd

Y tuedd o orwariant a welwyd yn 2017/18 yn dwysáu, gyda'r gorwariant ar wasanaethau lleoliadau, gweithredol, Arbenigol/Derwen ac eraill wedi cynyddu ers yr adolygiad blaenorol.

### 2.3 Adran Addysg

Pwysau ychwanegol ar gludiant tacsis a bysus ysgolion ac ar arlwyaeth a glanhau. Hefyd, gorwariant yn parhau yn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.

### 2.4 Adran Economi

Llithriad cynllun arbedion yn y maes hamdden yw'r prif reswm am y gorwarint ond gwelwyd hefyd ostyngiad yn y rhagolygon incwm canolfannau hamdden.

### 2.5 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Problemau gorwariant yr Adran wedi dwysáu yn ystod 2018/19, sydd yn gyfuniad o orwariant ar gostau staffio, costau cynyddol salwch, diffyg incwm a chynnydd yn y costau gweithredol. Yr Adran eisoes wedi cychwyn cymryd camau i leihau'r gorwariant yn y maes gwastraff, ond bu oedi cyn gweithredu rhai cynlluniau.

## 2.6 Amgylchedd

Tanwario o ganlyniad i arbedion wedi eu gwireddu ymlaen llaw a rhagolygon ffafriol o ran incwm. Mae'r adran yn awyddus i gynnal adolygiad o gludiant cyhoeddus ac felly argymhellir ganiatáu iddynt neilltuo (£60k) o'r tanwariant i'r pwrpas.

## 2.7 Corfforaethol

Rhagolygon ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol ar Dreth y Cyngor ac ar Premiwm Treth y Cyngor, ond ôl-ddyddio trosglwyddiadau o Dreth y Cyngor i Drethi Annomestig yn lleihau'r incwm. Lleihad mewn hawlio Gostyngiadau Treth Cyngor sydd yn gyson â'r tueddiad ar hyd Cynghorau'r Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Tanwariant ar y gyllideb costau cyfalaf. Derbyniad ad-daliad un-tro hawliad Treth ar Werth o £1.383m yn y maes hamdden yn ystod y cyfnod.

Argymhellir trosglwyddo y tanwariant cyffredinol ar Gorfforaethol i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor, gyda'r tanwariant Premiwm Treth y Cyngor i'w neilltuo i'w ystyried ei ddefnyddio tuag at y strategaeth dai, a'r tanwariant costau cyfalaf i'w neilltuo i gyllido'r cynllun rheoli asedau.

## 3. Cyffredinol

Mae'r adolygiad ddiwedd Tachwedd o'r cyllidebau yn dangos darlun cymysg, gyda rheolaeth ariannol dderbyniol gan nifer o adrannau'r Cyngor. Mae'r pwysau sydd ar adrannau ac sydd eisioes wedi gorfod cael eu cydnabod yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn 2019/20 yn amlwg eleni, gyda'r adrannau yn cael trafferthion dygymod gyda'r galw ychwanegol yma. Argymhellir cyfuniad o gamau gweithredu pendant i'r Adran Oedolion, Addysg, Plant a Theuluoedd, i sicrhau rheolaeth o'u cyllidebau erbyn 31 Mawrth 2019.

## 4. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet ar 21 Mai 2019 ar sefyllfa diwedd y flwyddyn.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**Atodiadau**
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

# Cyllideb Refeniw 2018/19 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Diwedd Tachwedd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 £'000 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19 £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig £ '000 | *Amcan Sefyllfa Diwedd Awst £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **51,171** | **29** | **0** | **29** | *153* |
| **Plant a Theuluoedd** | **14,244** | **1,333** | **0** | **1,333** | *1,090* |
| **Addysg** | **87,265** | **741** | **0** | **741** | *750* |
| **Economi a Chymuned** | **5,454** | **187** | **0** | **187** | *161* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **25,091** | **589** | **0** | **589** | *560* |
| **Amgylchedd** | **7,214** | **(229)** | **60** | **(169)** | *(29)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **244** | **(11)** | **0** | **(11)** | *(20)* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | **1,991** | **(93)** | **0** | **(93)** | *(58)* |
| **Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** | **6,078** | **(53)** | **0** | **(53)** | *(66)* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | **7,621** | **(59)** | **0** | **(59)** | *(100)* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn unig)* | * | **(3,031)** | **2,984** | **(47)** | *(770)* |
| **Cyfansymiau (net)** | **206,373** | **(597)** | **3,044** | **2,447** | *1,671* |

Atodiad 2

**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 11,408 | 11,102 | (306) | 0 | (306) | 15 |
| Gofal Cartref | 6,241 | 5,923 | (318) | 0 | (318) | (512) |
| Eraill | 1,821 | 1,846 | 25 | 0 | 25 | 54 |
| | 19,470 | 18,871 | (599) | 0 | (599) | (443) |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 523 | 456 | (67) | 0 | (67) | (69) |
| Gofal Cartref | 1,108 | 945 | (163) | 0 | (163) | (170) |
| Eraill | 664 | 684 | 20 | 0 | 20 | 26 |
| | 2,295 | 2,085 | (210) | 0 | (210) | (213) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 16,736 | 16,543 | (193) | 0 | (193) | (205) |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 1,569 | 1,571 | 2 | 0 | 2 | (6) |
| Eraill | 1,878 | 1,933 | 55 | 0 | 55 | 90 |
| | 3,447 | 3,504 | 57 | 0 | 57 | 84 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | 2,947 | 2,987 | 40 | 0 | 40 | 115 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **44,895** | **43,990** | **(905)** | **0** | **(905)** | **(662)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 90 | 364 | 274 | 0 | 274 | 264 |
| Gofal Dydd | 11 | 133 | 122 | 0 | 122 | 41 |
| Gofal Cymunedol | 488 | 1,040 | 552 | 0 | 552 | 437 |
| Eraill | (4) | 71 | 75 | 0 | 75 | 94 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **585** | **1,608** | **1,023** | **0** | **1,023** | **836** |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Tai | 1,867 | 2,005 | 138 | 0 | 138 | 105 |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,824 | 4,054 | 230 | 0 | 230 | 331 |
| Defnydd o gronfa benodol | | (457) | (457) | 0 | (457) | (457) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **5,691** | **5,602** | **(89)** | **0** | **(89)** | **(21)** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **51,171** | **51,200** | **29** | **0** | **29** | **153** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - cynnydd yn yr incwm preswyl a nyrsio yn dilyn asesiadau a chynnydd yn y niferoedd. Galw cynyddol am becynnau gofal cartref.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - y tueddiad o leihad yn y nifer pecynnau gofal cartref a phreswyl a nyrsio yn parhau eleni, ond dau achos dwys Llety Cefnogol wedi trosglwyddo o Gyngor Sir Ceredigion.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - dau achos costus preswyl a nyrsio wedi dod i ben yn y cyfnod, gyda'r tanwariant ar breswyl a nyrsio a llety cefnogol yn cael ei leihau gan orwariant ar wasanaethau dydd a chynlluniau cefnogol.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - cyfraniad yn ymwneud â darpariaeth gwasanaeth blynyddoedd blaenorol wedi ei dderbyn gan Iechyd yn y cyfnod, sydd yn cynorthwyo i leihau'r effaith gorwariant ar lety cefnogol.

**Gwasanaethau Darparu** - y tueddiad gorwario yn parhau ac yn cynnyddu, costau staffio ychwanegol sydd bennaf gyfrifol am y gorwariant gyda rhai o'r rhesymau yn cynnwys cartrefi wedi bod mewn mesurau arbennig, argymhellion gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a phenodi uwchlaw'r gyllideb. Costau yn uwch na'r incwm sydd yn cael ei ad-ennill ar Ofal Cymunedol.

**Gwasanaethau Tai** - pwysau cynyddol ar lety dros dro i'r digartref a llithriad mewn gwireddu cynllun arbedion.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - derbyniad incwm a swyddi gwag yn lleihau effaith y llithriad mewn gwireddu gwerth £372k o gynlluniau arbedion o 2017/18.

Gan fod yr adran yn gorwario, mae'n briodol fod yr adran yn defnyddio cyllid o £457k, sydd gyfwerth â grant cefnogi gwasanaethau cymdeithasol a dderbyniwyd yn 2017/18 i gynorthwyo i leddfu'r gorwariant a adroddir.

Oherwydd lefel y gorwariant gan y gwasanaeth Darparu, disgwylir i'r Aelod Cabinet Oedolion a'r Pennaeth Adran gymryd camau pendant i fynd at wraidd y mater a lleihau'r gorwariant. Gofynnir felly i'r Aelod Cabinet adrodd yn uniongyrchol i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.

**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 610 | 588 | (22) | 0 | (22) | (16) |
| Gweithredol | 2,062 | 2,335 | 273 | 0 | 273 | 162 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 1,587 | 2,577 | 990 | 0 | 990 | 600 |
| Maethu Drwy Asiant | 1,009 | 1,007 | (2) | 0 | (2) | 24 |
| Maethu Mewnol | 1,701 | 1,957 | 256 | 0 | 256 | 211 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,616 | 1,755 | 139 | 0 | 139 | 90 |
| | 5,913 | 7,296 | 1,383 | 0 | 1,383 | 925 |
| Ôl-16 | 998 | 1,173 | 175 | 0 | 175 | 109 |
| Arbenigol/Derwen | 1,684 | 1,926 | 242 | 0 | 242 | 156 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 251 | 207 | (44) | 0 | (44) | (45) |
| Blynyddoedd Cynnar | 162 | 167 | 5 | 0 | 5 | (2) |
| Ieuenctid | 972 | 793 | (179) | 0 | (179) | (188) |
| Eraill | 1,592 | 1,644 | 52 | 0 | 52 | (11) |
| Derbyniad Grant 2018/19 | | (552) | (552) | 0 | (552) | 0 |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **14,244** | **15,577** | **1,333** | **0** | **1,333** | **1,090** |

**Plant a Theuluoedd**

**Gweithredol** - y tueddiad yn parhau ers 2017/18 gyda chostau staff uwchlaw lefel y gyllideb ynghyd â chynnydd yn y nifer o blant mewn gofal ond ddim mewn lleoliadau drytach, mae'r maes yn destun bid am adnodd ychwanegol yn 2019/20.

**Lleoliadau** - tri achos lleoliad all-sirol newydd a newid yn nwyster dau achos, cynnydd yng nghostau y pecynnau newydd ond cwtogiad yng nghyfraniadau Iechyd. Gorwariant cynyddol yn maethu mewnol ac ar y cynllun Aros Ymlaen a gwasanaethau cefnogol. Mae adolygiad o'r ymrwymiadau all-sirol wedi ei gynnal sydd wedi amlygu newid i'r math o achosion dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly i'r costau cysylltiedig.

**Ôl-16** - achosion diweddar sydd wedi trosglwyddo o leoliadau all-sirol yn gyfrifol am y gorwariant.

**Arbenigol/Derwen** – Gorwariant o £190k ar gynlluniau Cefnogol yn dilyn cynnydd yn y galw am wasanaeth ac am gefnogaeth arbenigol. Gorwariant o £29k gan yr Uned Hafan y Sêr ac ar gostau staff.

**Ieuenctid** – cyfnod trosiannol o ddarparu'r gwasanaeth ieuenctid gydag arbedion wedi cael eu gwireddu ymlaen llaw.

Yn Rhagfyr, bu i'r Cyngor dderbyn grant o £552k gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, oherwydd sefyllfa ariannol yr Adran Plant, mae'n briodol fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i geisio lleihau'r gorwariant gros o £1.9m i £1.3m.

Nodir cynnydd yn y gorwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb ers yr adolygiad diwethaf, gyda'r sefyllfa i'w ystyried pan dderbynir adroddiad perfformiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19) gyda golwg ar geisio lleihau'r gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Atodiad 2**

**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Addysg** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 74,036 | 74,036 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (392) | (532) | (140) | 0 | (140) | (147) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 4,605 | 5,052 | 447 | 0 | 447 | 482 |
| Gwasanaeth Atodol | 414 | 618 | 204 | 0 | 204 | 100 |
| Eraill | 2,300 | 2,290 | (10) | 0 | (10) | (30) |
| | 7,319 | 7,960 | 641 | 0 | 641 | 552 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,133 | 2,180 | 47 | 0 | 47 | 9 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 4,169 | 4,362 | 193 | 0 | 193 | 336 |
| **Cyfanswm Addysg** | **87,265** | **88,006** | **741** | **0** | **741** | **750** |

## Addysg

**Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion** - rhagolygon tanwariant o (£140k) o ganlyniad i drosiant staff, denu incwm grant a lleihad mewn costau.

**Cludiant** - y tueddiad gorwariant yn parhau, gyda diffyg o £10k ar werthiant tocynau cludiant ôl-16 a £170k o orwariant ar gludiant bysus ysgol yn dilyn ail-dendro teithiau bysus dau weithredwr.

Er fod cyllideb ychwanegol un-tro o £200k wedi ei roi i cludiant tacsis ysgolion ar ddechrau’r flwyddyn, rhagwelir gorwariant o £267k, sydd yn effaith flwyddyn lawn y twf yn 2017/18, ynghyd â chynnydd yn y ceisiadau ers sefydlu’r gyllideb eleni. Gofynnwyd i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Amgylchedd ymchwilio i'r cynnydd yn y gwariant ar gludiant tacsis ysgolion a gweithredu i reoli'r sefyllfa. Mae adolygiad wedi ei wneud o'r sefyllfa gyda'r canlyniad wedi ei adrodd i gyfarfod herio perfformiad yr Adran. Yn dilyn cais gan yr adran am adnodd ychwanegol i gynorthwyo gyda'r costau cynyddol, mae bwriad dyrannu adnodd ychwanegol i'r Adran yn 2019/20.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - diffyg yn yr incwm prydau ysgol a'r elfen gofal o'r cynllun brecwast, ynghyd â chostau yn deillio o faterion staffio a salwch yn Arlwyaeth, Glanhau a Gofalu am ysgolion.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - amgylchiadau yn ymwneud â un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am £220k o'r gorwariant. Unedau Cyn Ysgol ABC yn gorwario £96k yn ystod cyfnod trosiannol i'r gyfundrefn newydd. Addysg heblaw mewn Ysgol yn gorwario £91k. Lleoliadau all-sirol ac unedau anghenion dysgu ychwanegol yn tanwario ac felly'n lleihau'r gorwariant a adroddir.

Oherwydd lefel y gorwariant ar gludiant disgyblion gan yr Adran Addysg, i ystyried y sefyllfa pan dderbynir adroddiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19).

**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 344 | 344 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dysgu Cymunedol | 1,823 | 1,779 | (44) | 0 | (44) | 10 |
| Twristiaeth a Threftadaeth | 1,144 | 1,167 | 23 | 0 | 23 | 26 |
| Economi a Chymuned | 374 | 380 | 6 | 0 | 6 | (34) |
| Cymunedau'n Iach | 1,769 | 1,971 | 202 | 0 | 202 | 159 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **5,454** | **5,641** | **187** | **0** | **187** | **161** |

## Economi a Chymuned

**Dysgu Cymunedol** - swyddi gwag ac arbedion wedi eu gwireddu yn fuan yn gyfrifol am y tanwariant.

**Twristiaeth a Threftadaeth** - rhagolygon gorwariant o £60k gan Storiel yn gyfuniad o orwariant ar staff a diffyg yn yr incwm. Tanwariant gan y Neuaddau ac Archifau yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**Economi a Chymuned** - symudiad ers yr adroddiad blaenorol gan nad yw'r rhagolygon incwm harbyrau mor addawol. Hafan, Pwllheli a Doc Fictoria, Caernarfon yn gorwario ond yn cael ei leddfu gan danwariant ar barciau gwledig a drwy ragori ar incwm traethau.

**Cymunedau'n Iach** - £157k o'r gorwariant o ganlyniad i lithriad yn yr amserlen sefydlu cwmni i redeg y cyfleusterau hamdden, ynghyd â gostyngiad yn y rhagolygon incwm canolfannau hamdden.

**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | | 9,748 | 9,787 | 39 | 0 | 39 | 66 |
| Gwasanaethau Peirianneg | | 365 | 364 | (1) | 0 | (1) | 29 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | Gwastraff | 11,035 | 11,505 | 470 | 0 | 470 | 178 |
| | Eraill | 3,943 | 4,024 | 81 | 0 | 81 | 287 |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **25,091** | **25,680** | **589** | **0** | **589** | **560** |

## Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Gwasanaethau Priffyrdd** - trosiant staff yn y cyfnod yn gyfrifol am leihau'r diffyg a ragwelir ar yr incwm.

**Gwastraff** - cynnydd sylweddol yn y gorwariant a ragwelir i £470k, gyda chynnydd yn y costau staffio a chostau cysylltiedig â salwch. Gwelwyd hefyd gostau gweithredol uwch ar drafnidiaeth, cynnal a chadw'r fflyd ac ymdrin â deunyddiau ailgylchu. Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu, oedd fod i ddod i rym yn Nhachwedd yn Nwyfor ac yna Arfon a Meirionnydd yn 2019/20, bu llithriad yn yr amserlen gweithredu, gyda Dwyfor yn weithredol o Ionawr 2019.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill** - lleihad yn lefel y gorwariant a ragwelir i £81k gyda'r rhagolygon incwm ar wastraff masnachol yn fwy addawol bellach. Costau rhedeg a hurio cerbydau yn parhau i fod yn broblemus, ond negodi gwell prisiau ar ddeunyddiau ailgylchu a lleihad mewn costau cludo a thirlenwi yn cynorthwyo i leihau lefel y gorwariant.

Er fod rhai camau eisioes wedi eu cymryd ar yr ochr Gwastraff yn ystod y flwyddyn i sicrhau mesurau i weithredu o fewn y gyllideb, nodir bu oedi gyda'r gweithrediad.

**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Amgylchedd** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 472 | 391 | (81) | 0 | (81) | 2 |
| Gwasanaethau Cynllunio | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu | 192 | 274 | 82 | 0 | 82 | 127 |
| Eraill | 204 | 187 | (17) | 0 | (17) | (15) |
| | 396 | 461 | 65 | 0 | 65 | 112 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 720 | 592 | (128) | 0 | (128) | (91) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (1,656) | (1,675) | (19) | 0 | (19) | (66) |
| Cludiant Integredig | 1,702 | 1,594 | (108) | 60 | (48) | (1) |
| | 766 | 511 | (255) | 60 | (195) | (158) |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 715 | 720 | 5 | 0 | 5 | (3) |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,609 | 1,580 | (29) | 0 | (29) | (15) |
| Eiddo, Gofalu, Arlwyo a Glanhau | 3,256 | 3,322 | 66 | 0 | 66 | 33 |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **7,214** | **6,985** | **(229)** | **60** | **(169)** | **(29)** |

## Amgylchedd

| |
|---|
| **Rheolaeth -** arbedion ymlaen llaw ar ail-strwythuro a derbyniad grant i gyllido swydd yn yr adran wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.<br><br>**Gwasanaeth Cynllunio** - rhagwelir ddiffyg yn yr incwm yn y maes Rheolaeth Datblygu, ond fod y rhagolygon bellach yn edrych yn fwy addawol yn dilyn derbyniad incwm yn ymwneud â dau gais sylweddol.<br><br>**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth** - rhagolygon ffafriol o ran yr incwm yn y maes Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) a Pharcio a Gorfodaeth, ynghyd â thanwariant staffio.<br><br>Yn Cludiant Integredig, costau ychwanegol yn deillio o ail-dendro teithiau bysus dau weithredwr bysus, ond fod elfen o'r cymorth ariannol tuag at y costau cynyddol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd 2017/18 yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gorwariant cysylltiedig eleni. Tanwariant ar gostau gweithwyr a chynnydd yn y rhagolygon incwm wedi gwella'r sefyllfa ariannol. Mae'r Adran yn awyddus i gynnal adolygiad o gludiant cyhoeddus ac felly awgrymir fod £60k o danwariant yr Adran yn cael ei glustnodi i gomisiynu ymchwil gan y Brifysgol i adolygu'r ddarpariaeth a chyflogi swyddogion ychwanegol i gasglu tystiolaeth yn y maes.<br><br>**Eiddo, Gofalu, Arlwyo a Glanhau** - cynnydd yn y gorwariant, yn bennaf ar gostau staff. |
| **Argymhellir** ganiatáu yr Adran Amgylchedd i neilltuo (£60k) o'r tanwariant ar gyfer cynnal adolygiad gan gomisiynu ymchwil gan y Brifysgol a chyflogi swyddogion ychwanegol i gasglu tystiolaeth yn y maes Cludiant Cyhoeddus yn dilyn nifer o faterion dros y blynyddoedd diwethaf. |

**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| **Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (389) | (391) | (2) | 0 | (2) | (72) |
| Gwasanaeth Adeiladu | (26) | (29) | (3) | 0 | (3) | 31 |
| Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd | 549 | 550 | 1 | 0 | 1 | 2 |
| Rheolaeth Adeiladu | 110 | 103 | (7) | 0 | (7) | 19 |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **244** | **233** | **(11)** | **0** | **(11)** | **(20)** |

## Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg** - symudiad o £70k ers yr adolygiad diwethaf, gan fod gostyngiad yn y rhagolygon incwm erbyn hyn, ynghyd â chynnydd yn y costau staffio a thrafnidiaeth.

**Gwasanaeth Adeiladu** - tanwariant ar gostau staff a chostau trafnidiaeth yn gwrthbwyso'r diffyg incwm o £46k a ragwelir ar gyfer y maes, gyda'r gwasanaeth yn parhau i ymgeisio am waith gan sefydliadau allanol i ddenu incwm.

**Rheolaeth Adeiladu** - tanwariant staffio un-tro yn diddymu effaith incwm islaw lefel y gyllideb yn y maes Rheolaeth Adeiladu.

**CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD**

| Adrannau Canolog | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 1,991 | 1,898 | (93) | 0 | (93) | (58) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 6,078 | 6,025 | (53) | 0 | (53) | (66) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,621 | 7,562 | (59) | 0 | (59) | (100) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **15,690** | **15,485** | **(205)** | **0** | **(205)** | **(224)** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu tanwariant o (£93k), o ganlyniad i swydd wag, derbyniad incwm ychwanegol o (£46k) gan yr Uned Gyfreithiol a lleihad mewn costau yn y maes Cynllunio Argyfwng. Bydd yr arbedion yma yn rhan o gynlluniau arbedion a gynigir ar gyfer 2019/20 ymlaen.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - tanwariant un-tro ar swyddi ar draws yr Adran sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant, ynghyd â denu incwm ychwanegol. Yr arbedion ymlaen llaw wedi eu cynllunio mewn paratoad i allu cyfrannu at gynlluniau arbedion 2019/20 ymlaen.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - y tanwariant a ragwelir yn gyfuniad o arbedion staffio un-tro o ganlyniad i swyddi gwag, ynghyd â llwyddiant yr Adran i ddenu incwm allanol uwchlaw lefel y gyllideb gan gynnwys yn y maes Iechyd Galwedigaethol, gyda'r bwriad o'u defnyddio fel rhan o gynlluniau arbedion o 2019/20 ymlaen.

| CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Awst |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth y Cygor | * | * | (360) | 360 | 0 | (92) |
| Premiwm Treth Cyngor | * | * | (700) | 700 | 0 | (700) |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (106) | 106 | 0 | 0 |
| Derbyniad Llog Net | * | * | 8 | 0 | 8 | 22 |
| Costau Cyfalaf | * | * | (435) | 435 | 0 | 0 |
| Hawliad Treth ar Werth yn y Maes Hamdden | * | * | (1,383) | 1,383 | 0 | 0 |
| Eraill | * | * | (55) | 0 | (55) | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | ***** | ***** | **(3,031)** | **2,984** | **(47)** | **(770)** |

## Corfforaethol

**Treth y Cyngor a Premiwm Treth y Cyngor** - Rhagwelir sefyllfa ffafriol o dreth ychwanegol o (£360k) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. O ran Premiwm Treth y Cyngor, rhagolygon o gynnyrch treth ychwanegol o (£700k) uwchlaw'r treth premiwm o £2.2m a gyllidebwyd, sef premiwm o 50% ar ail gartrefi ac eiddo gwag ers dros 12 mis. Argymhellir y dylid ei neilltuo i ystyried ei ddefnyddio fel rhan o'r strategaeth Dai.

Mae Swyddfa'r Prisiwr eisioes wedi caniatau 287 eiddo i drosglwyddo o'r rhestr Treth y Cyngor i Drethi Annomestig hyd yn hyn eleni (282 ar gyfer blwyddyn lawn yn 2017/18, 199 yn 2016/17) gyda effaith ceisiadau yn cael eu hôl-ddyddio yn arwain at golled incwm pellach. Mi fyddai'r cynnyrch treth wedi bod yn uwch heblaw am hyn. Byddwn yn parhau i dynnu sylw Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Prisiwr at y sefyllfa anfoddhaol yma.

**Gostyngiadau Treth y Cyngor** - tanwariant gan fod niferoedd ceisiadau y cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor (budd-daliadau) ar ei lefel isaf o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol ar hyd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

**Costau Cyfalaf** - polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu fod tanwariant yn erbyn y gyllideb llog ar fenthyca allanol tymor hir. Gan fod Cynllun Rheoli Asedau 2019/20 ymlaen wrthi'n cael ei datblygu, awgrymir y dylid sicrhau fod y tanwariant yma yn cael ei ddargyfeirio'n benodol i gynorthwyo gyda ariannu'r rhaglen gyfalaf.

**Hawliad Treth ar Werth yn y Maes Hamdden** - ad-daliad un-tro o £1.383m net yn ymwneud â newidiadau Treth ar Werth yn y maes Hamdden wedi ei dderbyn ers yr adolygiad blaenorol.

**Argymhellir** cynaeafu (£2,984k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, gyda (£700k) cysylltiedig â'r premiwm Treth y Cyngor yn cael ei neilltuo i gronfa benodol i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai, (£435k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei drosglwyddo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf, gyda'r gweddill sef (£1,849k) i'w drosglwyddo i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda phwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
22 Ionawr 2019

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2018/19 –
Adolygiad Diwedd Tachwedd 2018 (sefyllfa 30 Tachwedd 2018)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2018) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £9,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
- £3,502,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £30,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £488,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- £220,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

**1. Cyflwyniad / Crynodeb**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o drefn monitro cyllideb 2018/19. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 5:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £51.271m am y 3 blynedd 2018/19 – 2020/21.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £4.249m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2018/19 i 2019/20
- Atodiad C: Gwariant 8 mis cyntaf 2018/19.

**2. Prif Gasgliadau:**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :
- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £28.5m yn 2018/19, gyda £9.2m (32%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Yn ychwanegol i'r £1.0m adroddwyd arno'r tro diwethaf mae £3.4m pellach o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2018/19 i 2019/20, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. RHAGLEN GYFALAF 2018/19 i 2020/21

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig.

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 3,558 | 9,117 | 3,624 | 16,299 | - |
| Amgylchedd | 9,348 | 538 | 42 | 9,928 | 1,653 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 111 | 13 | - | 124 | - |
| Cyllid | 952 | 74 | - | 1,026 | - |
| Economi a Chymuned | 687 | 399 | - | 1,086 | 447 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 4,317 | 584 | - | 4,901 | 250 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 826 | 1,119 | 525 | 2,470 | 93 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 107 | - | - | 107 | 13 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 7,281 | 3,924 | 1,893 | 13,098 | 320 |
| Ymgynghoriaeth | 978 | 907 | 45 | 1,930 | 1,723 |
| Corfforaethol | 302 | - | - | 302 | (250) |
| **CYFANSWM** | **28,467** | **16,675** | **6,129** | **51,271** | **4,249** |

## 4. NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

Mae cynnydd o £4.249m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 6,666 | - | - | 6,666 | - |
| Benthyca Arall | 1,873 | 1,393 | 777 | 4,043 | 9 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 9,226 | 8,753 | 525 | 18,504 | 3,502 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 342 | 98 | 750 | 1,190 | 30 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 1,700 | 265 | - | 1,965 | 488 |
| Cronfa Cyfalaf | 3,166 | 1,435 | - | 4,601 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 5,494 | 4,731 | 4,077 | 14,302 | 220 |
| **CYFANSWM** | **28,467** | **16,675** | **6,129** | **51,271** | **4,249** |

## 5. ARGYMHELLION

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2018/19 i 2020/21, a**
- **cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (para. 4 uchod).**

## 6. Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2018/19 – 2020/21.

## 7. Ystyriaethau perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 8. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau ynglŷn â phriodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiadau A, B a C

----------------------------

**PRIF NEWIDIADAU FESUL FFYNHONNELL ARIANNU:**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

| | 2018/19<br>£'000 | 2019/20-2020/21<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Grant Cynllun Datblygu Gwledig (RCDF) i hwyluso darpariaeth Ddigidol mewn ardaloedd gwledig (Adran Economi a Chymuned). | 178 | 39 |
| • Dylunio a datblygu cynllun atal llifogydd yn Llanberis (Adran Ymgynghoriaeth). | 603 | 770 |
| • Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau i ddarparu gwelyau dementia ac arbenigol yn ogystal a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant). | 77 | |
| • Cynlluniau Grant TRIP - grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu tai gwag yn ardal Arfon (Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant). | 250 | |
| • Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau gan gynnwys A496 Llanbedr; Lôn Las Peris; A499 i Trefor (Adran Amgylchedd). | 1,269 | |
| • Grant llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRIC) – cynllun yng Nghaernarfon (Adran Amgylchedd). | 98 | |
| • Uwchraddio Depos Priffyrdd – cyfraniadau gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol). | 52 | |
| • Grant Cynllun Datblygu Gwledig (RCDF) i uwchraddio toiledau (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol). | 51 | 67 |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | | |
| • Datblygu gofod swyddfa a chaffi mewn dwy ganolfan Hamdden (Adran Economi a Chymuned). | 30 | |
| **Refeniw Adrannol** | | |
| • Ariannu cyfatebol i gynllun Grant Cynllun Datblygu Gwledig (RCDF) i hwyluso darpariaeth Ddigidol mewn ardaloedd gwledig (Adran Economi a Chymuned). | 45 | 10 |
| • Dylunio a datblygu cynllun atal llifogydd yn Llanberis (Adran Ymgynghoriaeth) - cyfraniadau Adrannau eraill i'r cynllun Adran Ymgynghoriaeth. | 108 | 136 |

| | | |
|---|---|---|
| • Cynllun Amddiffyn yr Arfordir - Borth y Gest (Adran Ymgynghoriaeth). | 72 | |
| • Ariannu cyfatebol i gynllun Grant Cynllun Datblygu Gwledig (RCDF) i uwchraddio toiledau (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol). | | 33 |
| • Nifer o fân gynlluniau. | 84 | |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | | |
| • Adnewyddu Cerbydau ac Offer Gwastraff (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Adran Ymgynghoriaeth). | 205 | |
| • Pryniant cwch i Harbwr Porthmadog (Adran Economi a Chymuned). | 20 | |
| • Nifer o fân gynlluniau. | (5) | |

----------------------------

**Ail-broffilio Cyllideb - Prif Gynlluniau:**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| Ad-leoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) | (210) | 210 |
| Cynlluniau Grantiau a Benthyciadau Tai (Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) | (583) | 583 |
| Ysgol Gydol Oes Y Berwyn (Adran Addysg) | (361) | 361 |
| Cynlluniau Eraill Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) (Adran Addysg) | (550) | 550 |
| Cynlluniau sefydliadau Oedolion (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) | (129) | 129 |
| Ail-wynebu meysydd parcio (Adran Amgylchedd) | (219) | 219 |
| Cynlluniau Ffyrdd Amgylchedd (Adran Amgylchedd) | (218) | 218 |
| Adnewyddu Cerbydau (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Adran Amgylchedd) | (1,906) | 1,906 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

----------------------------

**Gwariant Cyfalaf 8 Mis Cyntaf 2018/19**

| **CRYNODEB** | **RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Tachwedd) 2018/19 £'000** | **GWIR WARIANT 8 MIS HYD AT 30/11/2018 £'000** |
|---|---|---|
| Addysg | 3,558 | 2,175 |
| Amgylchedd | 9,348 | 2,479 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 111 | - |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 952 | 246 |
| Economi a Chymuned | 687 | 433 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 4,317 | 2,348 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 826 | 282 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 107 | 77 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 7,281 | 4,857 |
| Ymgynghoriaeth | 978 | 549 |
| Corfforaethol | 302 | - |
| **CYFANSWM** | **28,467** | **13,446** |

**Noder:**
Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (47%) yn gyfatebol is na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 8 mis yn 49% o'r gyllideb adolygiad Rhagfyr).

----------------------------

**ADRODDIAD I'R CABINET**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **22 Ionawr 2019** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid** |
| **Pwnc** | **Trosolwg Arbedion:**<br>**Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 a blynyddoedd blaenorol.

---

## 1. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

Yn strategaeth ariannol y Cyngor ers 2015/16, mae gwerth £27m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu yn ystod y cyfnod 2015/16 i 2018/19. Adroddir yma ar arbedion 2018/19 a'r blynyddoedd blaenorol.

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, ac mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau, sy'n cael eu cyflwyno yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet, yn manylu ar gynnydd y cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel y mae'r sefyllfa ar y pryd. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

## 2. CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 - 2017/18

Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion oedd wedi ei osod iddynt o 2015/16 – 2017/18, cyfanswm o dros £24m. Mae'n galonogol i mi allu adrodd bod £23m, neu 95%, o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu, a dim ond ychydig o lithriad gyda'r gweddill.

Mae hyn yn bennaf yng nghynlluniau 2017/18 yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant lle mae cynnydd wedi ei wneud yn ddiweddar gyda rhai o'r cynlluniau roedd wedi llithro, ond mae'r her o wireddu rhai cynlluniau yn parhau.

## 3. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2018/19

Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r rhagolygon presennol o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2018/19. O'r 29 o gynlluniau, mae gwerth 62% o'r cynlluniau wedi eu gwireddu. Mae 7 cynllun ar drac i gyflawni'n amserol, ac yn galonogol, dim ond 5 cynllun a ragwelir fydd yn llithro.

Un ohonynt yw'r cynllun 'Adolygiad Dechrau i'r Diwedd' yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, sydd yn gynllun arbedion o £250,280. Mae'r cynllun wedi

bod yn destun adolygiad ar y cyd rhwng yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Cyllid a'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth, gan ail ymweld â thybiaethau'r model 'Dechrau i'r Diwedd' gwreiddiol. Gwelwyd fod niferoedd y nosweithiau plant mewn lleoliadau preswyl wedi lleihau ond fod newid yn y proffil a chymhlethdod yr achosion ac felly yn cael effaith ar gyfartaledd cost lleoliadau. Gwelwyd hefyd leihad yng nghyfraniadau gan Iechyd.

O ran gweddill y cynlluniau, mae'r rhagolygon o wireddu'r arbedion yn parhau yn gyffredinol addawol.

## 4. CASGLIAD

Er bod rhai adrannau wedi gwireddu eu holl gynlluniau arbedion, mae'n anorfod bod gwireddu bron i £27m o arbedion ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol. Mae angen mwy o amser i gynllunio a gweithredu'n briodol ar rai cynlluniau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rwyf yn fodlon gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu cynlluniau arbedion y cyfnod hwn ac yn ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio gwireddu y cynlluniau sydd wedi llithro, a bydd yr holl Aelodau Cabinet yn parhau i fonitro'r sefyllfa, gan weithredu fel bo angen er sicrhau'r nod.

Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad derbyniol iawn a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau ynglŷn â phriodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**Atodiadau:**
Atodiad 1 – Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 – 2017/18 fesul adran
Atodiad 2 – Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2018/19 fesul adran

22/01/2019

**ATODIAD 1**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2017/18 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion<br>£ | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br>£ (nifer) | Cynlluniau sydd wedi eu gohirio<br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 685,860 | 598,879 | 86,981 (2) | - | Yn disgwyl adnoddau ychwanegol gan yr Uned Technoleg Gwybodaeth er mwyn cyflymu'r gwaith ar gynllun "Ffordd Gwynedd - Uned Cyflogau a Chontractau", ond yn y cyfamser mae'r Adran yn pontio'r diffyg. |
| Ysgolion | 4,037,000 | 3,738,010 | 298,990 (1) | - | Mae'r Cabinet ar 13.12.16 wedi cymeradwyo pontio am ddwy flynedd y swm o £298,990 o arbedion 2017/18 y mae disgwyl i'r sector Uwchradd ei ddarganfod, ac mae'r ysgolion eisoes yn ymwybodol o amseriad y toriad yn eu cyllidebau. |
| Amgylchedd | 2,179,353 | 2,179,353 | - | - | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 1,652,838 | 1,652,838 | - | - | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 960,826 | 960,826 | - | - | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Economi a Chymuned | 2,085,602 | 2,085,602 | - | - | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 4,934,141 | 4,473,401 | 460,740 (7) | - | Er bod cynnydd wedi ei wneud yn ddiweddar gyda rhai o'r cynlluniau oedd wedi llithro, mae amrediad o gynlluniau 2017/18 yn parhau heb eu gwireddu'n llawn. |

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2017/18 FESUL ADRAN

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion**<br>**£** | **Cynlluniau wedi eu gwireddu**<br>**£** | **Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro**<br>**£ (nifer)** | **Cynlluniau sydd wedi eu gohirio**<br>**£ (nifer)** | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,987,318 | 1,870,318 | 117,000 (1) | - | Mae'r cynllun "Dechrau i'r Diwedd" wedi bod yn destun adolygiad diweddar, sydd wedi cadarnhau fod niferoedd y nosweithiau plant mewn gofal wedi lleihau yn ystod y cyfnod, ond fod y math o leoliad preswyl wedi newid, ac felly yn cael effaith ar gost lleoliadau. Bu hefyd leihad yng nghyfraniadau gan Iechyd. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 4,968,550 | 4,809,550 | 63,000 (4) | 96,000 (1) | Rhagwelir y bydd y pedwar cynllun yn cael eu gwireddu yn ystod 2019/20. Mae'r Cabinet ar 11 Medi 2018 eisioes wedi cymeradwyo gohirio gweithrediad y cynllun arbediad "Canolfannau Ailgylchu (PB5)", gan ymdrin â'r bwlch o £96,000 sy'n cael ei greu wrth ystyried arbedion 2019/20 ymlaen. |
| Ymgynghoriaeth | 387,000 | 387,000 | - | - | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 172,270 | 172,270 | - | - | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Trawsadrannol | 224,220 | 224,220 | - | - | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **24,274,978** | **23,152,267** | **1,026,711 (15)** | **96,000 (1)** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 95% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2017/18 wedi eu gwireddu.** |

22/01/2019

**ATODIAD 2**

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2018/19 FESUL ADRAN**

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion 2018/19**<br>**£ (nifer)** | **Cynlluniau wedi eu gwireddu**<br>**£ (nifer)** | **Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol**<br>**£ (nifer)** | **Cynlluniau sydd yn llithro**<br>**£ (nifer)** | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 521,450 (3) | 436,000 (1) | 43,750 (1) | 41,700 (1) | Mae'r ystadegau presennol yn dangos nad yw'r targed incwm "Lleihau amser a/neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast am ddim i blant ysgolion cynradd" yn debygol o gael ei wireddu'n llawn yn 2018/19. |
| Ysgolion | - | - | - | - | Dim cynlluniau wedi eu rhaglennu yn 2018/19. |
| Amgylchedd | 154,970 (6) | 154,970 (6) | - | - | Holl gynlluniau wedi eu gwireddu |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 47,340 (2) | 47,340 (2) | - | - | Y ddau gynllun wedi eu gwireddu. |
| Cyllid | 66,430 (2) | 66,430 (2) | - | - | Y ddau gynllun wedi eu gwireddu. |
| Economi a Chymuned | 308,830 (3) | 100,000 (1) | 52,330 (2) | 156,500 (1) | Mae gwaith ar y gweill i wireddu'r holl gynlluniau, ond bellach 1 Ebrill 2019 fydd dyddiad trosglwyddo'r ddarpariaeth cyfleusterau hamdden i'r cwmni newydd. O ganlyniad, bydd llithriad rhannol cyn gwireddu'r arbedion sydd i ddod o'r cynllun "Rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithiol". |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 645,000 (6) | 575,000 (4) | 70,000 (2) | - | Dim problem yn cael ei ragweld. |

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2018/19 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2018/19<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau sydd yn llithro<br><br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 314,480 (2) | 64,200 (1) | - | 250,280 (1) | Mae'r cynllun "Dechrau i'r Diwedd" wedi bod yn destun adolygiad diweddar, sydd wedi cadarnhau fod niferoedd y nosweithiau plant mewn gofal wedi lleihau yn ystod y cyfnod, ond fod y math o leoliad preswyl wedi newid ac felly yn cael effaith ar gost lleoliadau. Bu hefyd leihad yng nghyfraniadau gan Iechyd. Bydd angen i'r Adran ystyried newid trywydd canolbwyntio er mwyn ceisio datrysiad. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 86,700 (1) | 86,700 (1) | - | - | Y cynllun wedi ei wireddu. |
| Ymgynghoriaeth | - | - | - | - | Dim cynlluniau wedi eu rhaglennu yn 2018/19. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 13,800 (1) | - | - | 13,800(1) | Y cynllun yn llithro. |
| **Is-gyfanswm** | **2,159,000 (26)** | **1,530,640(18)** | **166,080 (5)** | **462,280 (4)** | |
| Trawsadrannol | 295,740(3) | - | 210,740(2) | 85,000(1) | Mae un o'r cynlluniau trawsadrannol yn llithro. |
| **CYFANSWM** | **2,454,740(29)** | **1,530,640(18)** | **376,820 (7)** | **547,280(5)** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 62% o gynlluniau'r flwyddyn wedi eu gwireddu a 15% ar drac i gyflawni'n amserol.** |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 22 Ionawr 2019 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Nia Jeffreys |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o dîm rheoli'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a thim rheoli'r Gwasanaeth Cyfreithiol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.

1.3 Yn gyffredinol rwy'n hapus gyda chynnydd prosiectau yr arweinir arnynt o fewn Cynllun y Cyngor a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

**2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**3 PROSIECTAU CYNLLUN Y CYNGOR**

3.1 **Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor**

3.2 Rydym yn falch iawn fel Cyngor ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'n ofynnol i staff allu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg hyd at safon sy'n briodol ac er mwyn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n llawn. Er mwyn sicrhau ein bod yn cefnogi ein staff i fedru darparu'r gwasanaeth gorau i'n trigolion rydym wedi dewis 6 gwasanaeth rheng flaen o fewn 6 adran, ac wedi dechrau'r gwaith o asesu

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

anghenion ieithyddol deiliaid swyddi. Mae yna groeso i'r gefnogaeth hon gan swyddogion a rheolwyr fel ei gilydd. Rwy'n falch hefyd o fedru dweud, diolch i waith y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant, bod deunyddiau'r cwrs IOSH bellach ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.3 **Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus**

3.4 Fis Rhagfyr fe basiwyd drafft o "Gynllun Gweithredu yr Is-Grŵp Iaith Gymraeg" gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac rydym fel Cyngor yn un o'r partneriaid fydd y gweithredu'r Cynllun hwn. Mae nifer o is-benawdau i'r Cynllun, ac un ohonynt yw 'profiad y dinesydd'. Nod y gwaith hwn yw i bartneriaid y Bwrdd yn eu tro annog trigolion i gychwyn sgyrsiau yn y Gymraeg wrth gysylltu â nhw ac i'r trafodion fod fwy-fwy drwy'r Gymraeg. Rydym fel Cyngor wedi gallu rhannu arfer da â'n cyd-aelodau eisoes a byddwn yn annog trigolion Gwynedd i ddefnyddio gwasanaethau iaith Gymraeg aelodau'r Bwrdd.

3.5 **Busnesau Gwynedd yn Defnyddio'r Gymraeg**

3.6 Rydym yn parhau i fod yn ymchwilio i'r anghenion yn y maes hwn, ac mae'n amlwg bod angen gwell eglurder am y gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau a sut rydym yn defnyddio ein prosesau a'n dylanwad o fewn y Cyngor i ddylanwadu ar ddefnydd iaith y sector breifat. Gobeithio y bydd cynnydd pellach yn y maes hwn erbyn y tro nesaf i mi adrodd i chi.

3.7 **Cadw'r Budd yn Lleol**

3.8 Rwy'n falch o fedru adrodd bod canran o wariant refeniw lleol y Cyngor wedi cynyddu 1% yn y cyfnod Gorffennaf i Medi o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd (o 62 i 63%). Mae'r canran o wariant refeniw a chyfalaf gyda'i gilydd, ar y llaw arall, wedi cynyddu o 4% (o 55 i 59%). Mae'n bwysig ein bod yn parhau i wneud ein gorau i daro'r balans rhwng sicrhau'r gwerth am arian gorau i'n trigolion â'r budd o wario gyda chwmnïau lleol.

3.9 Mae'r gwaith o annog busnesau lleol i gystadlu am waith gan y Cyngor hefyd yn parhau. Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn cynnig cefnogaeth a hyfforddiant i fusnesau lleol er mwyn iddynt allu cwrdd â safonau iechyd a diogelwch angenrheidiol. Mae yna waith dwys wedi ei wneud hefyd ar lunio cytundebau newydd ar gyfer darparu dillad diogelwch, er mwyn rhoi'r cyfle gorau posib i gwmnïau lleol fedru cyflwyno tendr ar gyfer y gwaith.

3.10 Mae yna lawer iawn o waith canmoladwy yn cael ei wneud yn y maes hwn, drwy barhau i gynnig cytundebau i gwmnïau sy'n cyflogi'n lleol, neu i gynnig cytundebau newydd i'r cwmnïau hynny. Mi fyddai'n awyddus i rannu mwy o'r straeon calonogol yma gyda phobl Gwynedd i'r dyfodol, ac i ddathlu llwyddiant.

3.11 **Lleihau'r Bwlch Cyflog Rhwng Merched a Dynion**

3.12 Pwrpas y prosiect hwn yw hybu'r nifer o ferched sy'n cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor er mwyn lleihau'r bwlch cyflog rhwng merched a dynion. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf roedd y bwlch yn 9.9% ar gyfartaledd. Er bod tua 71% o weithlu'r Cyngor yn ferched, mae dros hanner y nifer yma yn gweithio'n rhan amser, a nifer sylweddol o'r rheiny mewn swyddi ar lefelau cyflog is na chyfartaledd cyflog y Cyngor.

3.13 Oherwydd bod cynifer o ferched yn dal swyddi ar lefelau cyflog is, does yna ddim ateb hawdd a chyflym i'r broblem o drio lleihau'r bwlch cyflog. Mae'n rhaid i ni drin y sefyllfa hon drwy gynllunio ateb tymor hir.

3.14 Rydw i, ac uwch swyddogion y Cyngor, yn gytûn bod angen symud ffocws y prosiect hwn i ganolbwyntio ar ddileu unrhyw elfen o'r amodau ac amgylchedd gwaith o fewn y Cyngor sy'n rwystr i ferched ymgeisio am swyddi arweiniol a rheolaethol i'r dyfodol. Rydym yn ymchwilio i'r amgylchiadau o fewn y Cyngor ac yn tynnu ar waith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol hefyd er mwyn i ni symud ymlaen gyda'r gwaith pwysig hwn.

3.15 **Datblygu Arweinyddiaeth**

3.16 Mae'r rhaglen ddatblygu ar gyfer miniogi sgiliau arwain Aelodau Etholedig a swyddogion yn symud yn ei flaen yn addawol iawn. Rydym fel aelodau o'r Cabinet wedi mynychu gweithdai sydd wedi ein cynorthwyo i gryfhau ein sgiliau gweithio fel tîm ac i ganolbwyntio ar ein gweledigaeth wleidyddol. Mae dau o'n Aelodau Etholedig, y Cynghorwyr Paul Rowlinson a Catrin Wager hefyd yn mynych Academi Arweinyddion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

3.17 Ein ffocws wrth ddatblygu sgiliau ein Rheolwyr o fewn y Cyngor yw i danlinellu mai diwylliant o arwain pobl sydd angen i ni ei weld, nid cyfundrefn sy'n rheoli pobl yn unig. Rydym yn cynnig hyfforddiant pellach i'n prif swyddogion i ddatblygu eu sgiliau, gyda 4 Prif Swyddog (gan gynnwys Pennaeth yr Asiantaeth Cefnffyrdd) wedi cychwyn ar raglen Uwch Arweinyddiaeth gydag Academi Cymru.

3.18 Mae'r Rhwydwaith Rheolwyr wedi ei sefydlu yn ogystal, fydd yn gyfle i Reolwyr ar draws y Cyngor rannu arfer da a derbyn hyfforddiant. Mae'r gwaith hwn i gyd yn cyd-fynd a'r gwaith sy'n cael ei wneud o dan y prosiect Rhoi Ffordd Gwynedd ar Waith. Mae swydd-ddisgrifiadau Rheolwyr ar bob lefel yn cael eu hadolygu ochr yn ochr â'r gwaith o gynnal adolygiad rheolaethol, a bydd modd i mi adrodd ymhellach ar hyn y tro nesaf.

3.19 **Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith**

3.20 Fe dderbyniodd 130 o reolwyr a rhai swyddogion eraill hyfforddiant 6 diwrnod er mwyn eu harfogi i roi Ffordd Gwynedd ar waith. Er fod y cyrsiau yma yn dal i gael eu rhedeg rydym wedi gwerthuso'r trefniadau hyd yma a chanfod bod croeso brwdfrydig i'r cwrs, ond bod cyflymder gweithredu ar yr hyn a ddysgwyd yn amrywio. Rydw i wedi holi am fwy o wybodaeth ynghylch hanes a chanlyniadau adolygiadau Ffordd Gwynedd ar draws

Adrannau'r Cyngor, ac yn enwedig y rhai hynny sy'n delio â phlant ac oedolion bregus.

3.21 Mae'r Strategaeth Ffordd Gwynedd wreiddiol a gyhoeddwyd yn Hydref 2015 bellach wedi dod i ddiwedd ei hoes. Yn dilyn ymgynghori ar gynllun drafft newydd bydd y Strategaeth ar ei newydd wedd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet ei hystyried yn y dyfodol agos.

## 4 PERFFORMIAD

4.1 Yn ychwanegol i'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod ar brosiectau sy'n perthyn i Gynllun y Cyngor, mae gweddill prif brosiectau Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn cael eu disgrifio isod. Ymhellach, ceir adroddiad llawn ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio yn **Atodiad 1.**

4.2 Mae datblygiad **Hunanwasanaeth** ar wefan y Cyngor yn hanfodol bwysig i alluogi trigolion Gwynedd i gael mynediad i wybodaeth 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, a chynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor am wasanaeth. Hyd yma, mae trigolion Gwynedd wedi gallu osgoi costau o £63,580 i'r Cyngor drwy'r dull hwn.

4.3 Mae'r niferoedd o gyfrifon hunanwasanaeth yn parhau i gynyddu, gyda 36,197 cyfri bellach wedi eu creu erbyn diwedd Hydref 2018 – 24% yn fwy o gyfrifon nag yn Hydref 2017. Mae'r niferoedd sy'n mewngofnodi i'w cyfrifon yn fisol hefyd yn parhau i gynyddu o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae pob gwasanaeth newydd sydd wedi'i gyflwyno ers Hydref 2016 wedi gweld cynnydd yn y nifer o geisiadau ar-lein , ac eithrio Cwyn Gwastraff a Chasgliad Gwastraff Swmpus. Byddwn yn gweithio i geisio cynyddu'r niferoedd i'r dyfodol. Byddwn hefyd yn gweithio i geisio cynyddu'r niferoedd sy'n lawrlwytho 'apGwynedd' o'r App Store a Google Play.

4.4 Datblygiad arwyddocaol ers Tachwedd 2018 ydi rhoi'r gallu i drigolion roi gwybod am broblemau ar ein priffyrdd drwy hunanwasanaeth, ee. twll neu rwystr ar y ffordd, problem hefo arwyddion. Rydym wedi newid dull ein swyddogion priffyrdd o weithio, a gan eu bod bellach yn cario teclynnau symudol er mwyn cofnodi eu gwaith, gellir rhoi diweddariad yn syth pan fydd problem wedi ei datrys os yw'r gŵyn wreiddiol wedi ei chyflwyno drwy hunanwasanaeth.

4.5 Mae'r cyfrifoldeb am gynnwys **gwefan y Cyngor** gan Wasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Cyngor. Rhwng Gorffennaf a Hydref 2018 bu i 657,644 o unigolion ddefnyddio gwefan y Cyngor. Dewisodd 652 (0.09%) fynegi eu barn ar y wefan, gyda 479 (76%) yn rhoi sgôr o 5 allan o 5. O'r 155 (24%) nododd sgôr o lai na 5 allan o 5 dewisodd 91 i gyflwyno cwyn neu sylw. Cafwyd fwy o gwynion yn ystod y cyfnod hwn yn bennaf oherwydd problemau a gafwyd gyda 'servers' gwefan y Cyngor dros yr haf, ac mae hynny'n ddealladwy. Er hynny, mae'r gwasanaeth yn gweithredu yn brydlon er mwyn datrys cwynion, gyda 73% o'r cwynion wedi eu datrys o fewn 3 diwrnod gwaith, sy'n gynnydd ar y perfformiad rhwng Ebrill a

Gorffennaf. Dim ond un gŵyn sy'n parhau ar agor, sef yr angen i ychwanegu haen llwybrau cyhoeddus i'r map ar-lein, ond rydym yn gweithredu i ddatrys problemau sy'n ymwneud â materion ieithyddol. Mae gwybodaeth bellach am y mesuryddion yn Atodiad 1.

4.6 Un rhan arall o waith y **Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu** yw rhannu gwybodaeth am waith y Cyngor yn y wasg, ac ymateb i geisiadau gan y wasg am wybodaeth a sylwadau. Yn fy adroddiad diwethaf mi holais y Gwasanaeth am ffyrdd o fesur ardrawiad datganiadau cyhoeddus y Cyngor. Dros y 4 mis rhwng Gorffennaf a diwedd Hydref fy gyhoeddodd y Cyngor 76 datganiad i'r wasg rhagweithiol, ac fe wnaethant arwain yn uniongyrchol at gyhoeddi 246 o erthyglau neu eitemau newyddion cadarnhaol. Rwy'n awyddus i'r Gwasanaeth barhau i gyhoeddi newyddion am waith llwyddiannus ac effeithiol y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano, er mwyn i drigolion Gwynedd gael gwybod sut yr ydym yn gweithredu, a pha wahaniaeth mae hynny'n ei wneud i'w bywydau.

4.7 Bu'r Gwasanaeth yn brysur dros y cyfnod diwethaf yn ymgysylltu â phobl Gwynedd wrth i ni ddechrau cynllunio ar gyfer canfod arbedion pellach. Diolch i'r 2,553 o unigolion a sefydliadau sydd wedi cwblhau'r holiadur 'Blaenoriaethau Pobl Gwynedd: Pa Wasanaethau sy'n Bwysig i Chi?' Rwy'n disgwyl i'r gwaith ymgysylltu â phobl Gwynedd am effaith y sefyllfa ariannol sy'n ein wynebu barhau neu gynyddu i'r dyfodol.

4.8 Ers fy adroddiad diwethaf fis Medi, mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg a'r Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth wedi uno, a phwrpas y **Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth** newydd ydi 'Helpu pob aelod o staff i reoli gwybodaeth ar bapur neu'n electronig a chadw at ddeddfau gwybodaeth. Datblygu gallu'r Cyngor a'i bartneriaid i ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth er mwyn gwneud y penderfyniadau gorau i bobl Gwynedd'.

4.9 Bu dau 'ddigwyddiad gwybodaeth' (lle mae gwybodaeth am unigolyn wedi ei ddwyn/colli/mynd i'r cyfeiriad anghywir) rhwng Gorffennaf a diwedd Hydref. Roedd un achos yn deillio o nam mewn meddalwedd ynghlwm â'n gwefan, ac rydym wrthi'n gweithio ar ateb gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i sicrhau na fydd yn digwydd eto. Roedd yr ail achos yn ymwneud â phostio gwybodaeth i berson anghywir. Mae'r trefniadau eisoes wedi eu tynhau er mwyn sicrhau na fydd yn digwydd eto. Rhaid cofio serch hynny bod nifer y digwyddiadau data wedi gostwng o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol, a dim un yn ddigon difrifol i orfod adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae gwybodaeth bellach am y mesuryddion yn Atodiad 1.

4.10 Mae'r Gwasanaeth wedi bod ynghlwm â'r gwaith o ddadansoddi canlyniadau'r holiaduron 'Blaenoriaethau Pobl Gwynedd: Pa Wasanaethau sy'n Bwysig i Chi?', gwaith holl bwysig wrth i ni fel Cynghorwyr bwyso a mesur pa wasanaethau fydd Cyngor Gwynedd yn gallu eu darparu i'r dyfodol yn wyneb y sefyllfa ariannol ddifrifol sy'n ein wynebu. Yn ychwanegol i hyn, mae llawer o waith ymchwil ar y gweill mewn nifer o feysydd gwahanol fydd yn gallu ein cynorthwyo fel Cynghorwyr a

swyddogion i gynllunio gwasanaethau i'r dyfodol, ee. tueddiadau mewn niferoedd a chostau gofal plant, cyfundrefnau amddiffyn plant a datblygiadau tai newydd.

4.11 Mae Gwasanathau **Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd** yn rhoi cymorth prydlon a chywir i'n cwsmeriaid i gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor drwy ddarparu atebion, arweiniad a gwasanaeth. Dros y cyfnod diwethaf rwy'n falch o fedru adrodd bod cyfartaledd yr amser a gymerwyd i ateb galwad ffôn yn **Galw Gwynedd** wedi gostwng o 53 eiliad i 40 eiliad. Mae niferoedd y galwadau sy'n cyrraedd Galw Gwynedd hefyd wedi lleihau, ac os fydd y patrwm yma'r parhau mae'r Gwasanaeth am edrych i gyflwyno "webchat" yn y dyfodol agos. Mae'r gwaith yr ydw i eisoes wedi ei ddisgrifio o fewn y prosiect Hunanwasanaeth wedi gallu rhyddhau amser yn Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd i ymateb yn gyflymach i ymholiadau dros y ffôn a wyneb yn wyneb.

4.12 Wrth holi am fodlonrwydd cwsmeriaid gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan **Siopau Gwynedd**, roedd 4.29% o'r cyfanswm wedi rhoi sgôr o llai na 10. Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol, ac yng nghanol ceisio datrys, problemau sydd wedi codi gyda prinder llefydd i barcio i ymwelwyr yn Siop Gwynedd Pwllheli, a materion staffio yn Siop Gwynedd Dolgellau.

4.13 Canran debyg – 4% - o gwsmeriaid y **Gwasanaeth Cofrestru** oedd wedi rhoi sgôr bodlonrwydd o llai na 10. Mae'r Gwasanaeth yn adolygu eu prosesau mewnol ar hyn o bryd er mwyn gwella ymhellach, ond rhaid cofio bod rhai ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth, megis problemau gyda diffyg llefydd parcio yn Ysbyty Gwynedd ar gyfer mynychu apwyntiadau Cofrestru.

4.14 Rydw i'n awyddus iawn bod y **Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn** parhau i wthio eu model busnes ble mae Rheolwyr yn rheoli iechyd a diogelwch o fewn eu gwasanaethau eu hunain. Mae'r arbenigwyr o fewn y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn cynnig cefnogaeth ddwys yn ogystal â hyfforddiant i Reolwyr, ond mae angen i bob Rheolwr gymryd eu cyfrifoldebau o ddifri a bod yn atebol am ddiogelwch staff a'r cyhoedd. Byddwn fel Cyngor yn adolygu ymhellach y trefniadau o fewn pob Gwasanaeth gyda golwg i sicrhau bod y cyfrifoldebau yma yn cael eu gweithredu'n llawn.

4.15 Yn dilyn herio perfformiad y **Gwasanaeth Cyfreithiol** rwy'n hapus gyda chynnydd y gwaith, ac rwy'n llongyfarch y Gwasanaeth am lwyddo unwaith eto i gynnal safon LEXCEL, sef safon cydnabyddedig Cymdeithas y Gyfraith o ran "Excellence in legal practice management and client care".

4.16 Prif faterion perfformiad yn unig a nodir uchod wrth gwrs. Tra fy mod wedi cael trafodaethau manwl ar amrywiol faterion eraill o fewn y gwahanol unedau, rwyf yn fodlon fod perfformiad gweddill yr unedau hynny o fewn yr amrediad perfformiad disgwyliadwy.

**5 SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION**

5.1 Mae'r holl gynlluniau arbedion ar gyfer 2018/19 wedi eu gwireddu, ond wrth gwrs mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Gwasanaeth Cyfreithiol, fel gweddill y Cyngor, yn edrych ar gyfleoedd i wneud arbedion pellach i'w gwireddu o Ebrill 2019 ymlaen.

**6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

6.1 Dim i'w nodi.

**7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

7.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau ynglŷn â phriodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

7.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

7.2.1 Ddim yn fater lleol.

7.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

7.3.1 Dim i'w nodi.

---


**Atodiadau**

Atodiad 1 – Mesurau Perfformiad

**Mesurau Perfformiad Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Gwasanaeth Cyfreithiol : Gorffennaf – Hydref 2018**


<u>Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu</u>

**Mesurydd Perfformiad 1 – Gwefan Allanol y Cyngor: Nifer y defnyddwyr sy'n adrodd eu bod yn anfodlon gyda'r wefan (1 Gorffennaf – 31 Hydref)**





- Fe wnaeth **657,644** o unigolion ddefnyddio gwefan y Cyngor rhwng Gorffennaf a Hydref 2018.
- Dim ond **652 (0.09%)** wnaeth ddefnyddio'r teclyn adborth i fynegi barn ar y cynnwys.
- Roedd **497 (76%)** o'r rhai wnaeth fynegi barn yn gyfangwbl fodlon gyda'r wefan.
- Dim ond **155 (24%)** wnaeth nodi sgôr bodlonrwydd o lai na 5 allan o 5, ac o'r rhain **91** wnaeth gyflwyno cwyn neu awgrym i wella'r cynnwys.

**Mesurydd Perfformiad 2 – Gwefan Allanol y Cyngor: Nifer y cwynion neu sylwadau a dderbynnir am y wefan**




- Mae 90 o'r 91 cwyn a dderbyniwyd dros gyfnod yr adroddiad wedi eu datrys.
- Llwyddwyd i gau 66 (73%) o'r sylwadau/cwynion o fewn 3 diwrnod gwaith.
- Mae'r gwyn sydd heb ei datrys yn cyfeirio at yr angen i ychwanegu haen llwybrau cyhoeddus i'r map ar-lein. Mae'r wybodaeth yn barod, ond mae'r gwaith wedi ei ddal yn ôl oherwydd materion ieithyddol. Mae'r Uned Iaith wedi wneud cais am eithriad i'r Comisiynydd Iaith, ond heb glywed yn ôl eto.
- Derbyniwyd 40 yn fwy o gwynion nag yn y cyfnod blaenorol am 2 reswm:
  - mae'r adroddiad yma yn adrodd ar gyfnod o 4 mis tra mai 3 mis oedd cyfnod yr adroddiad blaenorol
  - Problemau difrifol gyda 'servers' cyfrifiadurol y Cyngor yn ystod Gorffennaf ac Awst.


**Mesurydd Perfformiad 3 – Cynlluniau Cyfathrebu ac Ymgysylltu – Sgôr allan o 10 a dderbynnir ar ddiwedd cynllun penodol mewn ymateb i'r cwestiwn "I ba raddau mae'r gefnogaeth yr ydych wedi ei dderbyn gan yr Uned wedi eich cynorthwyo i ymgysylltu yn effeithiol gyda phobl Gwynedd".**




- Derbyniwyd sgôr o 10 allan o 10 ar gyfer y 6 chynllun a gefnogwyd rhwng Gorffennaf a Hydref 2018.
- Mae ffurflenni adborth yn parhau i amlygu'r ffaith fod gwasanaethau'r Cyngor o'r farn fod y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn ychwanegu gwerth i'w cynlluniau a bod croeso mawr i'r gefnogaeth.

<u>Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth</u>


**Mesurydd Perfformiad 1 – Nifer digwyddiadau gwybodaeth lle mae gwybodaeth am unigolyn wedi ei ddwyn/colli/mynd i'r cyfeiriad anghywir**




Cafwyd 2 ddigwyddiad yn y cyfnod yma, sy'n ostyngiad o'i gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol:

- Achos lle bu i wybodaeth am bobl wnaeth ymgynghori ar gau ysgol ymddangos ar y we oherwydd nam mewn meddalwedd penodol.
- Trwydded yrru aelod o staff wedi ei hanfon i'r person anghywir.

**Mesurydd Perfformiad 2 – Deddf Rhyddid Gwybodaeth – canran ceisiadau rhyddid gwybodaeth a atebwyd o fewn 20 diwrnod gwaith**




Gwelwyd ddirywiad mewn perfformiad rhwng Gorffennaf a Thachwedd o'i gymharu ag Ebrill i Gorffennaf (lawr o 88 i 76%) oherwydd bod trefniadau mewnol newydd wedi eu mabwysiadu. Mae hyn wedi arwain at lai o atgoffa staff o'r angen i ymateb o fewn yr amserlen.

**Mesurydd Perfformiad 3 – Diogelu Data – canran ceisiadau diogelu data atebwyd o fewn un mis calendr (ceisiadau gan unigolion i gael gweld gwybodaeth amdanynt eu hunain)**

rhwng 18 Gorffennaf a 13 Tachwedd 2018
Perfformiad 76% (17 o geisiadau wedi eu derbyn)

Rhwng 1 Ebrill a 17 Gorffennaf 2018
Perfformiad 75% (12 o geisiadau wedi eu derbyn)

Mae'r perfformiad wedi aros yn gyson er gwaethaf nifer uwch o geisiadau o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol.


**Mesurydd Perfformiad 4 – Holiadur iGwynedd (system rheoli cofnodion electronig) yn gofyn barn staff am y system**

A ydi'r system yn gwneud beth ydych chi ei eisiau? –
Ydi – 79%
Nac ydi – 21%


Mae'r tîm wrthi'n cynnig hyfforddiant i bawb sydd wedi nodi nad ydynt yn gwbl fodlon â'r system

Gwasanaeth Galw Gwynedd, Siop Gwynedd a'r Gwasanaeth Cofrestru

**Gwasanaeth Cofrestru - Mesurydd Perfformiad 1 - Canran yr holiaduron bodlonrwydd sy'n graddio'r gwasanaeth Cofrestru Genedigaeth, Marwolaeth a Phriodasau yn dda iawn.**





**Gwasanaeth Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd - Mesurydd Perfformiad 1 - Bodlonrwydd Cwsmeriaid Galw Gwynedd**







**Gwasanaeth Siopau Gwynedd - Mesurydd Perfformiad 2 - Bodlonrwydd Cwsmeriaid Siop Gwynedd (Canran a nodwyd sgôr o lai na 10 gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd wrth gysylltu â'r Cyngor drwy Siopau Gwynedd)**





**Gwasanaeth Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd - Mesurydd Perfformiad 3- Darparu Gwasanaeth Prydlon yn Galw Gwynedd**



Mae 95.71% wedi rhoi sgôr o 10 i Siop Gwynedd a 4.29% wedi rhoi sgôr o llai na 10.

**Gwasanaeth Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd - Mesurydd Perfformiad 4– Darparu Atebion / Gwasanaeth yn Galw Gwynedd**







Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant

**Mesurydd Perfformiad 1 - Nifer o ddiffygion sydd wedi eu canfod mewn archwiliadau rhaglenedig.**


Data ar gyfer un Adran yn unig o fewn y Cyngor

C1. Nifer damweiniau
C2. Adrodd ar fethiannau agos
C3. Trefniadau a fforymau I&D rheolaidd
C4. Hyfforddiant i reolwyr
C5. Gallu i gynnal asesiad risg addas a digonol yn annibynnol o'r tîm I&D canolog
C6. Agwedd ac ymateb Rheolwyr
C7. Prosiectau a thrawsnewid
C8. Gweithredu ar argymhellion
C9. Amrywiaeth mewn safonau o fewn Gwasanaethau'r Adran
C10. Anghenion hyfforddi staff – wedi eu hadnabod?



**Mesur Perfformiad MP1 (Staff pob lefel): "Ydi'r ddarpariaeth yn eich helpu chi i roi Gwasanaeth gwell i bobl Gwynedd?" (Sgôr /10)**

**Mesur Perfformiad MP2 (Rheolwyr): "Ydi'r ddarpariaeth yn helpu eich staff chi i roi Gwasanaeth gwell i bobl Gwynedd?" (Sgôr /10).**





**Mesur Perfformiad – Nifer o gwynion ffurfiol wedi eu derbyn o dan y drefn Gorfforaethol**

Derbyniwyd 10 cwyn ffurfiol yn ystod y cyfnod (o'i gymharu â 12 rhwng Ebrill-Gorffennaf). Yn ychwanegol at yr rhain, daeth 6 cwyn oddi wrth yr Ombwdsmon (o'i gymharu â 8 rhwng Ebrill-Gorffennaf) - 3 yn dod yn ôl yn Ddim Ymchwiliad, 3 arall yn dal ar agor o ochr yr Ombwdsmon.
Mae'r cwynion yma o fewn y categorïau – Materion Iaith a Chydraddoldeb (1), Camgymeriad/ Gweithrediad anghywir gan y Cyngor (4), Ymddygiad Swyddog (1), Anhapus gyda Phenderfyniad (4), a Diffyg Ymateb/Gweithredu (6).

Gwasanaeth Democratiaeth a Chyfieithu

**Mesurydd Perfformiad 1 - Canran y rhaglenni pwyllgorau sydd wedi eu cyhoeddi yn electroneg o fewn amser**




**Mesurydd Perfformiad 2a – Barn defnyddwyr am waith cyfieithu ysgrifenedig** 100%

**Mesurydd Perfformiad 2b – Barn defnyddwyr am waith cyfieithu ar y pryd** 100%

Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol

**Mesurydd Perfformiad 1 – Achosion Cyflogaeth y bu i i'r Gwasanaeth gynghori arnynt** 41

**Mesurydd Perfformiad 2 – Nifer o apeliadau cyflogaeth sydd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Apeliadau Cyflogaeth, a'r nifer o benderfyniadau gan y Pwyllgor sy'n mynd yn groes i benderfyniad y Cyngor**


Cafodd un achos apêl ei gynnal yn ystod Gorffennaf i Hydref, gyda'r Pwyllgor yn caniatáu'r apêl ac felly'n mynd yn groes i benderfyniad y cyflogwr.


**Mesurydd Perfformiad 3 – Nifer o ddyddiad absenoldeb salwch y pen ar gyfartaledd (Ebrill i 30 Medi)**

| **2017/18** | **2018/19** |
|---|---|
| 3.85 | 4.02 |

Gwasanaeth Caffael


**Mesurydd Perfformiad 1 – Gwariant Lleol**




Mae'r canran refeniw lleol wedi cynyddu 1%, a'r canran o wariant cyfalaf a refeniw wedi cynyddu 4% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2017/18.

**Mesurydd Perfformiad 2 – Arbedion Caffael**



# CYNGOR GWYNEDD

**ADRODDIAD I GYFARFOD**
**CABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 22ain o Ionawr 2019 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Ioan Thomas,<br>Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Datblygu'r Economi |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Datblygu'r Economi. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

1.2 Rydym erbyn hyn yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2018-23, yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd ers mis Gorffennaf hyd at ddiwedd Hydref 2018.

1.3 Dros y misoedd diwethaf, mae'r pwyslais wedi bod ar weithredu'r prosiectau sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2018-23. Ar y cyfan, rwyf yn hapus gyda pherfformiad y mwyafrif o brosiectau, gyda phob un ar y trywydd cywir. Byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad, gan gyfeirio at enghreifftiau o ymarfer da.

## 2. PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**3.1** Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. PROSIECTAU CYNLLUN Y CYNGOR



**Cyswllt**:
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

4.1 **Busnesau sy'n cael cymorth i ffynnu**

4.1.1 ***Pwrpas y prosiect yw sicrhau dull gweithredu yn y Cyngor sy'n rhoi anghenion busnesau yn ganolog ac yn ceisio lleihau rhwystrau iddynt sefydlu a thyfu yn y sir.***

4.1.2 Mae busnesau'r sir yn ymwneud a nifer o Adrannau'r Cyngor ac yn derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael. Mae'r gwaith sgopio a chynnal trafodaethau trawsadrannol yn parhau mewn perthynas â mabwysiadu rhaglen "Gwell Busnes i Bawb".

4.2 **Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £26,500 neu fwy)**

4.2.1 ***Bydd y prosiect yma yn edrych i dargedu'r sectorau sy'n talu'n dda trwy greu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar ddenu buddsoddiad mewn safleoedd strategol megis Atomfa Trawsfynydd, Maes Awyr Llanbedr a Pharc Bryn Cegin/Parc Menai.***

4.2.2 Unwaith eto mae'r prosiect wedi cael chwarter heriol gydag un cwmni digidol allweddol arall yn penderfynu cau 4 swyddfa ranbarthol, yn cynnwys un ym Mangor, gan golli 105 o swyddi gwerth uwch. Mae gwaith wedi cymryd lle i geisio sicrhau bydd yr unigolion yma yn cael swyddi amgen mewn busnesau eraill cyfagos. Ond, mae diffyg gofod busnes yn parhau i fod yn rhwystr. Rydym yn ymwybodol o un cwmni digidol sydd yn cynllunio i ehangu a chreu 100 o swyddi, ond mae gofod swyddfa yn rhwystr.

4.2.3 Mae'r prosiect yn parhau i weithio i ddenu datblygiad newydd i safle Trawsfynydd, gyda Bargen y Sector Niwclear Llywodraeth y DU yn cynnig arwyddion cadarn bod potensial i leoli'r dechnoleg adweithiau bychain 'SMR'; yn Nhrawsfynydd.

4.2.4 Mae'r gwaith o ddatblygu safle Llanbedr yn parhau, gyda'r pecyn Ariannol bellach yn gyflawn ar ôl i Lywodraeth Cymru sicrhau buddsoddiad o £9.5m dros y 3 mlynedd nesaf. Bydd Swyddogion yn cyd-weithio'n agos gyda pherchnogion y safle a gyda'r Adran Trafnidiaeth i gychwyn ar y gwaith yn y flwyddyn newydd.

4.2.5 Mae gwaith yn parhau i gefnogi Rhwydwaith Gogledd Creadigol, gyda Awdit Creadigol bellach wedi ei gyhoeddi ar wefan Gogledd Creadigol.

4.3 **Rhaglen Arloesi Gwynedd Wledig**



**Cyswllt**:
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

4.3.1 **Pwrpas y rhaglen yma yw adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi ei wneud i drawsnewid yr economi wledig trwy gyflwyno arloesedd o fewn sectorau traddodiadol (megis amaeth a thwristiaeth) ynghyd a chefnogi buddsoddiad yr isadeiledd digidol, gan roi sylw arbennig i ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd.**

4.3.2 Mae gwaith yn parhau gyda nifer o ddatblygiadau arloesol cyffrous ar y gweill ar draws y Sir. Gyda'r cynlluniau'n cynnwys cynnal cynllun trafnidiaeth gymunedol i ymwelwyr yn Harlech, lansio cynllun Cysawd Eryri, Ysgol Dronau. Cafodd yr Ysgol Dronau ei redeg ar y cyd rhwng y Cynllun Swyddi Gwerth Uchel ac Arloesi Gwynedd Wledig, lle mynychodd dros 25 o bobl ifanc 6 penwythnos o weithgareddau i ddysgu am hedfan drôn, a chlywed gan ddefnyddwyr dronau megis Heddlu Gogledd Cymru a gwnaethwyr ffilmiau.

4.3.3 Yn dilyn cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i sefydlu darpariaeth WiFi cyhoeddus mewn cymunedau gwledig, mae trefniadau mewn lle ar gyfer gosod yr offer mewn 7 o gymunedau, yn ogystal a cyfrifiaduron cyhoeddus yn cael ei gosod mewn cymunedau gwledig.

4.3.4 Yn ystod y cyfnod mae gwaith pellach wedi wneud i geisio datblygu rhai o'r treialon llwyddiannus. Ond teimlad fod gwaith pellach ei angen ar gyfer mesur effaith y cynlluniau yn y tymor hir.

4.3.5 Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o gynllun Arfor, ac mae gwaith ar hyn o bryd ar droed ar gyfer llunio rhaglen o brosiectau i'w gweithredu yng Ngwynedd dros y 2 flynedd nesaf er mwyn creu swyddi fyddai'n cynnal yr iaith Gymraeg yn ein cymunedau.

## 4.4 Llechi Gwynedd

4.4.1 ***Pwrpas y prosiect yw gwireddu rhaglen o weithgareddau adfywio yn ardaloedd y llechi, a pharau i weithio i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi yng Ngwynedd.***

4.4.2 Erbyn hyn mae Llywodraeth y DU (DCMS) wedi cadarnhau mai enwebiad Llechi Gwynedd fydd y nesaf i gael ei gyflwyno i Bwyllgor Treftadaeth y Byd o Brydain.

## 4.5 Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion

4.5.1 ***Pwrpas y prosiect hwn yw denu digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol i Wynedd er mwyn manteisio ar y budd economaidd a chymdeithasol fydd yn deillio o hyn.***

4.5.2 Mae'r prosiect wedi hyrwyddo pecyn cefnogaeth ar gyfer y tymor 2018/19, gyda 23 o ddigwyddiadau yn derbyn cefnogaeth. Llwyddwyd i uchafu budd economaidd o £5.7 miliwn.



**Cyswllt**:
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

4.6 **Elwa o Dwristiaeth**

4.6.1 ***Pwrpas y prosiect yma yw edrych ar y posibilrwydd o gael ymwelwyr i gyfrannu'n ariannol at gynnal a gwella cyrchfannau Gwynedd a chodi safonau'r sector twristiaeth. Drwy wneud hyn, byddwn yn gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd a chynyddu safon darpariaeth y diwydiant ymwelwyr.***

4.6.2 Mae'r gwaith hwn dal yn y dyddiau cynnar, cynhaliwyd gweithdy gyda'r sector yn ystod mis Hydref er mwyn canfod barn a chynorthwyo'r gwaith o osod cyfeiriad fydd yn gosod sail i gynllun busnes y Cynllun Elwa o Dwristiaeth. Mae Bwrdd Prosiect wedi ei sefydlu, er mwyn gosod arweiniad ac craffu ar y cynlluniau.

4.7 **Mwy o drigolion Gwynedd yn chwarae rhan lawn yn y byd gwaith**

4.7.1 ***Pwrpas y prosiect yma yw canolbwyntio ar gyfres o weithgareddau er mwyn cael mwy o drigolion Gwynedd i waith llawn amser gan leihau segurdod a diweithdra.***

4.7.2 Mae'r prosiect yma yn parhau i weithredu pecyn o weithgareddau fydd lleihau'r rhwystrau mae pobl Gwynedd yn eu hwynebu wrth geisio am waith neu fynediad at wasanaethau. Yn dilyn derbyn grant Cymunedau am Waith a Mwy gan Lywodraeth Cymru, mae gwaith wedi wneud i ddatblygu'r model a'r tîm cyflogaeth yng Ngwynedd. Bellach mae cefnogaeth cyflogaeth y Cyngor yn cael ei gynnig drwy ddau dîm oedran, bydd hyn yn hwyluso taith unigolyn i dderbyn y gefnogaeth gywir. I ddyddiad mae 929 o unigolion wedi derbyn cefnogaeth drwy un o'r 5 prosiect cyflogaeth, gyda nifer o rhain yn symud ymlaen i waith, addysg neu hyfforddiant.

5. **MESUR PERFFORMIAD**

5.1 Mae **Atodiad 1** yn adrodd ar fesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

5.2 **Rwyf yn gyfforddus bod yr adran ar y trywydd cywir o ran mesurau perfformiad.**

5.3 Mae'r adran yn casglu mesurau maes (lle mae mwy nag un gwasanaeth yn bwydo i'r mesurydd) a mesurau fesul gwasanaethau.

5.4 **Mesurau Maes**

5.4.1 Grant / Cydariannu wedi sicrhau i'r Sir - hyd at ddiwedd Hydref 2018, gwelir bod £10.7m wedi ei ddenu i'r Sir hynny drwy gynllun isadeiledd Canolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr, cynllun STEM Gogledd fydd yn annog pobl ifanc i



**Cyswllt**:
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

ddilyn gyrfaoedd yn y maes STEM, ac LleCHI fydd yn cefnogi cymunedau i fanteisio ar yr enwebiad Safle Treftadaeth y Byd.

5.5 **Mesurau Gwasanaeth**

5.5.1 Mae'r **Gwasanaeth Cefnogi Busnes** yn darparu gwybodaeth, Cyngor a chefnogaeth i fusnesau er mwyn iddynt sefydlu, bod yn gystadleuol a datblygu yng Ngwynedd. Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am weithredu, rheoli a hyrwyddo cronfeydd benthyciadau megis Cronfa Benthyciadau Canol Tref Gaernarfon a Chronfa Ardal Bangor.

5.5.2 Enghraifft o gwmni sydd wedi derbyn cymorth gan y Gwasanaeth Cefnogi Busnes ydi Kehoe Countryside Ltd sydd wedi derbyn cymorth ariannol ar gyfer cyflawni achrediadau ISOs. Yn dilyn derbyn y gefnogaeth, mae'r cwmni wedi ennill contractau gyda Horizon Nuclear Power a West & Wales Utilities ac wedi sefydlu fel contractwr fframwaith. Ac yn ychwanegol i hynny mae'r cwmni wedi creu 5 swydd llawn amser newydd.

5.5.3 Mae'r mesurydd '**Ymholiadau busnes a weithredir arnynt'** yn dangos bod nifer yr ymholiadau busnes wedi gostwng (105) wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd diffyg cynlluniau ariannol. Mae'r uned wedi cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth o'r Gronfa Benthyciadau Canol Trefi.

5.5.4 Mae mesurydd 'Gofod diwydiannol/ menter y Cyngor sy'n llawn' yn amlygu fod 96% o'n hunedau diwydiannol yn llawn. Ac fel rwyf eisoes wedi nodi, mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan y rhaglen Swyddi Gwerth Uchel sydd yn gweld diffyg gofod yn rhwystr i nifer o gwmnïau sydd eisiau sefydlu yn y Sir.

5.5.5 Mae'r Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig wedi cwblhau gwaith carthu basn marina Doc Fictoria yn llwyddiannus. Mae'r gwaith gwagio bwnd distyllu Harbwr Pwllheli wedi ar yr 11eg o Ragfyr. Rydw i yn ffyddiog bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn unol ar Strategaeth.

5.5.6 Pwrpas y Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau yw uchafu budd a gwerth i economi Gwynedd o ymwelwyr. Mae'r gwaith o greu gwefan twristiaeth Eryri Mynyddoedd ac Mor yn parhau. Un o'r prif fesurau yw nifer o ymwelwyr i wefan Eryri Mynyddoedd ac Mor. Mae fersiwn Beta o'r wefan ar fin cael ei rhyddhau i'r sector er mwyn derbyn mewnbwn, ac yna bydd yn mynd yn fyw o fewn mis neu ddau, rhagwelir gweld cynnydd yn y defnydd o'r wefan unwaith bydd yn weithredol. Darn arall o waith gan y Gwasanaeth oedd i gynnal adolygiad llety, mae'r ymarferiad desg wedi i'w gwblhau, a bydd gwaith dadansoddi yn cael ei gwblhau erbyn mis Mai.

5.5.7 Mae'r gwaith o weithredu rhaglen prosiectau adfywio Glannau Caernarfon yn symud ymlaen, gyda dau gynllun adfywio strategol yng Nghaernarfon wedi cwblhau. Mae Galeri2 wedi cwblhau ac agoriad swyddogol, a Rheilffordd Eryri wedi cwblhau ac yn cynllunio i fod yn agored yn y Gwanwyn. Bellach mae'r gwaith adeiladu yn Cei Llechi wedi cychwyn. Yn dilyn y buddsoddiad cychwynnol i sefydlu'r Ardal Gwella Busnes (HWB Caernarfon), gwelir



**Cyswllt**:
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

llwyddiant gyda buddsoddiadau i eiddo, rhwydwaith wifi am ddim ar gael yn y dref, cynlluniau celf, trafodaethau i ail agor y Ganolfan Groeso.

5.5.8 Mae'r rhaglen prosiectau adfywio Bangor wedi derbyn cefnogaeth mewn egwyddor gan y Cabinet ar gyfer y pecyn o gynlluniau arfaethedig sydd wedi ei blaenoriaethu gan y Bartneriaeth. Gyda'r grwpiau prosiect yn symud ymlaen gyda chynlluniau.

6. **SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL**

6.1 Mae'r adran wedi gwneud cynnydd derbyniol tuag at wireddu'r holl gynlluniau sydd o dan fy mhortffolio i, felly nid oes unrhyw fater i'w godi yma.

**7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

**7.1** Dim i'w nodi

**8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**8.1 Barn y Swyddogion Statudol**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau ynglyn a phriodoldeb

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb Ariannol.

**8.2 Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

**8.3 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad**

8.3.1 Dim i'w nodi

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1 Mesurau Adran Economi & Chymuned (Datblygu'r Economi)**




**Cyswllt**:
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru


# MESURAU AELOD CABINET DATBLYGU'R ECONOMI

(hyd at ddiwedd Chwarter 2 2018/19)

**<u>Mesurau Maes</u>**




**SYLWADAU: Yn cynnwys cynllun STEM Gogledd (cyfran) i annog pobl ifanc i swyddi gwerth uwch a LleCHI i gefnogi cymunedau i fanteisio ar yr enwebiad Safle Treftadaeth y Byd.**




**SYLWADAU: Ymwybodol fod mwy o swyddi gwerth uchel wedi'u creu yn y cyfnod yn y sector digidol ond tystiolaeth i law eto.**

## Mesurau Gwasanaeth

### Gwasanaeth Cefnogi Busnes

| Mesurydd | Perfformiad 2017/18 | Canlyniad Ch. 2 | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Nifer o ymholiadau busnes a weithredir arnynt gan yr Uned. | 220 | 105 | Nifer ymholiadau busnes wedi gostwng wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd diffyg cynlluniau cymorth ariannol. |
| Gofod diwydiannol / menter y Cyngor sy'n llawn | 94% | 96% | Canran yn eithaf sefydlog gan fod rhan helaeth o unedau wedi gosod yn y Canolfannau Menter a bod yr Unedau Diwydiannol i gyd yn llawn. |

**Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata**

| Mesurydd | Perfformiad 17/18 | Canlyniad CHWARTER 3 | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Cynnydd nifer ymwelwyr i wefan Eryri Mynyddoedd a Mor | 972,831<br>-12% | 720,893 | Y wefan newydd ddim yn fyw eto. Rhagwelir fwy o gynnydd unwaith fydd y platfform digidol hynny yn weithredol. |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 22 Ionawr 2019 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cyllid |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Peredur Jenkins |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Cyllid. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor, lle mae'r mesurau perfformiad arni, a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Mae'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfod o dîm rheoli'r Adran Cyllid, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n ymgymryd â'r swyddogaeth graffu yn y maes hwn.

1.3 Ar y cyfan, rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad y prosiectau a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt neu fod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn gwella perfformiad.



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3. PARHAD O WAITH AR BROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2017/18

3.1 Roedd y ddau brosiect isod yn flaenoriaeth o fewn y Cynllun uchod a ddaeth i ben fis Mawrth 2018. Mae'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn waith parhaus ac felly byddaf yn parhau i adrodd ar y gwaith hwnnw hyd nes y bydd Strategaeth newydd yn cael ei mabwysiadu. Mae amserlen gweithredu'r prosiect System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig (EDRMS) wedi llithro ers cyhoeddi Cynllun Cyngor Gwynedd 2017/18, ac felly rwyf hefyd am barhau i adrodd ar y gwaith hyd nes y bydd wedi ei orffen.

### *Cyngor Effeithiol ac Effeithlon*

**FfG5 - Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG)**

3.2 Gydag oes y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth bresennol yn dod i ben, rydym wedi cychwyn trafodaethau mewnol er mwyn cynllunio Strategaeth newydd. Pan fydd hi'n aeddfed, byddaf yn dod â hi at sylw'r Cabinet am drafodaeth.

3.3 **Sianel Ddigidol a Hwyluso Cysylltu Gyda'r Cyngor:** Rhyddhawyd 'ap Gwynedd' ym Medi, a hyd yma mae wedi ei lawrlwytho 285 gwaith. Mae'r gwaith o wella a chynyddu'r gwasanaethau sydd ar gael trwy'r 'ap' yn parhau yn unol â rhaglen waith y prosiect.

3.4 **Arloesi:** Mae'r Gwasanaeth TG wedi bod yn edrych ar dechnoleg LoRaWAN yn ddiweddar. Mae'r dechnoleg yma'n galluogi rhwydweithiau diwifr dros ardaloedd eang. Mae peilot wedi ei sefydlu ar y cyd gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd er mwyn monitro lefelau dwr y nentydd sy'n bwydo afon Gwyrfai. Bydd y wybodaeth sy'n cael ei fwydo o'r synwyryddion yn galluogi i'r timau llifogydd wneud penderfyniadau ar sail data cadarn pe bai peryg o lifogydd.

3.5 **Strategaeth Technoleg Gwybodaeth Addysg:** Mae swyddogion yr Adran yn cydweithio â swyddogion yr Adran Addysg i ddatblygu Strategaeth newydd fydd yn canolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaeth cefnogol TG orau i ysgolion Gwynedd.

**C7 System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS)**

3.6 Mae'r gwaith o ledaenu defnydd y system i adrannau'r Cyngor yn agosáu at gyrraedd ei derfyn. Rhaglennwyd i'w gwblhau erbyn Mai 2019, ond mae risg y bydd trosiant ac absenoldeb staff yn golygu peth oedi. Er bod adnoddau yn brin, mae gwaith datblygol ar y system yn parhau, gyda golwg ar wneud y mwyaf o'r buddsoddiad yn y system drwy ddefnyddio templedi, llif-gwaith, a gwella'r mewnrwydi adrannol.

**4. PERFFORMIAD**

Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd yn llawn ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

4.1 **Pwrpas y Gwasanaeth Risg ac Yswiriant** yw amddiffyn buddiannau trethdalwyr trwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau. Rwyf wedi herio perfformiad y gwasanaeth ac rwy'n fodlon gyda'r perfformiad gyda 90% o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus yn cael eu hamddiffyn yn llwyddiannus gan yr uned, a 73.3% gan yr yswirwyr, yn y cyfnod ers yr adroddiad perfformiad diwethaf. Hoffwn nodi fod gwaith y gwasanaeth yma yn cyflawni rôl bwysig er mwyn sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn gadarn er mwyn ein galluogi i isafu digwyddiadau niweidiol. Wrth amddiffyn hawliadau mae'r gwasanaeth yn craffu ar y camau a gymerwyd gan y gwasanaeth y gwnaed yr hawliad yn ei erbyn, gan roi adborth er mwyn gwella a gwneud yr hyn sydd ei angen i warchod pobl Gwynedd.

4.2 Mae'r **Gwasanaeth Archwilio Mewnol** y rhoi hyder i'r dinesydd a'r cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor. Allan o 16 adroddiad terfynol a gynhyrchwyd, dim ond un archwiliad a dderbyniodd farn 'Cyfyngedig'. Derbyniodd yr adroddiadau sylw'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 27 Medi a 29 Tachwedd. Fel rhan o ychwanegu gwerth a denu incwm ychwanegol mae'r gwasanaeth wedi bod yn cynnig gwasanaeth archwilio i gynghorau tref a chymuned, gan archwilio 57 o gynghorau Gwynedd a 10 o rai Môn. Cynhyrchiodd y gwaith ychwanegol yma £14,000 o incwm ychwanegol, a nodir fod rhai cynghorau eisoes yn dychwelyd at y Gwasanaeth ar gyfer archwilio 2018/19.

4.3 Pwrpas y **Gwasanaeth Cyflogau** yw talu staff yn gywir ac ar amser, a hefyd cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel CThEM (HMRC). Yn chwarter 2, cyflwynwyd 100% o daliadau'n gywir ac o fewn y gofyniad amser i gyrff allanol. Ni fu digwyddiadau sylweddol yn chwarter 2 i effeithio ar daliadau cyflog, ac er bod nifer yr achosion a arweiniodd at addasiadau pellach yn y cyflog (CD8.07) a nifer y gweithwyr a gysylltodd ynglŷn ag unrhyw ddiffyg yn y broses talu cyflogau (CD8.08) ychydig yn uwch na chyfartaledd y chwarteri ers Ebrill 2018 roeddynt o fewn ffiniau arferol.

4.4 Mae'r **Gwasanaeth Taliadau Credydwyr** yn sicrhau fod credydwyr y Cyngor yn cael eu talu yn gywir ac amserol. Nodir fod cynnydd i'w weld yn y nifer o addasiadau i daliadau blaenorol gan y Cyngor o 4 yng nghyfnod 1 i 8 yng nghyfnod 2. Wedi i mi herio'r cynnydd yma nododd y Gwasanaeth fod y camgymeriadau wedi digwydd mewn cyfnodau o brysurdeb. Nodwyd hefyd na fu unrhyw daliadau dyblyg ac mae'r staff wedi eu hatgoffa i gymryd gofal wrth brosesu taliadau. Mae'r gwasanaeth erbyn hyn yn derbyn mwy o wybodaeth yn electronig sydd yn hwyluso gwaith y gwasanaeth.

4.5 Mae perfformiad y Cyngor ar fesur 'canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod' wedi gostwng yn ddiweddar, o'i gymharu â dechrau 2018/19. Fodd bynnag dylid nodi fod tueddiad y perfformiad yn gwella, yn enwedig perfformiad yr Adran Amgylchedd sydd wedi gwella'n sylweddol o 73% i 84% yn ystod 2018/19.

4.6 Mae'r **Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth** yn cefnogi a rhoi'r gallu i holl wasanaethau'r Cyngor wasanaethu dinasyddion Gwynedd mewn ffordd effeithiol, hyblyg a diogel.

4.7 Ar y cyfan, mae'r mesurau perfformiad yn dangos perfformiad cyson a chanran bodlonrwydd uchel ar draws yr holl unedau.

4.8 Yn dilyn y trafferthion a brofwyd yn gynharach eleni bu gwaith uwchraddio yn cael ei wneud ar yr ystafell weinydd er mwyn gwarchod gwydnwch systemau'r Cyngor i'r dyfodol.

4.9 Mae wedi dod yn gynyddol amlwg mai anniddigrwydd gyda'r amser mae'n ei gymryd i gwblhau prosiectau sydd wrth wraidd y rhan helaeth o adborth negyddol sy'n cael ei dderbyn gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth. Mae'r Gwasanaeth yn gorfod gwneud defnydd effeithiol o adnoddau prin, gan arwain at flaenoriaethu eu gwaith yn llym. Mae hyn wedi cynyddu ar adeg pan mae nifer o unedau'r Cyngor yn adolygu eu trefniadau gwaith yn sgil gwaith herio Ffordd Gwynedd. Sgil effaith hyn yw oedi neu esgor ar ddatblygiadau fyddai'n arwain at wella darpariaeth ac effeithlonrwydd gwasanaethau'r Cyngor. Er mwyn ceisio lliniaru'r sefyllfa 'rydw i wedi gofyn i'r Gwasanaeth lunio achos dros ddarparu mwy o adnodd er ystyriaeth y Cabinet.

4.10 Mae'r **Gwasanaeth Pensiynau** yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 o gyflogwyr er mwyn cyfrifo a thalu pensiynau yn brydlon a chywir. O ran mesur **Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif (CD9.03)** bu twf bychan eto yng nghyfartaledd yr amser ers chwarter cyntaf 2018/19 (4.2 diwrnod gwaith o'i gymharu â 3.5 diwrnod gwaith). Er hyn, mae'n welliant o'r perfformiad o 9.70 diwrnod yn 2016/17.

4.11 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn parhau i weithio i hyrwyddo darpariaeth hunanwasanaeth, ar erbyn hyn mae oddeutu 10,000 o ddefnyddwyr wedi mewngofnodi ar y gwasanaeth Pensiwn Ar-lein.

4.12 Pwrpas y **Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg** yw llunio cyllidebau, cadw cyfrifon trefnus a darparu cyngor ariannol i gynorthwyo gwasanaethau i fod yn effeithiol ac effeithlon. Mesur cyflawni'r gwasanaeth yw llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb a rhagwelir gwneud hynny o -0.11% ar gyfer 2018/19. Mae hyn yn berfformiad is na'r -0.36% yn 2017/18 a -0.28% yn 16/17, ond yn adlewyrchu'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

4.13 Wedi i'r gofynion statudol newid, mae'r Gwasanaeth wrthi'n newid trefniadau er mwyn medru cau cyfrifon yn gynt ac felly eu galluogi i roi mwy o gymorth a chyngor i adrannau a gwasanaethau'r Cyngor.

4.14 Pwrpas y **Gwasanaeth Incwm** yw prosesu incwm a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn uchafu incwm, wrth ystyried anghenion yr adrannau a gweithredu'n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr.

4.15 Nodir fod **Gwerth holl ddyledion amrywiol dros 6 mis oed (ac eithrio taliadau gohiriedig a dyledion a gyfeiriwyd am weithrediad pellach i wasanaethau eraill) CD7.02** wedi parhau i gynyddu, gyda chyfanswm gwerth y dyledion dros 6 mis oed ar 30 Mehefin 2018 yn uwch nag oedd ar 30 Mehefin 2017. Nododd y Gwasanaeth fod dyled o £438,000 i'r Cyngor gan y Bwrdd Iechyd, a bod y Gwasanaeth yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn ceisio darganfod ffordd ymlaen i ddatrys y broblem.

4.16 Pwrpas y **Gwasanaeth Budd-daliadau** yw prosesu ceisiadau Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn brydlon a chywir er mwyn rhoi cymorth i ddinasyddion Gwynedd i dalu eu rhenti a biliau treth Cyngor. Nodir fod y **Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal newydd (CD12.03)** wedi gwaethygu o 18.77 diwrnod yn chwarter 1 i 21.14 diwrnod yn chwarter 2. Mewn

ymateb nododd y Gwasanaeth fod newidiadau yn rheolau a threfniadau grant gwisg ysgol wedi esgor ar lawer o waith ychwanegol annisgwyl. Yn ogystal â hynny, bu i'r Gwasanaeth golli dau aelod o staff yn yr un cyfnod gydag un ar gyfnod salwch a'r llall wedi ymddiswyddo gan gyfrannu at y dirywiad ym mherfformiad y Gwasanaeth. Wrth ddod â'r lefel staffio yn ôl i drefn disgwylir y bydd y perfformiad hefyd yn gwella.

4.17 Yn Rhagfyr 2018, daeth Credyd Cynhwysol llawn yn weithredol ar draws Gwynedd gyfan. 'Rydym wedi bod yn cymryd sylw o'r hyn sydd wedi digwydd mewn awdurdodau eraill pan y'i cyflwynwyd ac 'rydw i'n pryderu beth fydd yr effaith ar bobl Gwynedd. Byddwn yn gwneud ein gorau i gynorthwyo Pobl Gwynedd gydag unrhyw drafferthion y byddant yn eu hwynebu er bod rhaid nodi fod yr adnodd fydd ar gael i helpu yn cael ei gyfeirio at y gwasanaeth cyngor i bawb.

4.18 Rwy'n fodlon gyda pherfformiad y **Gwasanaeth Trethi** ond hoffwn dynnu eich sylw at un mater yr ydym yn cadw golwg arno yn sgil casglu gwybodaeth ar gyfradd casglu trethi annomestig. Rydym yn ymwybodol o'r trosglwyddiadau o'r Dreth Gyngor i'r Dreth ddi annedd. Golyga hyn gryn golled i'r pwrs cyhoeddus yng Nghymru, a hynny ar adeg pan mae cyllid cyhoeddus yn brin. Rydym yn rhagweld colled o dros £1m i'r pwrs cyhoeddus yn 2018/19 yng Ngwynedd yn unig yn sgil newid tai i'r gyfundrefn annomestig.

4.19 Mae yna waith yn mynd ymlaen gyda Fforwm Wledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i geisio sicrhau cefnogaeth awdurdodau eraill gwledig i newid polisi cenedlaethol yn y maes yma.

## 5. SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION

5.1 Mae'r adran wedi llwyddo i wireddu eu holl arbedion.

## 6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

6.1 Dim i'w nodi.

## 7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

7.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn cadarnhau cywirdeb cynnwys yr adroddiad, a byddaf yn cefnogi'r Aelod Cabinet i gyflawni'r amcanion perthnasol

7.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

Ddim yn fater lleol.

7.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**


**<u>Gwasanaeth Risg ac Yswiriant - Mesurau Cyflawni (Chwarterol)</u>**


Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Gwyn Varney

<u>Pwrpas y Gwasanaeth:</u>
Cefnogi adrannau’r Cyngor wrth iddynt asesu’r bygythiadau a chyfleon all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau

**Cyfarch Risg**
Yn ystod chwarter 2, rydym wedi trefnu yswiriant arbennigol, yn bennaf ar gyfer creiriau sydd ar fenthyg i'r Cyngor, ac sy'n cael eu cadw ac arddangos yn Storiel. Mae'r warchodaeth yma yn cwrdd â'r gofynion disgwyliedig wrth ymgymryd â'r dasg o symud y creiriau hefyd, sydd yn cyfarch y risg yn fwy cyflawn. Mae'r polisi hefyd yn ymestyn i eitemau eraill sydd wedi eu hyswirio, ac yn cynnwys lefel o warchodaeth uwch na'r hyn sydd wedi bod mewn grym.

Rydym wedi cylchredeg penderfyniadau diweddar yn y Llys Apêl i'r gwasanaethau perthnasol er mwyn galluogi gwell gwerthfawrogiad o'r disgwyliadau sydd gan y Llys ohonom petai hawliad tebyg yn cael ei wneud yn erbyn y Cyngor:
i) Trefniadau arolygu/archwilio coed
ii) Graeanu meysydd parcio


Canran o Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a Wadwyd Gan yr Uned
100
90
80
70
60
50
40
30
20
10
0
73.1
100
100
77.8
90.9
82.4
81.8
66.6
85.7
90.9
42.9
85
90
Ch 2 15/16
Ch 3 15/16
Ch 4 15/16
Ch 1 16/17
Ch 2 16/17
Ch 3 16/17
Ch 4 16/17
Ch 1 17/18
Ch 2 17/18
Ch 3 17/18
Ch 4 17/18
Ch 1 18/19
Ch 2 18/19
9 hawliad allan o 10 wedi ei amddiffyn yn llwyddianus.


Canran o Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a Wadwyd Gan yr Yswirwyr
100
90
80
70
60
50
40
30
20
10
0
80.8
58.3
70
63.6
92.3
83.3
76.2
76.9
81.8
50
71.4
50
73.3
Ch 2 15/16
Ch 3 15/16
Ch 4 15/16
Ch 1 16/17
Ch 2 16/17
Ch 3 16/17
Ch 4 16/17
Ch 1 17/18
Ch 2 17/18
Ch 3 17/18
Ch 4 17/18
Ch 1 18/19
Ch 2 18/19
11 hawliad allan o 15 wedi ei amddiffyn yn llwyddianus. O'r 4 sydd wedi eu setlo nid oes unrhyw agweddau cyffredin.

# GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL

## TREFNIADAU SGORIO RISGIAU A LEFEL SICRWYDD ARCHWILIADAU

**Pwrpas y Gwasanaeth**

Pwrpas Archwilio Mewnol yw rhoi hyder i’r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i’r Pennaeth Cyllid a’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

**Cwblhau’r Cynllun Archwilio (CD2.03)**

Erbyn 30 Medi, roedd 29.09% o’r cynllun archwilio wedi cael ei gwblhau. Roedd hyn yn cymharu’r ffafriol â’r proffil mewnol o 20%.

**Cyfundrefn newydd o asesu gwaith archwilio**

Yn ei gyfarfod ar 19 Gorffennaf, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu drefn newydd ar gyfer mynegi barn archwiliad.


O archwiliadau 2018/19 ymlaen, caiff adroddiadau Archwilio Mewnol eu rhoi i un o bedwar categori o sicrwydd cyffredinol, sef:

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru’r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â’r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau’r risgiau mae’r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

(Mae’r lefelau sicrwydd hyn wedi disodli y drefn hanesyddol, ble rhoddwyd categori barn ar archwiliadau yn amrywio o gategori barn “A” i “Ch”).

Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 30 Medi 2018, mae 16 o adroddiadau terfynol o’r cynllun blynyddol wedi cael eu rhyddhau. Un archwiliad yn unig allan o 16 a dderbyniodd lefel sicrwydd "Cyfyngedig"

Mae’r adroddiadau a ryddhawyd yn derfynol rhwng 1 Ebrill 2018 a 30 Medi 2018, wedi eu dyfarnu â’r lefelau sicrwydd canlynol:




Mae’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi rhoi sylw i’r adroddiadau hyn yn ei gyfarfodydd ar 27 Medi a 29 Tachwedd.

**CYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi ei ddarparu i gynghorau tref a chymuned – cyfanswm o 67 - gyda 57 yng Ngwynedd a 10 yn Ynys Môn sydd wedi cynhyrchu ychydig dros £14,000 o incwm ychwanegol.

Dyma rai sylwadau sydd wedi eu derbyn gan y cynghorau:

*“Diolch yn fawr i chwi am eich arweiniad a’ch cydweithrediad ynglyn â’r Awdit ac am yr adroddiad manwl sydd yn gymorth mawr ini fel Cyngor”.*

*“Roedd y Cyngor Tref yn fodlon iawn ar y gwaith trylwyr wnaethpwyd gennych a’r adborth gennyf fy mod wedi gweld y drefn yn hwylus”.*

*“Mae’r Cyngor wedi cofnodi eu diolch am eich trylwyredd yn edrych ar ein llyfrau”.*

*“Nodyn i ddiolch yn fawr iawn i chi am y trefniadau ar gyfer yr archwiliad mewnol a’r adroddiad”.*

*“Diolch yn fawr Luned. Fe fu’n bleser cydweithio gyda chi eich dwy. Mae’r Cynghorau yn debygol iawn o anfon atoch ar gyfer y flwyddyn nesaf hefyd”.*

*“Diolch yn fawr iawn i chi am eich adroddiad – rhaid eich bod wedi gweithio’n anhygoel o galed i wneud archwiliad mor fanwl ar y 5 Cyngor”.*

*“Roedd pob un Cyngor yn ddiolchgar iawn i chi am eich gwaith ac yn dotio at fanylder yr Adroddiad. Hoffwn fynegi fy niolch personol am eich Cyngor a’r caredigrwydd”.*

*“Many thanks for carrying out our Internal Audit 17/18”*

*“Diolch am eich cydweithrediad yn ystod archwiliad y flwyddyn ariannol ddiwethaf ‘ma”.*

*“Dymuniad y Cyngor ydy gofyn yn ffurfiol am gael gwasanaeth y tîm y flwyddyn nesaf ar gyfer Ffurflen Flynyddol 2018/19”.*


**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**


**Gwasanaeth Cyflogau - Mesurau Cyflawni**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Martin Morris

Pwrpas y Gwasanaeth:
I dalu staff yn gywir ac ar amser, ac hefyd cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel CThEM (HMRC)

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch 2 18/19 | Ch 1 18/19 | Ch 4 17/18 | Ch 3 17/18 | Ch 2 17/18 | Ch 2 16/17 | Ch2 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD8.09 | Sicrhau taliadau cywir o fewn y gofyniad amser i cyrff allanol (fel CTheM). | Holl taliadau ac adroddiadau allanol wedi eu yrru yn amserol. | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |


CD8.07 - Nifer achosion sydd yn arwain at addasiadau pellach yn y cyflog.
Nifer
Cyfartaledd
Dim digwyddiadau sylweddol wedi codi o fewn chwarter 2.
Nifer Addasiadau
250
200
150
100
50
0
65
32
28
40
22
38
77
47
44
37
32
30
54
41
63
56
38
53
40
54
49
62
42
29
45
35
52
49
33
55
40
57
42
58
74
70
227
45
32
46
32
54
Ebrill 2015
Mai 2015
Mehefin 2015
Gorffennaf 2015
Awst 2015
Medi 2015
Hydref 2015
Tachwedd 2015
Rhagfyr 2015
Ionawr 2016
Chwefror 2016
Mawrth 2016
Ebrill 2016
Mai 2016
Mehefin 2016
Gorffennaf 2016
Awst 2016
Medi 2016
Hydref 2016
Tachwedd 2016
Rhagfyr 2016
Ionawr 2017
Chwefror 2017
Mawrth 2017
Ebrill 2017
Mai 2017
Mehefin 2017
Gorffennaf 2017
Awst 2017
Medi 2017
Hydref 2017
Tachwedd 2017
Rhagfyr 2017
Ionawr 2018
Chwefror 2018
Mawrth 2018
Ebrill 2018
Mai 2018
Mehefin 2018
Gorffennaf 2018
Awst 2018
Medi 2018
Mis



CD8.08 - Nifer gweithwyr sydd yn cysylltu ynglyn ag unrhyw diffyg yn y broses talu cyflogau.
Galwadau
Cyfartaledd (CL)
Dim digwyddiadau sylweddol wedi codi o fewn chwarter 2.
Nifer Galwadau
Mis
0
20
40
60
80
100
120
140
160
180
Ebrill 2015
Mai 2015
Mehefin 2015
Gorffennaf 2015
Awst 2015
Medi 2015
Hydref 2015
Tachwedd 2015
Rhagfyr 2015
Ionawr 2016
Chwefror 2016
Mawrth 2016
Ebrill 2016
Mai 2016
Mehefin 2016
Gorffennaf 2016
Awst 2016
Medi 2016
Hydref 2016
Tachwedd 2016
Rhagfyr 2016
Ionawr 2017
Chwefror 2017
Mawrth 2017
Ebrill 2017
Mai 2017
Mehefin 2017
Gorffennaf 2017
Awst 2017
Medi 2017
Hydref 2017
Tachwedd 2017
Rhagfyr 2017
Ionawr 2018
Chwefror 2018
Mawrth 2018
Ebrill 2018
Mai 2018
Mehefin 2018
Gorffennaf 2018
Awst 2018
Medi 2018
38
18
24
21
17
40
14
20
31
38
19
41
28
17
30
22
20
18
30
26
13
29
13
21
11
28
26
55
22
44
50
48
23
39
36
39
159
62
32
42
24
38

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**


**<u>Gwasanaeth Taliadau Credydwyr - Mesurau Cyflawni</u>**


Uwch Reolwr Cyfrifol : Ffion Madog Evans
Rheolwr Cyfrifol: Christopher Parry

Pwrpas y Gwasanaeth:
Talu credydwyr y Cyngor yn gywir ac yn amserol

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Cyfnod 2 | Cyf 2 18/19 | Cyf 1 18/19 | Ch4 17/18 | Ch3 17/18 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch2 16/17 | Ch1 15/16 | Ch1 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD6.03 | Addasiad i daliadau blaenorol gan y Cyngor | Rhesymau gwahanol am yr addasiadau, gan gynnwys cyfarwyddyd talu camarweinol, talu cwmni efo'r un manylion TAW a banc a chwmni arall, talu rhif cyflenwr tebyg a thalu cyflenwr anghywir. Ad-daliad wedi ei dderbyn nôl yn syth.<br><br>Cynnydd yn y tueddiad o daliadau dyblyg wrth symud i drefn mwy electroneg a derbyn anfonebau gan gwmniau drwy E-byst. Trefn mewn lle i adnabod unrhyw ddyblygiad cyn talu cyflenwyr, felly nid yw wedi arwain at dalu ddwy waith. | 8 | 4 | 7 | 2 | 2 | 1 | 0 | | |
| | Adolygu Systemau Mewnol | - Yr Uned Taliadau yn derbyn mwy o wybodaeth gan wasanaethau yn electroneg bellach, gan ei lwytho i mewn i'r system daliadau, gan gynnwys anfonebau ysgolion uwchradd, bwydydd ysgolion, praeseptau, grant gofal plant 30 awr, taliadau grant ysgolion meithrin, a Thelnet Llyfrgelloedd ayyb.<br>- Datblygiad diweddar mewn meddalwedd yn golygu fod modd uwchlwytho delwedd electroneg anfoneb i mewn i'r system daliadau, sydd yn cyflymu'r broses.<br>- Yn cyd-weithio efo Eiddo i geisio symud biliau Dwr i un bil ar gyfer y Cyngor i gyd. | | | | | | | | | |

*Cyfnod 1: Ebrill, Mai, Mehefin*
*Cyfnod 2: Gorffennaf, Awst, Medi, Hydref, Tachwedd*


CD6.01 Canran anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor)
Gostyngiad yn y perfformiad erbyn diwedd yr ail gyfnod (Tachwedd) o'i gymharu â diwedd y cyfnod cyntaf (Mehefin). Yn gyffredinol, perfformiad Amgylchedd ac Addysg wedi gwella yn 18/19 er y gostyngiad yn yr ail gyfnod.
0/0
96
95
94
93
92
91
90
89
88
87
86
85
84
83
82
81
80
79
78
77
76
75
74
73
72
71
70
Cyfnod 1 14-15
Cyfnod 2 14-15
Cyfnod 3 14-15
Cyfnod 1 15-16
Cyfnod 2 15-16
Cyfnod 3 15-16
Cyfnod 1 16-17
Cyfnod 2 16-17
Cyfnod 3 16-17
Cyfnod 1 17-18
Cyfnod 2 17-17
Cyfnod 3 17-18
Cyfnod 1 18-19
Cyfnod 2 18-19
CYFANSWM CYNGOR GWYNEDD
ADDYSG
AMGYLCHEDD
PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL


CD6.02 Canran yr anfonebau a dalwyd yn lleol o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor )
%
94
93
92
91
90
89
88
87
86
85
84
Cyf 1 20114-15
Cyf 2 20114-15
Cyf 3 20114-15
Cyf 1 2015-16
Cyf 2 2015-16
Cyf 3 2015-16
Cyf 1 2016-17
Cyf 2 2016-17
Cyf 3 2016-17
Cyf 1 2017-18
Cyf 2 2017-18
Cyf 3 2017-18
Cyf 1 2018-19
Cyf 2 2018-19
Canran o Anfonebau lleol a Dalwyd o fewn 30 Diwrnod
Canran o Anfonebau gweddill y Cyngor a dalwyd o fewn 30 Diwrnod
Cyflenwyr lleol wedi eu talu yng nghynt na chyflenwyr eraill y Cyngor, ond fod gostyngiad erbyn diwedd yr ail gyfnod (diwedd Tachwedd) o'i gymharu â diwedd cyfnod un sef diwedd Mehefin, gan ddilyn yr un tueddiad â phatrwm holl gyflewnwyr y Cyngor.

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**

**<u>Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (Gwasanaethau Cefnogol & Isadeiledd) - Mesurau Cyflawni</u>**

Rheolwyr Cyfrifol: Bryn Goodman Jones (Gwasanaethau Cefnogol), Gwyn Jones (Isadeiledd)

Uwch Reolwr: Huw Ynyr

<u>Pwrpasau'r Gwasanaeth:</u>
(Desg Gymorth) I gefnogi a rhoi’r gallu i holl wasanaethau’r Cyngor wasanaethu dinasyddion Gwynedd mewn ffordd effeithiol, hyblyg a diogel.
(Isadeiledd) Datblygu a chefnogi isadeiledd y Cyngor i ddarparu llwyfan gwydn a diogel i gynnal gwasanaethau technoleg gwybodaeth y Cyngor.

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch2 18/19 | Ch1 18/19 | Ch4 17/18 | Ch3 17/18 | Ch2 17/18 | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TG01 | Canran yr argaeledd rhwydwaith | Cafwyd broblem gyda'r wal dân am ychydig funudau ar 3ydd Ebrill, ond mae'r meddlawedd wedi ei ddiweddaru erbyn hyn fel na all ddigwydd eto. Hyn yw adlewyrchiad colli'r rhwydwaith am 0.03% yn y chwarter. | 99.99% | 99.97% | 99.98% | 99.20% | 99.96% | 99.93% | 100% | 99.87% |
| TG02 | Canran yr argaeledd Safle We Cyhoeddus | Y ffigwr yn adlewyrchu 2.15% o'r chwarter (47 awr) ble nad oedd modd cael mynediad at y wefan. Mae'r ffigwr yma'n cyd-fynd gyda dau ddigwyddiad penodol a amharodd ar ein gwasanaethau. | | 97.85% | 99.41% | 100.00% | 99.74% | 99.64% | 99.98% | 99.94% |
| TG05 | Cyfartaledd sgor bodlonrwydd defnyddwyr gyda’r Ddesg Gymorth | ond 3.8% wedi dewis ymateb, y nifer wedi gostwng ers 1/4 diwethaf ond hyn yn wir am adborth gwael hefyd. Bydd trefn newydd yn cael ei roi mewn lle yn y mis, ddau neasf i geisio cael gweledigaeth a mesur gwell. | 1. Anhapus 10 (0.2%)<br>2. Hapus 237 (3.8%)<br>3. Dim ymateb 6288 (96%) | 1. Anhapus 13 (0.2%)<br>2. Hapus 277 (4.3%)<br>3. Dim ymateb 6,196 (95.5%) | 1. Anhapus 12 (0.18%)<br>2. Hapus 259 (3.86%)<br>3. Dim ymateb 6,431 (95.96%) | 1. Anhapus 7 (0.09%)<br>2. Hapus 192 (2.36%)<br>3. Dim ymateb 7,915 (97.55%) | 1. Anhapus 33 (0.46%)<br>2. Hapus 222 (3.14%)<br>3. Dim ymateb 6,822 (96.4%) | Heb ei gyfrifo | 4.80 | 4.80 |

| | |
|---|---|
| **Gwasanaeth :** | **Technoleg Gwybodaeth** |
| **Uned :** | **Isadeiledd** |
| **Dyddiad adrodd :** | **13eg Rhagfyr, 2018** |

| | |
|---|---|
| **Datblygiadau Newydd** | **Mae dangosyddion rhwydwaith yn dangos perfformiad argaeledd y linciau craidd.** |

| | Gorff 2018 | Awst 2018 | Medi 2018 | Q2 |
|---|---|---|---|---|
| Rhwydwaith Craidd | 100.00% | 100.00% | 99.97% | 99.99% |



Yn anffodus, nid dyma'r darlun cyfan ar gyfer argaeledd systemau. Yn ystod Dydd Sul Gorffennaf 22, 2018, collwyd holl systemau'r Cyngor. Problem wedi ei amlygu oherwydd diffyg yn system aer-dymheru'r canolfan ddata i reoli lleithder, a gwendid yn y SAN (storfa) i ymdopi gyda'r lleithder yma yn achosi'r methiant. Trwy gydol yr wythnos adferwyd systemau craidd y Cyngor ac yn yr wythnosau olynol adferwyd holl systemau'r Cyngor, gan gwblhau'r dasg olaf o symud gweinyddwyr yn ôl i Penrhyndeudraeth ar 3/10/18.
Ers hyn, mae Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi mewn system aer-dymheru newydd yn y canolfan ddata, ac y tîm isadeiledd wedi cyflymu eu hamserlen adnewyddu i archebu'r storfa/gweinyddwyr yn fuan, gyda cynllun tymor byr/canolig i wella'r parhad gwasanaeth. Mae'r gwaith aer-dymheru i'w gwblhau 07/12/18, gyda cam cyntaf o'r newid gweinyddwyr i'w gwblhau erbyn 1/2/19.
Yn ystod y chwarter mae'r timau isadeiledd wedi dechrau darparu technoleg VPN i staff allu gweithio o bell, ac yn dilyn y gwaith arloesi ar "Crwydro" (PSBA Secure Roaming) drwy Gymru, rydym yn gweld dros 50 o'n defnyddwyr yn gallu gweithio yn hyblyg a chyd-weithio o fewn adeiladau sefydliadau eraill. Dylid y nifer yma gynyddu yn y misoedd nesaf wrth i'r ddarpariaeth ymestyn.

***Gwasanaethau cefnogol***

Nifer o alwadau ffôn wedi cynyddu yn yr wythnosau wedi'r digwyddiad a'r wythnosau wedi hyn gyda mân drafferthion roedd yn codi gan y defnyddwyr. Mae hyn yn ddisgwyliedig gan fod y timau Cwmwl wedi mudo'r Canolfan ddata o Benrhyn i Gaernarfon i alluogi systemau fod ar gael. Roedd cynnydd o dros 2000 yn y galwadau ac er hyn roedd perfformiad y ddesg Gymorth o ateb y ffon yn dda. Wedi llwyddo ateb pob galwad a dderbyniwyd oddi fewn 40 eiliad ar gyfartaledd, dros 90% o alwadau wedi ateb yn yr wythnos lle derbyniwyd dros 1000.

Er bod yr wythnos pan ddaru'r systemau fynd i lawr yn weddol ddistaw i dimau Desg Gymorth (dim allwn wir wneud heb systemau) roeddem yn ymwybodol fod risg ni fysa'r amgylchedd 'thin client' yn cael ei adfer mor sydyn â rhai systemau craidd eraill. Achos o hyn, ddaru ni gysylltu ag adrannau i weld os oedd risg iddynt pe bai hyn yn digwydd. Nodwyd staff 'critical' a dechreuwyd gwaith o adnewyddu thin clients am gyfrifiaduron fel bod dim oedi iddynt unwaith buasai'r system wedi ei adfer (refeniw a budd-daliadau a.y.b.). Newidiwyd dros 150 o rain mewn wythnos ac felly lleihau effaith ar bobl Gwynedd.

Llawer o waith i wella'r system rheoli galwadau/gwaith yr adran TG (Topdesk), gan obeithio bydd adroddiadau yn fwy defnyddiol ac efallai yn cynnig gwell mesurau yn erbyn y gwasanaeth. Hefyd yn gwella'n gallu i ni rhagweld trafferthion cyn iddynt effeithio nifer fawr ac felly lleihau'r galwadau (blaenweithgar). Hyd alwad ar agor, faint sy'n cael eu hesgoli o'r rheng flaen am wasanaeth arbenigol a oes wir angen ei esgoli. Nodi holl waith C.a.Ch a newidiol ein systemau TG. Cynnig llawer o bethau mewn trefn Hunanwasanaeth e.e. monitor a diweddaru/cau galwadau, rhestr adnoddau pob unigolyn a rheolwr gyda gweledigaeth o hyn. Gweld a nodi fod problemau yn bodoli a bod nhw hefyd yn cael eu heffeithio heb orfod cysylltu â'r ddesg pob tro. Gwell proses i adael adborth. Y gobaith ydi ni fyddwn yn archebu trwyddedau/cyfrifiaduron di angen a gwneud y gorau o'r hyn sydd gennym ac i arbed arian yn y pen draw.

Hefyd, mae 4 gwasanaeth ychwanegol yn defnyddio'r system erbyn hyn. Bydd hyn yn gwella'r weledigaeth o bob cais sydd wedi nodi ar y system, ac ar gael o un sgrin (cefnogol x2, I&D, eGaffael). Yn amlwg bydd hyn yn rhoi'r gallu iddynt hwy gynnig mesurau gwell am berfformiad eu gwasanaeth nhw hefyd.

***Llawer o waith hefyd wedi cychwyn neu ei gynnal yn ystod y chwarter –***

Gwaith diweddaru gwrth firws, wedi cychwyn a gorffen erbyn hyn. Bron i 2000 o system wedi ei diweddaru yn ddistaw. Ein cynnyrch newydd ydi BitDefender sy'n cymryd lle Kaspersky. Hyn yn ymarferiad da i newid a hefyd nifer o straeon am KAV a'r wladwriaeth Rwsia.

Sicrhau Diogelwch ei amgylchedd cyfrifiadurol cyn ein prawf 'penetration'.

Darparu am ein newid i drwyddedau 365 Microsoft, popeth yn newid o fod yn drwydded i'r ddyfais, i drwydded i'r Defnyddiwr.

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**

**Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (Datblygu a Chynnal a Chadw) - Mesurau Cyflawni**

Rheolwyr Cyfrifol: Rhodri Fretwell ac Elfyn Evans

Uwch Reolwr: Huw Ynyr

Pwrpasau'r Gwasanaeth:
(Datblygu) Cydweithio a'n cwsmeriaid i ddatblygu ac esblygu datrysiadau arloesol mewn ymateb i anghenion busnes
(Cynnal a Chadw) Cynnal a chadw amrediad o systemau a datrysiadau technegol i'w cadw'n weithredol, effeithlon a chyfredol

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch2 18/19 | Ch1 18/19 | Ch4 17/18 | Ch3 17/18 | Ch2 17/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TG15 | Arolwg barn datblygu: "**A oeddech yn hapus gyda'r cynigion, datrysiad ar gwasanaeth yn gyffredinol a dderbyniwyd gan yr uned datblygu?**".<br><br>1 – Oeddwn, nid oes gennyf welliant i'w gynnig<br>2 – Oeddwn, ond credaf bod lle i wella<br>3 - Nac oeddwn | 19 prosiect wedi derbyn adborth. Mae un prosiect tymor hir wedi nodi (2) oherwydd diffyg adnodd datblygu yn sgil newid blaenoriaeth rhaglen datblygu.<br><br>Gwaith y wefan a system Ffos wedi derbyn adborth o 2 oherwydd fod y flaenoriaeth ar hunanwasanaeth yn golygu llai o amser ac adnodd i brosiectau eraill. | 1. Hapus, dim gwelliant 74%<br>2. Hapus, lle i wella 26%<br>3. Dim yn hapus 0% | 1. Hapus, dim gwelliant 84%<br>2. Hapus, lle i wella 16%<br>3. Dim yn hapus 0% | 1. Hapus, dim gwelliant 85%<br>2. Hapus, lle i wella - 15%<br>3. Dim yn hapus 0% | Ar y cyd gyda chwarter 4 | 1. Hapus, dim gwelliant 86%<br>2. Hapus, lle i wella - 14%<br>3. Dim yn hapus 0% |

| | |
|---|---|
| **Gwasanaeth :** | **Technoleg Gwybodaeth** |
| **Uned :** | **Datblygu** |
| **Dyddiad adrodd :** | **13eg Rhagfyr, 2018** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **PWRPAS :** | **Datblygu**<br>Cydweithio a'n cwsmeriaid i gynnig, datblygu ac esblygu datrysiadau mewn ymateb anghenion busnes | | **Cynnal a Chadw**<br>Cynnal a chadw amrediad o systemau a datrysiadau technegol i'w cadw'n weithredol, effeithlon a chyfredol |

| Dyddiad Cyflwyno Cais Adborth | Prosiect | | Sgôr | Adborth | Cyswllt |
|---|---|---|---|---|---|
| 29/11/18 | **System Rheoli Cofnodion**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | System ar gyfer rheoli gwaith yn y ganolfan gofnodion gyda elfen hunanwasanaeth ar gyfer cyflwyno ceisiadau i'r uned. Mae cyflawni anghenion y prosiect yma yn golygu arbedion ariannol i'r gwasanaeth.<br><br>System bellach yn weithredol gan swyddogion y gwasanaeth, gyda'r elfen hunanwasanaethu ar fin mynd yn fyw. | 1 | 1 - Oeddwn, nid oes gennyf welliant i'w gynnig | Sharon Penny Fielding |
| 30/11/18 | **Hunanwasanaeth**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | Trosglwyddo 27 math ymholiad o Siebel i Ffos, a'u cyflwyno fel 15 ymholiad newydd i'r sianel ddigidol, gyda'r datrysiad bellach yn fyw. Mae cyflawni anghenion y prosiect yma yn cyfrannu tuag at yr arbedion effeithlonrwydd sydd wedi ei amlygu yn y prosiect newid sianel, yn ogystal â gwella profiad y cyhoedd wrth ddelio gyda'r Cyngor.<br><br>Gwaith wedi cychwyn ar gyfer datblygu cyfrifon ar gyfer sefydliadau. Bydd hyn yn cynnig modd llawer mwy cyfleus a diogel i sefydliadau reoli eu trafodion ar-lein gyda'r Cyngor. | 2 | 2 - Oeddwn, ond credaf bod lle i wella<br><br>Diolch yn fawr am y gwaith a gwblhawyd.<br>Roedd y cynnwyrch a gafwyd ar ddiwedd y prosiect yn cyd-fynd â'r hyn a nodwyd yn y fanyleb, ond roedd dipyn o gamddealltwriaeth wedi bod yn ystod y broses o ddatblygu'r cynnyrch terfynol. Er mwyn ceisio osgoi sefyllfa debyg yn y dyfodol rydym wedi cyfarfod er mwyn adnabod beth y gellir ei wneud yn well gan bawb oedd ynghlwm â'r prosiect ac wedi dechrau gweithredu mewn ffordd ychydig yn wahanol ar y prosiect nesaf. | Eleri Williams |
| | **Gweithio yn y maes**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | Yn sgil datblygu ymholiadau priffyrdd fel rhan o hunanwasanaeth, adnabuwyd gyfleoedd i wella swyddogaethau yn y swyddfa gefn. Drwy ddefnyddio technoleg arloesol rydym wedi datblygu datrysiad symudol sydd yn galluogi archwilwyr priffyrdd i dderbyn ac ymateb i'w ceisiadau allan yn y maes.<br><br>Mae'r datrysiad yma wedi derbyn adborth hynod bositif gan y defnyddwyr (maent yn derbyn eu ymholiadau yn llawer cynt, ac mae'r wybodaeth y maent angen i weithredu i gyd ganddynt ble bynnag y maent) ac rydym eisoes wedi adnabod nifer o gyfleoedd pellach i ddefnyddio'r dechnoleg yma. | | | Steffan Jones |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 30/11/18 | **Iechyd a Diogelwch - HS11**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | Datrysiad ar gyfer galluogi swyddogion y Cyngor i gyflwyno ffurflenni damweiniau HS11 ar ffurf electronig, a galluogi'r uned Iechyd a Diogelwch i weinyddu ffurflenni. Mae cyflawni anghenion y prosiect yma yn golygu arbedion effeithlonrwydd i'r Cyngor.<br><br>Ffurflen electronig hs11 wedi ei chwblhau ac yn weithredol. Gwaith yn mynd ymlaen i ymgorffori'r ffurflen HS11 fel rhan o hunanwasanaeth staff. | 1 | 1 – Oeddwn, nid oes gennyf welliant i'w gynnig<br><br>Y prosiect yn cymryd hir i'w gwblhau ond mae bai arna fi efallai hefyd yn methu a pwsio gwasanaethau i roi adborth! Mae Ffion bob amser yn ymateb i unrhyw gais am gymorth/datblygu. | Gwennan Roberts |
| 30/11/18 | **Iechyd a Diogelwch - Cofrestr Diogelwch Staff**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | System ar gyfer diogelu staff rheng flaen y Cyngor sydd yn delio â'r cyhoedd wyneb yn wyneb, boed yn y swyddfeydd neu yn eu cartrefi, drwy gadw cofrestr o unigolion a all fod yn fygythiol neu dreisgar, ynghŷd â chanllawiau i'w dilyn pan yn ymweld â'r unigolion yma i leihau unrhyw risg. | 1 | 1 – Oeddwn, nid oes gennyf welliant i'w gynnig<br><br>Gwaith yn datblygu'n sydyn swni'n ddweud | Gwennan Roberts |
| 30/11/18 | **Siarter Iaith**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | Mae'r siarter iaith wedi mynd o nerth i nerth, ac mae bellach yn ddatrysiad sydd yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Rydym yn parhau i ehangu swyddogaethau'r system i gyfarch gofynion cydlynwyr y siarter iaith yn ogystal â Llywodraeth Cymru. | 1 | 1 – Oeddwn, nid oes gennyf welliant i'w gynnig<br><br>Gwasanaeth hynod gefnogol a gwerthfawr i ni gyda'r prosiect Siarter Iaith. Diolch am bob cymorth. | Sian Vaughan |
| 03/12/18 | **Gwefan Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | Datblygu gwefan i'r gwasanaeth ADYaCh er mwyn cynyddu dealltwriaeth a rhannu gwybodaeth ynglŷn a'r gwasanaeth newydd yma ynghyd a chodi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.<br><br>Datrysiad arloesol sydd yn galluogi integreiddio rhwng gwefannau'r Cyngor â phorth allannol Sharepoint. | 1 | 1 – Oeddwn, nid oes gennyf welliant i'w gynnig<br><br>Roeddwn yn hapus iawn efo'r gwasanaeth yn gyffredinol a dderbyniwyd gennych fel uned ddatblygu. Dim gwelliant i'w gynnig.<br><br>Roedd yr uned ddatblygu yn deall y gofynion o'r cychwyn ac yn ateb yn amserol i ymholiadau a ddaeth yn ystod y gwaith | Eleri Llewelyn Owen / Cerys Hudson |
| 04/12/18 | **Ffos (Galw Gwynedd)**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | System ar gyfer Galw Gwynedd/gwasanaethau swyddfa gefn ar gyfer derbyn, prosesu ac ymateb i ymholiadau sydd yn cael eu derbyn drwy'r sianel ddigidol, ffôn neu unrhyw ffynhonnell arall. | 2 | 2 – Oeddwn, ond credaf bod lle i wella<br><br>Pwysau i gyflawni ar y prosiect Hunanwasanaeth yn golygu nad oes amser teg ar gyfer cyfarch anghenion Galw Gwynedd a'r gwasanaethau swyddfa gefn yn Ffos. | Alison Owen |
| | **Ffos (Bwrdeistrefol)**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | System ar gyfer Galw Gwynedd/gwasanaethau swyddfa gefn ar gyfer derbyn, prosesu ac ymateb i ymholiadau sydd yn cael eu derbyn drwy'r sianel ddigidol, ffôn neu unrhyw ffynhonnell arall. | | | Steffan Jones |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 04/12/18 | **Gwefan y Cyngor**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Rhodri* | Gwaith datblygu a chynnal a chadw gwefan gorfforaethol y Cyngor. | 2 | 2 – Oeddwn, ond credaf bod lle i wella<br><br>Cyfarfodydd misol yn parhau. Rydym yn hapus efo'r cynlluniau gwaith sydd wedi eu cwblhau yn ddiweddar (e.e creu templedi ar gyfer gosod baneri ar y wefan / addasu troedyn y wefan er mwyn hyrwyddo apGwynedd, creu icons newydd, gwaith ar y mapiau ar-lein). Llithriad yn parhau gydag rhai cynlluniau eraill, ond derbyn bod hyn yn rhannol oherwydd diffyg ymateb gan wasanaethau eraill, ac oherwydd y flaenoriaeth i gefnogi'r Cynllun Hunanwasanaeth. | Sioned Vaughan-Jones |
| 29/11/18 | **HW1512 - Amserlenni (Preswyl)**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn* | Rheolwyr cartrefi preswyl i greu rota waith yn Hunan Wasanaeth Staff, gyda mynediad i staff i'w amserlen waith. Staff i osgoi cyflwyno amserlenni. System i weinyddu gwyliau a salwch. Rhyngwyneb i fwydo'r manylion i system gyflogau. | 2 | hollol fodlon gyda'r cynigion a'r datrysiad ond mae'n cymryd gormod o amser i ddatblygu oherwydd eich diffyg adnodd a'r disgwyliad arnoch i flaenoriaethu gwaith. | Mari P Jones |
| 29/11/18 | **HW1509 - Penodi a Recriwtio**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn* | Lleihau y gofyn ar Adnoddau Dynol wrth ddatblygu trefn yn system Hunan Wasanaeth Staff i reolwyr gyflwyno cais i hysbysebu swydd, tynnu rhestr fer, penodi, integreiddio i yrru manylion i Cyborg, ayyb | 2 | hollol fodlon gyda'r cynigion a'r datrysiad ond mae'n cymryd gormod o amser i ddatblygu oherwydd eich diffyg adnodd a'r disgwyliad arnoch i flaenoriaethu gwaith. | Mari P Jones |
| 29/11/18 | **SSG1701 - Data Gweithlu**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn* | Awtomeiddio adroddiadau i bwrpas mewnol ac adroddiadau statudol e.e. ONS. Y data hefyd i fod mewn defnydd i boblogi 'dash-fwrdd' rheolwyr yn Huna Wasanaeth Staff | 1 | Yn ateb 1, ac yn gwneud y sylw hefyd fod mewnbwn a lefel dealltwriaeth Mark o'r data a'r systemau cefndir wedi bod yn gwbl allweddol wrth i ni ddatblygu ffordd well a mwy effeithlon o gyflenwi gofynion adrodd gweithlu ar gyfer ONS. | Emyr Edwards \ Tryfan Williams |
| 29/11/18 | **D1804 - Holiadur Blaenoriaethu Gwasanaethau**<br>***Rheolwr Prosiect TG : Elfyn*** | Oherwydd yr her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, darparu holiadur cyfleoedd i bobl Gwynedd ddod i ddeallt mwy am yr her, ac i flaenoriaethu'r Gwasanaethau lleol hynny sydd bwysicaf iddyn nhw. Cyflwyno canlyniadau a phrif negeseuon yr ymarferiad i gynghorwyr Gwynedd fel y gallent ddefnyddio'r adborth wrth ystyried pa Wasanaethau i'w gwarchod. | 1 | Roeddwn yn hapus iawn efo'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan Celfyn ag Aled, felly sgôr o 1.<br><br>Diolch i'r ddau ohonynt a gweddill y tîm am eu cefnogaeth. | Sion Gwynfryn Williams |
| 29/11/18 | **G1511 - Tracio Fflyd**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn* | Arbedion ariannol drwy ddisodli system allanol. Modiwl defnydd \ tan ddefnydd cerbydau fflyd ar waith. | 1 | | Kev Sheret |
| 29/11/18 | **D1805 - Holiadur Refeniw (Blaenoriaethu)**<br>***Rheolwr Prosiect TG : Elfyn*** | Mae cyfres o gynlluniau refeniw'r Cyngor angen eu blaenoriaethu. Galluogi Aelod Etholedig o'r Cyngor osod y cynlluniau mewn trefn blaenoriaeth. Angen arddangos swm ariannol y cynllun fel rhan o'r ymarferiad. | 1 | | Dilwyn Williams |
| 29/11/18 | **D1605 - System Integredig Dysgu a Datblygu**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn* | Canoli holl elfennau o ddysgu a datblygu staff. Modd i reolwyr weinyddu cyrsiau Cyflwyno cais am gwrs yn Hunan Wasanaeth Staff (rheolwyr i wirio). Modd i reolwyr teilwra anghenion cyrsiau hyfforddiant. | 1 | | Carey Cartwright |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 29/11/18 | **SY1806 - Asedau Gwynedd (disodli AMX)**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn* | Datrysiad symudol i gofnodi arolwg (gan gynnwys lluniau) o asedau sy'n gysylltiedig ag atal neu'n cael eu difrodi yn sgil llifogydd (pontydd, ffosydd, morwaliau, ayyb). Canlyniadau i fwydo i system swyddfa gefn i greu adroddiadau statudol a dadansoddiadau sy'n cefnogi bidiau ariannol i wella'r asedau. Incwm blynyddol £2,500 i TG, £2,500 ir Uned Llifogydd yn ogystal a arbedion effeithlonrwydd. | 1 | | Rob Williams |
| 29/11/18 | **Safle Monitro Arfordirol - Cymru**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn* | Sefydlu safle i ddal data arfordirol (proffil traethau). Llywodraeth Cymru wedi cytuno mewn egwyddor i ariannu'r safle i gynnwys data Cymru. Incwm i'w gasglu o ddatblygu'r cysyniad a hefyd y cynnal a | 1 | Hollol hapus | Emlyn Jones |
| 29/11/18 | **D1803 - Iechyd Galwedigaethol**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn* | Cyflwyno system gyfrifiadurol er cynnig dull mwy effeithlon i'r Gwasanaeth o gadw trac o'i gwaith dydd i ddydd yn ymwneud ag Apwyntiadau - ac ymdopi a llwyth gwaith cynyddol yn sgil cynnig y gwasanaeth i sefydliadau allanol.<br>Yn dilyn asesu system allanol ar y gost isod, penderfynwyd eu bod ddim yn ymateb i anghenion y gwasanaeth (rhy eang a dim integreiddio i system adnoddau dynol) - System Swyddi Gwynedd). Cyflenwr 1 Cost sefydlu £14,850, Blynyddol £13,699 | 1 | | Catrin Love |
| 29/11/19 | **L18001 - Monitro Afonydd**<br>*Rheolwr Prosiect TG : Elfyn* | Cysylltu rhwydwaith di-wifr LoRaWAN (Long Range Wide Area Network) i 'sensors' monitro lefel dŵr afonydd dalgylchoedd Bontnewydd a Waunfawr. Y gallu i rybuddio swyddogion\y gymuned drwy neges destyn neu e-bost. Yn ogystal arbed amser staff rhag ymweld a safleoedd i lawrlwytho data o'r 'sensors' presennol. Galw isel iawn ar y batri yn galluogi monitro heb gost cysylltiad trydan a rhwydwaith. | 1 | | Rob Williams |

| **Sylwadau pellach** | | |
|---|---|---|
| Man ddatblygiadau - gwella trefniadau gwaith | Holiadur mesuryddion llyfrgelloedd | Datblygiad symudol a desg fwrdd i symleiddio a hwyluso’r broses hel mesuryddion gwasanaeth llyfrgelloedd. Adroddiadau i ddadansoddi’r data. |
| | Cofnodi Ymholiadau (Plant a Chefnogi Teuluoedd) | Datblygiad i symleiddio a hwyluso’r broses cofnodi ymholiadau Tŷ Cegin, Maesgeirchen. Adroddiadau a dadansoddiadau pellach ar gael. |
| Tracio Fflyd | Ymweliad i Gyngor Caerdydd i ddangos system tracio fflyd gyda thrafodaeth ar y posibilrwydd o ddarparu’r gwasanaeth i'r Cyngor. Rhondda Cynnon Taf, Conwy a Cheredigion hefyd yn dangos diddordeb ac ar hyn o bryd yn treialu'r system drwy ddefnyddio'r datrysiad tracio symudol i gerbydau hurio. | |
| Platfform Gwefannau Drupal | Wedi sefydlu amgylchedd Drupal ar ein isadeiledd. Platfform pwerus, am ddim, ar gyfer datblygu gwefannau. Mae hyn yn ein galluogi i gynnig datblygu a hostio gwefannau ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor sydd yn gyfredol yn talu i gwmiau allanol ddatblygu a hostio eu gwefannau. | |
| Trefn a panel blaenoriaethu wedi ei sefydlu (oddi fewn gwasanaeth TG). Cyflwyno'r drefn blaenoriaethu i'r ceisiadau datblygu erbyn cyfarfod nesaf y grŵp (Ionawr 2019) | | |

**Ceisiadau yn aros am sylw**

| Adran | Nifer Ceisiadau | Rheswm \ Canlyniad |
|---|---|---|
| Addysg | 3 | - Atal rhag cyflwani arbedion effeithlonrwydd i unedau Disgyblion ADYaCh, Contractau Staff Addysg a gweinyddiaeth Llywodraethwyr drwy Hunan Wasanaethu |
| Amgylchedd | 2 | - aros i'r gwasanaeth gyflwyno anghenion<br>- arbedion effeithlonrwydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd |

| | | |
|---|---|---|
| CG | 10 | Aros i'r gwasanaeth gyflwyno anghenion |
| CG | 12 | Adnodd mewn lle ond ddim yn ddigonol i ymateb i'r ceisiadau.<br>- methu cyflwyno trefn recrewtio electronig, salwch, ceisiadau ad-daliadau profion llygid, ayyb yn Hunan Wasanaeth Staff |
| Corfforaethol | 9 | Dim adnodd datblygu<br>- llithro ar elfennau gwaith iGwynedd e.e. symud i ffwrdd o yrriant |
| Cyllid \ TG | 1 | Gwynedd gael mynediad i slipiau cyflog drwy Hunan Wasanaeth Staff Gwynedd |
| Economi | 2 | Dim adnodd datblygu<br>- atal cyflwyno gwelliannau i brosesau gwaith a'r hyblygrwydd o gael mynediad allanol i ffeiliau iGwynedd |
| Gwas. Cym. | 1 | Oedi - Aros am amserlen gweithredu o'r adran |
| Gwas. Cym. | 2 | Dim adnodd datblygu<br>- methu cyflwyno system i wella gweinyddiaeth cyfarpar a gosod |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 3 | Dim adnodd datblygu<br>- methu ehangu ar y cysyniad o ddarparu teclynnau i dracio lleoliad unigolion bregus. Arbedion o £40k y flwyddyn wrth ddisodli'r system bresennol a hefyd galluogi cyflwyno'r gwasanaeth i fwy ar |
| Plant | 1 | Dim adnodd datblygu<br>- Safle i ofalwyr maeth |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 6 | Dim adnodd datblygu<br>- methu cyflwyno gwelliannau i reolaeth cerbydau fflyd e.e. cais prynu cerbyd<br>- arbedion blynyddol oddeutu £30k i ddisodli system rheolaeth asedau fflyd gyda datrysiad mewnol<br>- methu cyflwyno system i 'fecanics' sy'n lleihau ymdrech cofnod gwybodaeth yn ystod profion cerbydau fflyd<br>- dim system rheoli stoc gwastraff ac ailgylchu |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 0 | |

**ADRAN CYLLID**

**ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELOD CABINET**

**GWASANAETH: Rheolaeth Rhaglen**

**Pwrpas yr tîm:** *Sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn defnyddio'r dechnoleg gywir i gyflwyno gwelliannau parhaus i wasanaethau'r Cyngor*

**Mesur Perfformiad**

**Prosiectau**

Mae gennym 52 prosiect ar waith ar hyn o bryd, rhain yn amrywio o rai bach i rhai mawr, dyma flas o rhai or prosiectau rydym yn weithio arnyn nhw.

**Datrysiad Symudol Archwilwyr Priffyrdd -** Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Fel rhan o'r prosiect Sianel Ddigidol sy'n trosglwyddo prosesau Priffyrdd i'r Porth Hunan Wasanaeth:

- Gweithio hefo swyddogion Priffyrdd er adnabod y trefniadau gwaith cyfredol
- Adnabod cyfle i ddefnyddio technoleg symudol er cyflwyno trefniadau gwaith mwy effeithlon - a thorri allan camau gwag
- Sicrhau fod y datrysiad yn plethu ac anghenion y prosiect Sianel Ddigidol ac yn integreiddio a systemau Cyngor
- Sicrhau fod y datrysiad yn un 'scaleable' – lle bydd modd ei ddefnyddio mewn meysydd gwaith eraill ar draws y Cyngor e.e. Cynlluniau eisoes mewn lle i ledaenu ar draws y Timau canlynol :

  Tîm Gorfodaeth Stryd

  Tîm Glanhau Stryd

  Tîm Goleuo Stryd

**Sut mae hyn yn gweithio**

- o Yn gryno, mae'r datrysiad symudol yn galluogi Swyddogion Gweinyddol Ardal i aseinio cais gwasanaeth cwsmer yn uniongyrchol i Archwiliwr maes yn Ffos, fel bod y cais yn ymddangos yn syth ar restr waith yr Archwiliwr ar ei declyn symudol.
- Yn ymarferol, mae hyn yn dilyn egwyddorion Ffordd Gwynedd o osgoi sawl cam gwag oedd yn bodoli yn y broses flaenorol, trwy ddefnydd o dechnoleg addas a chost effeithiol i'r Gwasanaeth.

  Er Engraifft :-

| | Proses Flaenorol Archwiliad Priffyrdd | Proses Newydd Archwiliad Priffyrdd |
|---|---|---|
| 1 | Cwsmer yn cyflwyno cais am wasanaeth neu adrodd problem | Cwsmer yn cyflwyno cais am wasanaeth neu adrodd problem |
| 2 | Cais yn cael ei gofnodi yn Ffos | Cais yn cael ei gofnodi yn Ffos |
| 3 | Swyddog Gweinyddol yn aseinio'r Cais i Archwiliwr yn Ffos | Swyddog Gweinyddol yn aseinio'r Cais i Archwiliwr yn Ffos |
| 4 | Swyddog Gweinyddol yn argraffu'r Cais | |
| 5 | Archwiliwr yn casglu'r Cais papur pan nesaf yn y swyddfa | |
| 6 | Archwiliwr yn cynnal yr Archwiliad | Archwiliwr yn cynnal yr Archwiliad |
| 7 | Archwiliwr yn conodi'r camau nesaf ar y Cais papur | Archwiliwr yn conodi'r camau nesaf ar y Cais symudol |
| 8 | Archwiliwr yn dychwelyd y Cais papur pan nesaf yn y swyddfa | |
| 9 | Swyddog Gweinyddol yn ail agor a diweddaru'r Cais yn Ffos | |

**Budd i'r Gwasanaeth**

- Dull mwy effeithiol ac effeithlon o gael ceisiadau gwasanaeth pobl Gwynedd i sylw'r swyddogion perthnasol yn y maes mor amserol a phosib trwy ddefnyddio technoleg a thorri allan camau gwag. PA FATH O GEISIADAU?

**Budd i bobl Gwynedd (Y Cwsmer)**

- Sicrhau fod materion y Cwsmer yn cael y sylw teilwng gan y swyddogion perthnasol mor fuan â phosib, a heb ymyrraeth weinyddol ormodol
- Sicrhau fod y Cwsmer yn cael diweddariad buan a chryno o ymateb y Cyngor i'w Cais

---

**Data System Swyddi Gwynedd (SSG) – Cefnogaeth Gorfforaethol**

Pwrpas y gwaith ydi cefnogi Tîm Cefnogol i adnabod anghenion data SSG a pharatoi canllaw i weinyddwyr y system.

Fel rhan o'r prosiect rydym yn cefnogi Tîm Cefnogol i:

- Gadarnhau rheolau i'r system i wella cywirdeb a sicrhau data cyflawn
- Adnabod anghenion pellach
- Paratoi Canllaw Gweinyddwyr SSG

**Buddion :**
System swyddi sydd wedi'i alinio i Strategaeth Digidol - Hunanwasanaeth y Cyngor.

---

### Dadansoddi Incwm a Thaliadau'r Cyngor - Cyllid

Pwrpas y gwaith ydi dadansoddi incwm a thaliadau'r Cyngor er mwyn cael darlun llawn i adnabod cyfleoedd i wella.

Fel rhan o'r prosiect rydym yn:

- Dadansoddi ffioedd bancio Barclays a chwmni Capita gyda chardiau credyd a debyd
- Dadansoddi costau gwasanaeth Swyddfa Bost (Santander)
- Cymharu costau darparwyr
- Meincnodi gyda siroedd eraill
- Cychwyn adolygiad o'n systemau Cyllid

Rhagamcan o arbedion posib
*drwy ddefnyddio galw a chostau gyfredol wedi chymharu yn erbyn dyfynbrisau ffurfiol gan Darparwyr Gwasanaethau Incwm (Income Service Providers) eraill.*

**Buddion**

1. Adnabod cyfleoedd i wella
2. Arbedion ariannol posib i'r Cyngor.

---

**Strategaeth TG Addysg - Addysg**

Creu strategaeth TG i ysgolion Gwynedd, sydd yn cynnwys gweledigaeth am y gwasanaeth TG byddent yn ei dderbyn, mynediad at offer a gwasanaeth TG, sut mae diogelu yr ysgolion a egwyddorion ar gyfer y dyfodol.

**Buddion i'r Cyngor/Ysgolion:**

- Sicrwydd fod yr offer TG yn fit i bwrpas
- Gwerth am arian i'r ysgolion – defnyddio caffael offer y Cyngor, defnyddio gweinyddwyr canolog
- Rhaglen adnewyddu offer
- Model cefnogaeth ar sail anghenion y sefydliadau addysgol

**Buddion i bobl / disgyblion Gwynedd:**

- Offer safonol i weithio gyda nhw
- Rhwydwaith cefnogaeth cryf
- Buddsoddiad i mewn i feddalwedd diweddaraf

---

**Tîm Caffael a Gweinyddiaeth**

Yn defnyddio dulliau Ffordd Gwynedd mae'r tîm yma yn y broses o fynd trwy ymarferiad o werthuso holl brosesau er mwyn gallu cynnig y gwasanaeth orau. Fel rhan or broses yma mi fydd dulliau mesur perfformiad yn cael ei adnabod ac byddant yn cael ei adrodd arnynt yn y cyfarfod nesaf.

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**


**<u>Gwasanaeth Pensiynau - Mesurau Cyflawni</u>**


Uwch Reolwr Cyfrifol : Dafydd L Edwards
Rheolwr Cyfrifol: Nick Hopkins

Pwrpas y Gwasanaeth:
I weinyddu’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 cyflogwr gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn cyfrifo a thalu pensiynau yn brydlon a chywir.



| Cyf. | Mesur Cyflawni | | Ch 2 18/19 | Ch 1 18/19 | Ch 4 17/18 | Ch 3 17/18 | Ch 2 17/18 | Ch 2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD9.03 | Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif. | | 4.20 | 3.50 | 3.30 | 4.70 | 2.40 | 9.70 | 11.80 | 11.50 |
| CD9.04 | Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - gwir werth. | | 1.80 | 2.10 | 1.50 | 2.40 | 5.30 | 2.20 | 4.20 | 5.80 |
| CD9.05 | Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i gyflawni cyfrifiadau a thaliadau dibynyddion yn dilyn marwolaeth aelod o’r cynllun. | Un o'r staff wedi ymddeol, a aelod newydd wedi cymryd drosodd | 9.10 | 6.70 | 9.82 | 9.69 | 4.56 | 5.80 | 8.57 | 4.90 |


Mewngofnodiad Cyntaf
Pensiwn Ar-lein
9000
8000
7000
6000
5000
4000
3000
2000
1000
0
Hydref 2015
Tachwedd 2015
Rhagfyr 2015
Ionawr 2016
Chwefror 2016
Mawrth 2016
Ebrill 2016
Mai 2016
Mehefin 2016
Gorffennaf 2016
Awst 2016
Medi 2016
Hydref 2016
Tachwedd 2016
Rhagfyr 2016
Ionawr 2017
Chwefror 2017
Mawrth 2017
Ebrill 2017
Mai 2017
Mehefin 2017
Gorffennaf 2017
Awst 2017
Medi 2017
Hydref 2017
Tachwedd 2017
Rhagfyr 2017
Ionawr 2018
Chwefror 2018
Mawrth 2018
Ebrill 2018
Mai 2018
Mehefin 2018


Achosion Gwallau Mewnol
14
12
10
8
6
4
2
0
Ebrill '17
Mai '17
Mehefin '17
Gorffennaf '17
Awst '17
Medi '17
Hydref '17
Tachwedd '17
Rhagfyr '17
Ionawr '18
Chwefror '18
Mawrth '18
Ebrill '18
Mai '18
Mehefin '18
Achosion Gwallau Mewnol

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**

**Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys - Mesurau Cyflawni**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dafydd L Edwards
Rheolwr Cyfrifol: Caroline L Roberts

Pwrpas y Gwasanaeth:
Uchafu budd o fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn, a chadw cyfrifon priodol;
Buddsoddi llif arian y Cyngor yn sâff, gyda llôg derbyniol;
Rheoli benthyciadau hir-dymor



| Cyf. | Mesur Cyflawni | Ch3 18/19 | Ch2 18/19 | Ch1 18/19 | Ch4 17/18 | Ch3 17/18 | Ch2 17/18 | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD13.05 | Cronfa Bensiwn - Perfformiad buddsoddi'r rheolwyr portffolio o'i gymharu â'r meincnod penodol a osodwyd ar eu cyfer. | | 0.70 | 0.70 | -0.60 | -1.00 | -0.20 | -0.10 | +1.0 | -0.30 |
| CD13.06 | Diogelwch arian y Cyngor wrth adnau arian mewn banciau - dadansoddiad chwarterol gan Arlingclose o'r sgôr credyd (1 ydi'r gorau, sef statws credyd AAA, 2 ydi AA+, 3 ydi AA, 4 ydi AA-, 5 ydi A+, 6 ydi A, 7 ydi A-). | | 4.21 | 3.85 | 3.96 | 3.76 | 3.97 | 3.00 | 3.44 | 3.21 |
| CD13.07 | Incwm llog ar adnau arian mewn banciau i'w mesur yn erbyn cyfradd 7 diwrnod LIBID heb ei compowndio | 0.62 | 0.65 | 0.61 | 0.45 | 0.47 | 0.42 | 0.58 | 0.62 | 0.66 |

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**

**<u>Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg - Mesurau Cyflawni</u>**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Ffion Madog Evans
Rheolwr Cyfrifol: Sian Pugh

Pwrpas y Gwasanaeth:
Darparu gwasanaeth cyllid a chyfrifeg, a chynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau | 18/19 | 17/18 | 16/17 | 15/16 | 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD5.01 | Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb | Gorwariant yn cael ei ragweld yn 2018/19 gan yr Adran Plant, elfen cludiant ysgolion gan Addysg ac yn y maes gwastaff gan Priffyrdd. Tanwariant un-tro gan Corfforaethol ac Adrannau eraill yn cynorthwyo efo'r sefyllfa ariannol eleni. Newid i'r drefn o fonitro cyllidebau wedi ei weithredu ar gyfer 2018/19, gan adrodd ar sefyllfa ddiwedd Awst, gwaith eisioes yn cael ei gwblhau ar yr adolygiad diwedd Tachwedd, a thrydydd adroddiad i'w gwblhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r newid yn y drefn yn cynorthwyo efo'r gofynion newydd i gau'r cyfrifon yn gynt. | -0.11% | -0.36% | -0.28% | -0.13% | -0.18% |

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**

**<u>Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg - Mesurau Cyflawni</u>**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Ffion Madog Evans
Rheolwr Cyfrifol: Sian Pugh

Pwrpas y Gwasanaeth:
Darparu gwasanaeth cyllid a chyfrifeg, a chynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau<br>Chwarter 2 18/19 | Ch2<br>18/19<br>17/18<br>16/17<br>15/16<br>14/15 | Ch1<br>18/19<br>17/18<br>16/17<br>15/16<br>14/15 | Ch4<br>17/18<br>16/17<br>15/16<br>14/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| CD5.3 | Monitro ariannol gan gynnwys cynhyrchu adroddiadau i'r Rheolwyr Cyllidebau, Tim Rheoli Corfforaethol, Aelodau Cabinet, Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ynghyd â monitro perfformiad cynlluniau arbedion a thoriadau y Cyngor. | · Adroddwyd ar sefyllfa ddiwedd Awst, refeniw, cyfalaf a'r arbedion i'r Cabinet 16/10/18 ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn Nhachwedd. Gwaith ar adolygiad ddiwedd Tachwedd ar y gweill.<br>· Adroddiadau misol o wariant yn erbyn y gyllideb yn cael eu gyrru i reolwyr cyllidebau.<br>· Y gwaith o fonitro arbedion a thoriadau yn digwydd yn barhaus, gyda adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfodydd herio perfformiad adrannol a thimau rheoli adrannol yn rheolaidd.<br>· Bu newid i'r drefn adrodd ar yr adolygiadau ar gyfer 2018/19 fel sydd wedi ei nodi yn CD5.01. | Wedi adrodd ar yr Adolygiad | Wedi adrodd ar yr Adolygiad | Wedi adrodd ar yr Adolygiad |

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau<br>Chwarter 2 18/19 | Ch2<br>18/19<br>17/18<br>16/17<br>15/16<br>14/15 | Ch1<br>18/19<br>17/18<br>16/17<br>15/16<br>14/15 | Ch4<br>17/18<br>16/17<br>15/16<br>14/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| CD5.04 | Llunio a dosbarthu Cyllideb y Cyngor yn flynyddol ac yn unol â’r amserlen benodol a phenodedig i gyrraedd y camau allweddol angenrheidiol | · Gwaith wedi ei wneud ar daflunio Cyllideb 2019/20. Gwaith manwl wedi ei wneud gan y Cyfrifwyr i edrych ar strwythurau staffio a phwyntiau cyflog 2019/20, cyfraddau chwyddiant, newidiadau i'r pwyntiau cyflog cenedlaethol, ffigyrau setliad a grantiau, pwysau ar wasanaethau, incwm ayyb.<br>· Gwaith wedi ei wneud i ddarparu gwybodaeth ar y gyllideb ar gyfer y gweithdai Cyllideb i Aelodau'r Cyngor ar ddechrau Rhagfyr.<br>· Amcanion wedi eu paratoi ar gyfer rhagolygon cyllidebau 2020/21 a 2021/22. | Gwaith ar Gyllideb 2019/20 wedi ei gwblhau yn unol â'r amserlen, tafluniadau ar gyllidebau 2020/21 a 2021/22 wedi eu gwneud | Gwaith cychwynnol wedi ei gwblhau | 2017/18 - Wedi cwblhau gwaith y gyllideb yn gynt na mewn blynyddoedd blaenorol, fel rhan o ymgais y gwasanaeth i gau cyfrifon terfynol yn gynt |
| CD5.5 | Cwblhad o'r Cyfrifion Terfynol (Cyfrifon Gwynedd, 2 Cyd-Bwyllgor a'r 4 Harbwr) a'r gofynion perthnasol i gynhyrchu Datganiad o'r Cyfrifon Drafft a sicrhau cymeradwyaeth o'r Datganiad o'r Cyfrifon terfynol. | · Cyfrifon Gwynedd, Cyd-Bwyllgorau a'r Harbyrau wedi eu cwblhau yn gynt ar gyfer 2017/18, gan eu cwblau a'u cyflwyno i'r Archwilwyr erbyn 15 Mehefin, sef y dyddiad statudol ar gyfer 2018/19 a 2019/20. Hyn i'w gymharu gyda 30 Mehefin mewn blynyddoedd blaenorol. Y camau oedd wedi ei gweithredu i geisio ymateb i'r her wedi bod yn llwyddiannus, ond y gwaith yn parhau i geisio gwella a chyflymu ein prosesau ac adnabod a goroesi rhwystrau.<br>· Dyddiad statudol yn 31 Mai ar gyfer 2020/21 ymlaen.<br>· Bwriad cyflawni y dyddiad 31 Mai cyn iddo ddod yn statudol yn 2021.<br>· Dychweliad 'Whole of Government Accounts' wedi ei cwblhau gan adrodd i Lywodraeth Cymru yn gynt eleni.<br>· Dychweliadau alldro refeniw a chyfalaf 2017/18 wedi eu cwblhau yn gynt gan y Cyfrifwyr.<br>· Archwiliad o'r cyfrifon gan Deloitte wedi ei gwblhau, a'r cyfrifon wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu erbyn diwedd Medi.<br>· Fel rhan o'n ymgais i geisio gyflymu cau cyfrifon a chydymffurfio efo'r gofynion statudol o flaen llaw, wedi gwneud cais i Deloitte i gwblhau'r archwiliad cyn diwedd Gorffennaf ar gyfer 2018/19, Deloitte wedi cytuno i hyn. Bydd diwedd Gorffennaf yn statudol erbyn 2021. | Cyfrifon wedi eu cwblhau yn derfynol erbyn 30 Medi | Cyfrifon 2017/18 wedi eu cwblhau erbyn 15 Mehefin 2018, cyn y dyddiad statudol o 30 Mehefin | Gwaith wedi ei wneud ar amserlen cau cyfrifon 2017/18 i geisio cwblhau cyn 30 Mehefin, mewn paratoad i dynhau yr amserlen ar gyfer 2018/19 |

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**

**<u>Gwasanaeth Incwm - Mesurau Cyflawni</u>**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Stephen Williams

<u>Pwrpas y Gwasanaeth:</u>
Prosesu incwm amrywiol a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn uchafu incwm, tra'n ystyried anghenion yr adrannau a gweithredu'n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch 2 18/19 | Ch 1 18/19 | Ch 4 17/18 | Ch 3 17/18 | Ch 2 17/18 | Ch 2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD7.05 | Cyfradd casglu dyledion amrywiol o fewn y chwarter – Gwerth. | Mae gostyngiad yn y perfformiad o gymharu a chwarter 2 2017/2018 a'r chwarter blaenorol. | 84.25% | 86.47% | 89.39% | 88.56% | 86.94% | 90.17% | 86.37% | 91.76% |

**<u>Dangosydd CD7.06: Canran o ddyledion ble daethpwyd i gytundeb talu gyda'r dyledwr.</u>**


Roedd trefniant talu yn ei le ar gyfer 6.98% o ddyledion ar ddiwedd chwarter 2. Dyma rai enghreifftiau o gytundebau o'r fath:

- Yn mis Chwefror 2018 roedd busnes yn y sir yn cael trafferthion llif arian ac wedi trafodaeth gyda'r adran berthnasol caniatawyd "gwyliau" ad-dalu dros dro. Wedi i'r busnes gael cyfle i wella'i sefyllfa ariannol dros yr haf dechreuwyd hawlio rhandaliadau ganddo o fis Mehefin 2018 ymlaen ar raddfa gychwynnol is, ond erbyn mis Medi 2018 mae'r taliadau yn ôl ar y lefel ddisgwyliedig.

- Derbyniodd teulu oedd wedi ôl-gronni dyledion prydau ysgol i'w hysgol gynradd anfoneb gan y Cyngor. Cafodd y rhieni eu hanfonebu fis Hydref 2018 a gofynnwyd am drefniant cychwynnol o £10.00 yr wythnos. Cytunwyd i hyn yn amodol y bydd y swm yn cael ei adolygu a'u bônt yn cadw i'r trefniant.

- Roedd busnes bwyd parod yn cael trafferthion llif arian ac oherwydd ymrwymiadau ariannol eraill fel rhent a.y.b. nid oeddynt yn gallu cadw at drefniant i dalu £200.00 y mis am wasanaeth casglu sbwriel masnachol. Eglurwyd i'r perchennog y byddai'r casgliadau'n dod i ben os nad oedd yn talu, ond cytunwyd ar drefniant diwygiedig o £30.00 yr wythnos ac mae'n cadw at y trefniant.

- Unigolyn wedi cael ei hanfonebu am waith clirio gardd mewn eiddo dan rhent. Mae'r dyledwr yn derbyn budd-dal tai llawn yn ogystal â Gostyngiad Treth Cyngor a datganodd na fyddai yn gallu talu'r swm mewn un taliad. Oherwydd ei sefyllfa cytunwyd ar drefniant o £5.00 yr wythnos yn daladwy yn y swyddfa bost ac mae hi wedi cadw at y trefniant fel fod bron i hanner y ddyled wedi ei thalu yn barod


(Dyledion Amrywiol Dros 6 mis oed ac eithrio
dyledion â gyfeirwyd am weithrediad pellach i wasanaethau eraill)
1200000
1000000
800000
600000
400000
200000
0
31/12/16
31/01/17
28/02/17
31/03/17
30/04/17
31/05/17
30/06/17
31/07/17
31/08/17
30/09/17
31/10/17
30/11/17
31/12/17
31/01/18
28/02/18
31/03/18
30/04/18
31/05/18
30/06/18
31/07/18
31/08/18
30/09/18
31/10/18
30/11/18
Mae'r perfformiad yn waeth na chwarter 2 2017/2018 ac hefyd y chwarter blaenorol. Fodd bynnag mae gwerth £438K o anfonebau yn daladwy gan y Bwrdd Iechyd. Pe byddai'r anfonebau yma wedi eu talu fe fyddai'r ffigwr yn £652K. Bwriedir cyfarfod gyda'r Bwrdd i geisio ffordd ymlaen i ddatrys y broblem.
Series1


**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**


**<u>Gwasanaeth Budd-daliadau - Mesurau Cyflawni</u>**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffith


<u>Pwrpas y Gwasanaeth:</u>
Prosesu ceisiadau Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn brydlon a chywir, er mwyn rhoi cymorth i ddinasyddion Gwynedd i dalu eu rhenti a biliau Treth Cyngor

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch2 18/19 | Ch1 18/19 | Ch 4 17/18 | Ch 3 17/18 | Ch 2 17/18 | Ch 1 17/18 | Ch 1 16/17 | Ch1 15/16 | Ch1 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD12.03 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dâl newydd (dyddiau) | Un aseswr profiadol wedi bod i ffwrdd drwy'r cyfnod oherwydd llawdriniaeth. Aseswr profiadol arall wedi ymddiswyddo yn ystod y Chwarter. Effaith hyn ar ein trefniadau prosesu yn golygu dirywiad yn y ffigyrau yn y Chwarter yma. Yn ogystal, fe fu i Lywodraeth Cymru newid rheolau a threfniadau Grant Gwisg Ysgol ar fyr rybudd yr haf yma sydd wedi golygu mwy o waith sicrhau fod y ceisiadau ychwanegol teilwng yn derbyn y Grant newydd. Yn ogystal, roedd ein systemau i lawr am gyfnod yn ystod Gorffennaf oherwydd y problemau TG. | 21.14 | 18.77 | 16.58 | 18.08 | 20.34 | 19.65 | 17.15 | 16.07 | 22.24 |
| CD12.04 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (budd-dâl) (dyddiau) | Yr un rhesymau â CD12.03 yn berthnasol ar gyfer diriwiad yn erbyn ffigwr Ch2 18/19. Problemau TG wedi effeithio mwy ar y ffigwr yma gan ein bod yn derbyn y ffeiliau yn electrong gan y DWP a nid oeddem yn cael mynediad atynt hyd nes oedd y cysylltiad wedi ei atgyweirio. | 6.82 | 5.19 | 3.09 | 7.08 | 7.09 | 6.53 | 5.95 | 6.55 | 8.95 |
| CD12.05 | Canran yr achosion mewn sampl a ddewiswyd ar hap lle bu rhaid addasu'r cyfrifiad yn dilyn gwiriad mewnol | Wedi gwirio 145 o geisiadau a newidwyd 7 o gyfrifiadau. O'r gwaith dadansoddi wnaethpwyd o ddata y chwarter yma ni welwyd patrwm cyffredin | 4.82% | 4.54% | 5.07% | 4.70% | 5.88% | 6.82% | | | |


Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dâl newydd (nifer o ddyddiau) (CD12.03)
Dyddiau
Cyfartaledd
24
21
18
15
12
9
6
3
0
22.24
22.78
21.48
15.23
16.07
16.84
16.95
15.99
17.15
17.34
18.31
17.08
19.65
20.34
18.08
16.58
18.77
21.14
CH1 2014-15
CH2 2014-15
CH3 2014-15
CH4 2014-15
CH1 2015-16
CH2 2015-16
CH3 2015-16
CH4 2015-16
CH1 2016-17
CH2 2016-17
CH3 2016-17
CH4 2016-17
CH1 2017-18
CH2 2017-18
CH3 2017-18
CH4 2017-18
CH1 2018-19
CH2 2018-19
Un aseswr profiadol wedi bod i ffwrdd drwy'r cyfnod oherwydd llawdriniaeth. Aseswr profiadol arall wedi ymddiswyddo yn ystod y Chwarter. Effaith hyn ar ein trefniadau prosesu yn golygu dirywiad yn y ffigyrau yn y Chwarter yma. Yn ogystal, fe fu i Lywodraeth Cymru newid rheolau a threfniadau Grant Gwisg Ysgol ar fyr rybudd yr haf yma sydd wedi golygu mwy o waith sicrhau fod y ceisiadau ychwanegol teilwng yn derbyn y Grant newydd. Yn ogystal, roedd ein systemau i lawr am gyfnod yn ystod Gorffennaf oherwydd y problemau TG.



Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (budd-dâl) (dyddiau) (CD12.04)
Dyddiau
Cyfartaledd
10
9
8
7
6
5
4
3
2
1
0
8.95
6.94
7.6
3.62
6.55
5.22
6.27
3.71
5.95
5.78
6.89
4.04
6.53
7.09
7.08
3.09
5.19
6.82
Yr un rhesymau â CD12.03 yn berthnasol ar gyfer diriwiad yn erbyn ffigwr Ch2 18/19. Problemau TG wedi effeithio mwy ar y ffigwr yma gan ein bod yn derbyn y ffeiliau yn electrong gan y DWP a nid oeddem yn cael mynediad atynt hyd nes oedd y cysylltiad wedi ei atgyweirio.
CH1 2014-15
CH2 2014-15
CH3 2014-15
CH4 2014-15
CH1 2015-16
CH2 2015-16
CH3 2015-16
CH4 2015-16
CH1 2016-17
CH2 2016-17
CH3 2016-17
CH4 2016-17
CH1 2017-18
CH2 2017-18
CH3 2017-18
CH4 2017-18
CH1 2018-19
CH2 2018-19


Canran yr achosion mewn sampl a ddewiswyd ar hap lle bu rhaid addasu'r cyfrifiad yn dilyn gwiriad mewnol (CD12.05)
0.09
0.08
0.07
0.06
0.05
0.04
0.03
0.02
0.01
0
CH3 2016-17
CH4 2016-17
CH1 2017-18
CH2 2017-18
Ch3 2017-18
Ch4 2017-18
CH1 2018-19
CH2 2018-19
Wedi gwirio 145 o geisiadau a newidwyd 7 o gyfrifiadau. O'r gwaith dadansoddi wnaethpwyd o ddata y chwarter yma, ni welwyd patrwm cyffredin.

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2018.19**

## Gwasanaeth Trethi - Mesurau Cyflawni (Chwarterol)

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Bleddyn Jones

Pwrpas y Gwasanaeth:
Casglu trethi yn brydlon ac effeithlon, gan geisio bod yn hyblyg a chydymdeimladol i amgylchiadau unigolion

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch2 18/19 | Ch1 18/19 | Ch4 17/18 | Ch3 17/18 | Ch2 17/18 | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD11.01 | Cyfradd Casglu Treth Cyngor | Effaith premiwm; cynydd mewn gwerth, llif eiddo i TAN | 57.2% | 30.0% | 97.13% | 85.11% | 57.8% | 58.06% | 58.15% | 58.12% |
| CD11.02 | Cyfradd Casglu Trethi Annomestig | Rhestr 2017 mewn lle dim trafferthion | 62.52% | 28.42% | 98.54% | 87.07% | 62.44% | 62.8% | 63.6% | 63% |
| CD11.04 | Nifer o drethdalwyr treth cyngor ddaeth i gyswllt â'r tim adfer ac â gyfeirwyd at fudiad y CAB am gyngor dyledion ehangach | | 24 | 18 | 55 | 62 | 41 | 68 | | |

Cwblhawyd gan adolygiad gan Archwilio Mewnol yn ystod Chwarter 2, sef:

- Atal a Dileu Treth Cyngor
- Trethi Busnes - Rhestr Brisio.

Roedd y ddwy adroddiad yn mynegi lefel sicrwydd **UCHEL,** a nid oedd camau gwella yn angenrheidiol.